ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**











Rydym yma i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bob defnyddiwr ynni, nawr ac yn y dyfodol.





# 2018-19

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Cyf 2317

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**

# 2018-19

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 27 Mehefin 2019

HC 2317

OGL

© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-1385-9

CCS0619362554 07/19

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys


## Adroddiad ar Berfformiad

Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ..... 6

Pennod 1: Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well ..... 8

Pennod 2: Hwyluso newid yn y system ynni ..... 11

Pennod 3: Sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn cyflawni ar gyfer defnyddwyr mewn system sy'n newid ..... 13

Pennod 4: Nodi a rheoli risgiau hirdymor ar ran defnyddwyr ..... 14

Pennod 5: Cynlluniau ynni adnewyddadwy a chymdeithasol Ofgem ..... 16

Pennod 6: Ein cyfraniad at ddatgarboneiddio ..... 19

Pennod 7: Y prif risgiau i'n gallu i gyflawni ..... 20

Pennod 8: Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr ..... 23

Pennod 9: Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ..... 24

Pennod 10: Adroddiad Cynaliadwyedd ..... 27

## Adroddiad ar Atebolrwydd ..... 35

## Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad ..... 60

## Cyfrifon Adnoddau ..... 67

## Datganiad Ymddiriedaeth ..... 89

## Atodiadau

**Atodiad I:** Dangosyddion Perfformiad Allweddol ..... 101

**Atodiad II:** Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi, 2018/19 ..... 103

**Appendix III** - Penodeion nad ydynt ar y gyflogres ..... 108

**Appendix IV** - Amser cyfleuster undeb llafur ..... 109

**Appendix V** - : Gofynion statudol o dan Adran V o'r Ddeddf Cyfleustodau (2000) ..... 110

# Amdanom ni

**Ni yw Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan (yr Awdurdod), sef rheoleiddiwr ynni annibynnol Prydain Fawr, yn gweithio i ddiogelu buddiannau defnyddwyr ynni nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn gweithredu drwy Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)[1].**

Ein diben craidd yw sicrhau y gall pob defnyddiwr gael gwerth a gwasanaeth da gan y farchnad ynni. Rydym yn ffafrio atebion ar gyfer y farchnad lle y bônt yn ymarferol, rheoleiddio cymhelliant ar gyfer monopolïau, a dull gweithredu sy'n ceisio galluogi arloesedd a newid buddiol gan ddiogelu defnyddwyr ar yr un pryd.

Mae Adran 5 o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (y cawsom ein sefydlu yn unol â hi) yn ei gwneud yn ofynnol ein bod yn cyhoeddi'r adroddiad hwn bob blwyddyn a bod elfennau penodol yn cael eu cynnwys. Gwelir nodyn ar y gofynion statudol hyn yn Atodiad V

(tudalen 110).

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein cynnydd o ran y prosiectau a ddisgrifiwyd yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2018-19. Mae hefyd yn asesu sut mae ein gweithredoedd wedi cyfrannu at ddiogelu buddiannau pob defnyddiwr nawr ac yn y dyfodol - o ddefnyddwyr domestig, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed, i fusnesau masnachol - a'r canlyniadau strategol rydym yn ceisio'u sicrhau, sef:

1. **Biliau is** nag y byddid yn eu gweld fel arall.
2. **Llai o niwed i'r amgylchedd** nawr ac yn y dyfodol.
3. **Dibynadwyedd a diogelwch gwell.**
4. **Gwasanaeth o ansawdd gwell,** sy'n briodol ar gyfer gwasanaeth hanfodol.
5. **Buddiannau i'r gymdeithas gyfan yn** cynnwys cymorth i'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau.

[1] At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y termau "Awdurdod" ac "Ofgem" yn gyfnewidiol.

# Rhagair y Cadeirydd
## Martin Cave

Ym mis Hydref 2018, dechreuais ar fy nhymor pum mlynedd fel Cadeirydd Ofgem. Ers hynny rwyf wedi dysgu cryn dipyn am y sector drwy nifer o ymweliadau, cyfarfodydd a digwyddiadau ledled Prydain Fawr er mwyn gweld â'm llygaid fy hun yr heriau a chyfleoedd aruthrol sy'n wynebu'r sector.

Yn bwysig ddigon, rwyf hefyd wedi cael y fraint o gyfarfod yn uniongyrchol â'r bobl rydym yn eu gwasanaethu er mwyn deall yr holl heriau sy'n wynebu pobl wrth iddynt gael gafael ar ynni i ddiwallu eu hanghenion fel gwasanaeth hanfodol.

Dros yr wyth mis ers i mi ymuno â'r sefydliad, mae saith person newydd wedi cael eu hychwanegu at Fwrdd Ofgem, gan gynnig arbenigedd a phrofiad o amrywiaeth o sectorau a chefndiroedd. Mae'r ymroddiad a'r arbenigedd a ddangosir gan staff Ofgem wrth fynd i'r afael â'r materion hynod gymhleth y mae'r sefydliad yn ceisio ymateb iddynt wedi gwneud argraff dda iawn arnaf.

Er mwyn ein helpu i wynebu heriau'r dyfodol, rydym wedi bod yn ailgynllunio ac ailflaenoriaethu ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn dod yn sefydliad mwy ystwyth ac effeithiol. Mae hyn yn cwmpasu ein gwaith rheoleiddio a'n gwaith i weinyddu cynlluniau gan y llywodraeth sy'n cefnogi cynaliadwyedd a chwsmeriaid agored i niwed. Mae hyn wedi golygu arbed arian ar rai gweithgareddau, a gweithredu'n gyflymach ac yn fwy hyblyg mewn ymateb i newidiadau cyflym iawn sydd weithiau'n annisgwyl.

Yn Ofgem, credwn ei bod yn hynod bwysig i ni wneud mwy o ymdrech a neilltuo mwy o adnoddau i ddod yn sefydliad mwy amrywiol. Felly, eleni gwnaethom lansio ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant gyntaf sy'n cynnwys targedau i'n gwneud ni'n fwy amrywiol fel sefydliad – gan gynnwys o ran ethnigrwydd, rhywedd, a nifer y staff sydd ag anableddau neu sy'n dod o gefndiroedd gwahanol.

Rydym hefyd wedi herio'r sector i fod yn fwy amrywiol ei hun, yn enwedig ar lefelau uwch, am ein bod yn credu'n gryf y bydd hyn yn eich helpu i wneud penderfyniadau gwell a gwasanaethu eich cwsmeriaid yn well.

Felly beth am y flwyddyn i ddod – a thu hwnt?

Yn 2019, bydd Bwrdd Ofgem yn datgan ein hamcanion strategol o ran y ffordd y dylem newid natur y tasgau rheoleiddio a'r tasgau eraill a gyflawnir gennym, a'r ffordd y dylem newid y ffordd rydym yn gweithio, fel sefydliad. Mae'r system ynni yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid sylfaenol wrth i brosesau datgarboneiddio, digideiddio a datganoli gyflymu.

Ni allwn wybod sut y bydd y dyfodol yn datblygu, ond gallwn fod yn sicr y bydd newid yn parhau i ddigwydd yn gyflym ac y bydd yn rhaid i ni fod yn sefydliad mwy ystwyth ac ymatebol er mwyn wynebu'r her hon.

Mae'r Bwrdd ei hun yn benderfynol o newid natur ei gyfraniad ei hun, gan symud i ffwrdd o fanylion rheoleiddio economaidd a gweinyddu cynlluniau tuag at ffocws mwy detholus a strategol ar iechyd y sefydliad ac ar effaith gyffredinol Ofgem ar gynnig buddiannau i'n cleientiaid terfynol – sef cwsmeriaid ynni nawr ac yn y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i'm rhagflaenydd fel Cadeirydd, David Gray, a wasanaethodd Ofgem gyda rhagoriaeth am bum mlynedd.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'n Prif Swyddog Gweithredol ymadawol, Dermot Nolan, sydd wedi llywio Ofgem drwy gyfnod o newid aruthrol dros y chwe blynedd diwethaf. Ei waddol i Ofgem fydd y ffaith ei fod yn gadael sefydliad sydd â gweledigaeth gliriach ar gyfer y dyfodol ac sy'n gallu cyflawni ein prif ddyletswydd i ddiogelu cwsmeriaid yn well.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd ar yr heriau pwysig hyn yn y dyfodol.



**Martin Cave**
Cadeirydd



# Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
## Dermot Nolan

Mae wedi bod yn flwyddyn bwysig arall i'r sector wrth i'r broses o drawsnewid ynni gyflymu ac wrth i sylw'r cyhoedd droi fwyfwy at y ffordd y gallwn wynebu'r her garbon.

Yn ddiweddar, cyrhaeddodd y sector ynni garreg filltir arall ar y llwybr tuag at ddatgarboneiddio drwy fynd pythefnos heb ddefnyddio trydan a gynhyrchwyd drwy losgi glo, a hynny am y tro cyntaf ers yr 1880au.

Yn Ofgem, rydym wedi bod yn paratoi'n fewnol i fynd i'r afael â'r cymhlethdod, newidiadau cyflym ac ansicrwydd sy'n wynebu'r sector ynni ac sydd wedi dod yn norm newydd yn ddiweddar.

Ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom gyflwyno cap ar brisiau tariffau diofyn a fydd yn arbed mwy na £1 biliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr, ac rydym wedi parhau i roi diwygiadau ar waith er mwyn helpu i drawsnewid y farchnad ynni er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n dda i bob defnyddiwr. Bydd y system newydd hon yn fwy cymhleth, felly eleni rydym wedi diweddaru ein strategaeth ar gyfer defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus er mwyn nodi'r hyn y credwn sy'n bwysig ar gyfer y 5-6 blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod y bobl yn y sefyllfa fwyaf bregus yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol ym marchnad y dyfodol.

Gwelsom nifer o gyflenwyr yn ymadael â'r farchnad dros y flwyddyn ddiwethaf. Er bod hyn yn ddisgwyliedig mewn marchnad sy'n gweithio'n iawn, rydym wedi adolygu ein dull o drwyddedu a rheoleiddio cyflenwyr mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn codi safonau mewn perthynas â chydnerthedd ariannol a gwasanaeth cwsmeriaid.

Ym mis Mai gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad ynghylch y fethodoleg a fydd yn gymwys i systemau rheoli prisiau RIIO-2 ar gyfer y cwmnïau rhwydwaith ynni. Bydd hyn yn sicrhau gwerth gwell i ddefnyddwyr drwy ddysgu gwersi o'r gorffennol gan baratoi'r rhwydweithiau ar gyfer system ynni'r dyfodol ar yr un pryd.

Mae'r newidiadau rydym am eu gwneud i'r system ynni hefyd yn golygu y bu'n rhaid i ni ymgynghori ynghylch diwygio'r systemau taliadau rhwydwaith er mwyn hybu defnydd mwy effeithlon o'r system bresennol, lleihau'r angen am wifrau a gorsafoedd pŵer newydd drud, a chadw costau mor isel â phosibl i ddefnyddwyr.

Parhaodd ein cyfarwyddiaeth E-Serve i gyflawni amrywiaeth eang o gynlluniau ynni adnewyddadwy a chynlluniau cymdeithasol ar ran y llywodraethau rydym yn gweithio gyda nhw, ac rydym wedi cydweithredu'n llawn â'r ymchwiliad cyhoeddus i'r Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig yng Ngogledd Iwerddon.

Hwn fydd fy Rhagair olaf fel Prif Swyddog Gweithredol Ofgem gan y bydd fy nhymor yn dod i ben ym mis Chwefror 2020. Wrth i mi edrych tua'r dyfodol i Ofgem a'r sector ynni ehangach, er bod yr heriau'n sylweddol, bydd hefyd yn gyfnod cyffrous i weithio mewn sector y mae'n rhaid iddo ymgymryd â rôl arweiniol wrth wynebu'r her sero net a sicrhau nad oes unrhyw ddefnyddwyr yn cael eu gadael ar ôl yn y broses o drawsnewid ynni.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer o benodiadau newydd wedi cael eu gwneud i dîm gweithredol a Bwrdd Ofgem, gan gynnwys ein Cadeirydd newydd, Martin Cave. Yn ddi-os, bydd yr arweinyddiaeth gyfnerthedig newydd hon yn grymuso Ofgem yn dda i gyflawni'r canlyniadau y ceisiwn eu cyflawni ar gyfer defnyddwyr yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn dalu teyrnged i holl staff Ofgem. Mae gen i barch aruthrol at y proffesiynoldeb a'r gwaith caled a geir ganddynt fel gweision cyhoeddus. Mae wedi bod yn fraint gweithio gyda chi i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr yn ystod fy nghyfnod yma – ac rwy'n dymuno'n dda i bob un ohonoch yn y dyfodol.



**Dermot Nolan**
Prif Swyddog Gweithredol



# Adroddiad ar Berfformiad

## Trosolwg

**Diben ein hadroddiad ar berfformiad yw disgrifio ein gwaith tuag at gyflawni ein hamcanion, ynghyd â'n dull strategol a'r prif risgiau rydym wedi'u hwynebu.**

Yn ystod 2018/19, ein nod oedd gweithio tuag at gyflawni pum canlyniad cyffredinol i gwsmeriaid. Ymhlith y rhain roedd: biliau is; llai o effeithiau ar yr amgylchedd; dibynadwyedd a diogelwch gwell; ac ansawdd gwasanaeth gwell.

Wrth weithio tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn, gwnaethom geisio sicrhau'r budd gorau posibl i ddefnyddwyr drwy'r blaenoriaethau allweddol canlynol:

- **Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well,** ac sy'n gweithio i bob defnyddiwr, gan gynnwys y rhai mewn sefyllfaoedd bregus;
- **Hwyluso newid yn y system ynni,** , gan gefnogi'r broses o drawsnewid i system ynni carbon is, fwy datganoledig, hyblyg a dynamig sydd o fudd i ddefnyddwyr;
- **Sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn cyflawni ar gyfer defnyddwyr mewn system sy'n newid,** wrth iddynt ymateb i newidiadau i'r system ehangach ym mhob rhan o'r sector;
- **Nodi cyfleoedd a rheoli risg hirdymor ar ran defnyddwyr** drwy ein rôl rheoleiddio graidd a'n gwaith monitro, sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi; yn ogystal â gwaith ymchwil i ddefnyddwyr, sganio'r gorwel a chynnal ein sgiliau arbenigol ar gyfer y diwydian.

Fel rhan o'n gwaith mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r canlyniadau uchod, rydym wedi rhoi dull cadarn o reoli risg ar waith, sydd â'r nod o nodi risgiau a all effeithio ar ein heffeithiolrwydd a'n heffeithlonrwydd o ran bodloni'r dyheadau hyn, a mynd i'r afael â nhw.

Mae manylion am ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol i'w gweld yn Atodiad I (gweler tudalen 101).

Rydym wedi cwblhau sawl darn pwysig o waith yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, ar 1 Ionawr 2019, cyflwynwyd y cap dros dro ar dariffau (neu'r Cap ar Brisiau) ar gyfer defnyddwyr ar Dariffau Amrywiadwy Safonol. Gwnaethom hefyd gyflwyno pum egwyddor orfodadwy newydd, sy'n rhoi pwyslais ar alluogi cyflenwyr i gyfathrebu â chwsmeriaid mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Daeth y gwahaniad rhwng Gweithredwr System Drydan a Pherchennog Gweithrediadau Trawsyrru'r Grid Cenedlaethol i rym ar 1 Ebrill 2019, gan baratoi'r ffordd i'r Gweithredwr System Drydan gamu ymlaen ac ymgymryd â rolau uwch o ran cynllunio'r system. Mae rhagor o fanylion am y cyflawniadau hyn a chyflawniadau eraill i'w cael isod, ynghyd â'n cynnydd ar waith a fydd parhau i fynd rhagddo yn 2018/19.

# Galluogi marchnad fanwerthu sy'n gweithio'n well

## Cyflwyno mesurau dros dro i ddiogelu prisiau

Ym mis Gorffennaf 2018, daeth Deddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Dariffau) 2018 i rym, gan ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cap dros dro ar dariffau (neu'r **Cap ar Brisiau**) ar gyfer cwsmeriaid ar Dariffau Amrywiadwy Safonol. Roedd y Llywodraeth wedi bod yn pryderu bod cyflenwyr ynni yn codi gormod ar gwsmeriaid nad oeddent yn newid tariff neu gyflenwr er mwyn dod o hyd i gynnig rhatach sy'n addas i'w hanghenion. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynnal ymgynghoriad statudol er mwyn ystyried sut i gynllunio Cap ar Brisiau a'i roi ar waith, gan gynnwys sut y byddai'r Cap hwnnw'n cael ei bennu a'i addasu o bryd i'w gilydd.

Cyhoeddwyd ein penderfyniad ym mis Tachwedd, a daeth y Cap ar Brisiau i rym ar 1 Ionawr 2019. Caiff lefel y Cap ei hadolygu bob chwe mis i adlewyrchu newidiadau yng nghostau sylfaenol cyflenwi ynni. Ym mis Chwefror, gwnaethom bennu lefel y Cap ar gyfer yr ail gyfnod, sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2019. Cododd y lefel, gan adlewyrchu costau uwch ynni cyfanwerthu. Amcangyfrifir y bydd cyflwyno'r Cap ar Brisiau yn sicrhau bod cwsmeriaid ar Dariffau Amrywiadwy Safonol yn arbed £1 biliwn ar eu biliau ynni bob blwyddyn[2].

## Gwella ymddygiad y farchnad fanwerthu

Mae'n hollbwysig bod cyflenwyr yn rhoi'r **wybodaeth gywir, yn y fformat cywir ac ar yr adeg gywir** i gwsmeriaid er mwyn eu galluogi i ddeall eu costau a'u defnydd, deall eu hopsiynau, a gwneud penderfyniadau da. Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod bod y rheolau a oedd ar waith i sicrhau hyn wedi mynd yn fwy rhagnodol na rhaid.

Gwnaethom fabwysiadu **dull seiliedig ar egwyddorion o ddiwygio ein rheolau ar gyfer cyfathrebu rhwng cyflenwyr a defnyddwyr.** Drwy roi gofynion newydd ar waith i gyflenwyr, ein nod yw eu galluogi i gyfathrebu â'u cwsmeriaid mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Ym mis Rhagfyr 2018, gwnaethom gyhoeddi penderfyniad yn dilyn ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, yn cadarnhau y byddem yn **cyflwyno pum egwyddor orfodadwy newydd**.

Mae'r newidiadau i'n rheolau, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2019, yn ein galluogi i ddwyn cyflenwyr ynni i gyfrif am sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr, gan gael gwared ar y baich sy'n gysylltiedig â thua 50 o dudalennau o amodau trwydded ar yr un pryd.

Gwnaethom ddechrau diweddaru ein **Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Ariannol Fregus**, a gyhoeddwyd yn 2013, lle rydym yn bwriadu egluro strategaeth yr Awdurdod dros y pump i chwe blynedd nesaf, wrth i'r farchnad ynni drawsnewid i dechnolegau mwy deallus a modelau busnes newydd.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar **fesur yr effaith ar ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus a chadw golwg arni** er mwyn sicrhau nad yw'r defnyddwyr hynny'n cael eu gadael ar ôl, a'u bod yn **cael budd cadarnhaol o newidiadau yn y farchnad**. Aethom ati i ddilyn dull system gyfan o weithredu, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr a chwmnïau rhwydwaith yn cyflawni eu rhwymedigaethau i'w defnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd llythyr agored gennym yn nodi **pum maes posibl i ganolbwyntio arnynt**. Dyma oedd y sail ar gyfer y strategaeth ddrafft y bydd yr Awdurdod yn ei hadolygu ym mis Chwefror 2019. Caiff fersiwn derfynol o'r Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Ariannol Fregus ei chyhoeddi yn nes ymlaen yn 2019.

Mae cystadleuaeth yn y marchnadoedd ynni manwerthu wedi cynyddu'n sylweddol dros yr hanner degawd diwethaf. Mae hyn wedi arwain at fuddiannau i ddefnyddwyr o ganlyniad i fwy o gystadleuaeth o ran prisiau a phwysau ar gyflenwyr sydd eisoes yn masnachu i wella'r gwasanaeth a gynigir ganddynt i gwsmeriaid. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld

[2] I gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg, gweler: https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2018/11/appendix_11_-_final_impact_assessment.pdf

**mwy o gyflenwyr yn methu a chynnydd mewn gwasanaeth cwsmeriaid anfoddhaol** mewn rhai achosion penodol. Er bod ein trefniadau presennol wedi llwyddo i ddiogelu defnyddwyr pan fo cyflenwr yn methu, **mae methiant yn amharu ar y farchnad, a gall olygu bod cyflenwyr eraill yn mynd i gostau.** Hefyd, os bydd cyflenwyr yn methu'n gyson, bydd hyn yn peri risg o danseilio hyder defnyddwyr yn y farchnad.

Nod ein **Hadolygiad Trwyddedu Cyflenwyr** yw atgyfnerthu ein cyfundrefn trwyddedu a rheoleiddio er mwyn codi safonau yn y sector a lleihau'r risgiau ariannol sy'n wynebu cystadleuwyr a defnyddwyr, a gwasanaeth cwsmeriaid gwael, cymaint â phosibl. Ym mis Mehefin 2018, gwnaethom gyhoeddi llythyr agored ar gwmpas ac amcanion ein hadolygiad ac, yn fuan wedi hynny, ymgynghoriad ar ein hamodau trwydded 'cyflenwr pan fetho popeth arall'.

Cyhoeddwyd penderfyniad i roi gofynion mynediad llymach ar waith ym mis Ebrill 2019. Rhaid i gyflenwyr ynni sy'n gwneud cais am drwydded ddangos bod ganddynt yr adnoddau priodol i ymuno â'r farchnad, eu bod yn deall eu rhwymedigaethau rheoliadol a'u bod wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith i'w cyflawni, a bod yn 'gymwys a phriodol' i feddu ar drwydded gyflenwi. Byddwn yn parhau i ddiweddaru ein dull rheoleiddio ar gyfer amcanion eraill, a nodir yn ein llythyr agored yn ystod 2019/20.

## Rhoi marchnadoedd a systemau ar waith i gefnogi dewis defnyddwyr ac arloesedd

Ar sail ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, **rydym o'r farn nad yw'r trefniadau 'canolfan cyflenwyr' yn addas i'r diben ar gyfer defnyddwyr ynni yn y tymor hwy**, a bod achos cryf dros ystyried diwygiadau sylfaenol i'r model hwnnw. Cyflwynwyd y model 'canolfan cyflenwyr' ar ôl i'r sector ynni gael ei breifateiddio, gan olygu mai cyflenwyr oedd y prif ryngwyneb rhwng defnyddwyr a'r farchnad ynni. Credwn fod y model wedi atgyfnerthu goruchafiaeth cyflenwyr mwy yn y farchnad fanwerthu ac wedi atal cystadleuaeth. Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaethom nodi'r dystiolaeth fel rhan o'n prosiect **Trefniadau Marchnad Gyflenwi yn y Dyfodol**, ar gyfer y camau y gallem eu cymryd ar unwaith i fynd i'r afael â hyn.

Adleisiwyd yr angen hwn am ddiwygio tymor hwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Tachwedd 2018 pan gyhoeddodd adolygiad ar y cyd â'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i **ystyried sut y gellid cynllunio marchnad fanwerthu'r dyfodol.** Yr hyn a fydd wrth wraidd yr adolygiad hwn yw nodi'r diwygiadau sydd eu hangen i sicrhau bod y farchnad fanwerthu'n addas ar gyfer y dyfodol, drwy hybu cystadleuaeth a llywio arloesedd, gan ddiogelu defnyddwyr rhag niwed a, thrwy hynny, ddatgloi buddiannau fel costau ynni is ac allyriadau carbon is i bob defnyddiwr.

Yn ystod haf 2019, byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar y cyd â BEIS yn nodi amrywiaeth o ddiwygiadau er mwyn arloesi, diogelu defnyddwyr yn well a diogelu cwsmeriaid mewn sefyllfa fregus ym marchnad fanwerthu'r dyfodol. Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn barod i ddeddfu er mwyn llywio cynnydd os oes angen.

Caiff **data ynni defnyddwyr,** megis faint o ynni a ddefnyddir ganddynt a pha dariff y maent arno, eu storio gan gyflenwyr ynni mewn fformatau gwahanol ac mewn niferoedd amrywiol ar hyn o bryd. **Mae cael gafael ar y data hyn ar ran defnyddwyr yn aml yn broses feichus sy'n cymryd llawer o amser** gan nad oes fformat safonol i gyflenwyr allforio a rhannu data â thrydydd partïon fel gwefannau cymharu prisiau.

Yn dilyn cais am dystiolaeth a thrafodaethau ag arweinwyr digidol ym mhob rhan o'r Llywodraeth, cytunodd Ofgem i gymryd awenau prosiect MiData ar y sail mai dull gweithredu trawslywodraethol, amlranddeiliad fyddai â'r siawns orau o sicrhau llwyddiant. Gwnaethom weithio gyda BEIS a rhanddeiliaid eraill i **ddatblygu safon data agored (MiData)**, i weithredu fel set o reolau

ar gyfer cysondeb rhwng cyflenwyr, yn ogystal â datblygu **fframwaith achredu** er mwyn sicrhau mai dim ond â phartïon dibynadwy y gellir rhannu data defnyddwyr. **Gwnaethom hefyd ddechrau datblygu trefniadau llywodraethu** a fyddai'n ein galluogi i fonitro cydymffurfiaeth â'r safon ac yn fodd iddi ddatblygu ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith.

## Annog mwy o ddefnyddwyr i ymwneud â'r farchnad ynni

Drwy ein rhaglen **Newid Cyflymach, Mwy Dibynadwy**, rydym yn parhau i ddatblygu ffordd i ddefnyddwyr newid cyflenwr ynni mewn modd dibynadwy a chyflym, gan gynnwys newid erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae gwella ansawdd data'r diwydiant yn agwedd bwysig ar y prosiect hwn. Erbyn 2021, rydym yn bwriadu **symleiddio a chysoni'r trefniadau newid cyflenwr nwy a thrydan** mewn ffordd gosteffeithiol, a datblygu pecyn rheoleiddio newydd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Mae hyn yn cynnwys creu gwasanaeth newydd, sef y Gwasanaeth Canolog ar gyfer Newid Cyflenwr.

Ym mis Mehefin 2018, cynigiwyd trefniadau llywodraethu newydd gennym ar gyfer newid cyflenwr, gan gynnwys **Cod Ynni Manwerthu newydd** er mwyn gorfodi trefniadau llywodraethu rhwng Data Communications Company (DCC) – cwmni rydym wedi'i drwyddedu i sefydlu a rheoli seilwaith mesuryddion deallus a chyfathrebu – yn ei rôl fel darparwr y Gwasanaeth Canolog ar gyfer Newid Cyflenwr, a defnyddwyr y gwasanaeth.

Ym mis Medi 2018, gwnaethom bennu'r trefniadau hyn yn derfynol a chyhoeddi penderfyniad polisi ar gyfer DCC a phob cyflenwr ynni i gytuno i'r Cod Ynni Manwerthu a chydymffurfio ag ef. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi penderfyniad pellach i osod 'dyletswydd i gydweithredu' yn nhrwydded DCC, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2019.

O fis Mai 2019, bydd defnyddwyr hefyd yn elwa ar ein prosiect **Data Gwell, Newid Gwell**, a fydd yn cyflwyno iawndal awtomatig ar gyfer achosion pan fydd pethau'n mynd o chwith wrth newid cyflenwr ynni. Credwn y bydd hyn yn creu cymhellion cryf i gyflenwyr wella eu perfformiad o ran newid cyflenwr ac yn gwneud y broses o newid yn fwy dibynadwy. Amcangyfrifwyd gennym yn 2017 y byddai hyn yn arwain at drosglwyddo £72 miliwn rhwng cyflenwyr ynni a defnyddwyr.

Bydd **iawndal awtomatig am broblemau wrth newid cyflenwr** yn cael ei gynhyrchu ar sail Safonau Gwarantedig, a roddwyd ar waith yn gyfreithiol gan y Gweinidog Ynni ym mis Chwefror 2019. Bydd ail tranche o Safonau Gwarantedig yn dod yn weithredol yn nes ymlaen yn 2019.

Yn dilyn adolygiad yn 2016, cynigiodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y dylai Ofgem greu **cronfa ddata o gwsmeriaid sydd wedi ymddieithrio** a rhannu manylion y cwsmeriaid hyn â chyflenwyr eraill er mwyn annog cystadleuaeth drwy farchnata. Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnig ein bod yn **treialu dulliau o annog cwsmeriaid i newid tariff** drwy anfon llythyrau atynt yn nodi'r cynigion rhataf ar gyfer tariffau o'r farchnad gyfan.

Yn ystod 2018/19, gwnaethom **barhau i ymgysylltu** â defnyddwyr drwy dreialu a darparu gwybodaeth a gwasanaethau newydd er mwyn eu helpu i ymwneud â'r farchnad drwy bum prif brosiect. Caiff canlyniadau'r rhain eu rhyddhau drwy gydol 2019.

# Hwyluso newid yn y system ynni

## Datblygu trefniadau'r dyfodol

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Llywodraeth ar y **Cynllun Systemau Deallus a Hyblygrwydd**, sydd â'r nod o chwalu rhwystrau rhag defnyddio technoleg newydd, gan hybu marchnadoedd sy'n gweithio'n hyblyg. Mae'r gwaith o gyflawni'r cynllun wedi mynd rhagddo yn unol â'r disgwyl ar y cyfan, gydag ond mân achosion o oedi.

Mae'r Gweithredwr System Drydan yn cydbwyso cyflenwad trydan â galw amser real. Credwn fod angen i rôl y Gweithredwr ddatblygu er mwyn sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i helpu i drawsnewid y system drydan dros y degawdau nesaf.

**Mae'r gwahaniad rhwng swyddogaethau Gweithredwr System Drydan a Pherchennog Gweithrediadau Trawsyrru'r Grid Cenedlaethol** yn bwysig er mwyn i'r Gweithredwr allu camu ymlaen i ymgymryd â rolau uwch o ran cynllunio'r system, a bydd mwy o annibyniaeth i'r Gweithredwr yn helpu i osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Rhoddwyd y gwahaniad ar waith yn llwyddiannus ar 1 Ebrill 2019.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran **Diwygio Mynediad a Thaliadau**. Nod y gwaith hwn yw helpu i fodloni galw system ynni'r dyfodol drwy newid y rheolau mewn perthynas â'r ffordd mae cwmnïau ynni'n defnyddio rhwydweithiau trydan, a hefyd drwy wneud newidiadau i'r taliadau 'tuag at y dyfodol' y mae'r cwmnïau hyn yn eu talu. Lansiwyd ein Adolygiad Cod Sylweddol ym mis Rhagfyr 2018, sydd â'r nod o gefnogi'r gwaith hwn.

Lansiodd Ofgem a'r Llywodraeth a**dolygiad o godau'r diwydiant a threfniadau llywodraethu'r codau** ym mis Tachwedd 2018. Mae codau'r diwydiant yn ategu'r marchnadoedd ynni, ac mae'n ofynnol i gwmnïau ynni gydymffurfio â nhw yn unol ag amodau eu trwyddedau. Mae'r adolygiad ar y camau cynnar, a'i nod yw sicrhau y bydd y codau a threfniadau llywodraethu'r codau yn addas i'r diben wrth i ni drawsnewid i system ynni'r dyfodol.

Gwnaethom barhau â'n gwaith gyda'r Llywodraeth ar **ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)**, o ystyried yr angen i'r strwythur rheoleiddio barhau i weithredu'n briodol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE.

Gwnaethom barhau i gynnig ein gwasanaeth adborth **Am Ddim, Cyflym a Gonest ('Free, Fast, Frank')** er mwyn helpu entrepreneuriaid i gyflwyno modelau busnes, cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy a fforddiadwy i'r farchnad, yn unol â'r rheoliadau presennol. Cafodd rhai o'r entrepreneuriaid hyn gynnig i symud ymlaen i brofi eu gwasanaethau yn ein **'Bocs Tywod Rheoleiddiol'**.

Roedd ein 'Bocs Tywod Rheoleiddiol' yn cynnig cyfle i arloeswyr gynnal treial lle y byddai rhai rheolau'n cael eu diddymu dros dro. Cynhaliwyd pob treial am gyfnod penodedig o amser, gyda nifer gyfyngedig o gwsmeriaid ac amcanion dysgu penodol er mwyn profi dichonolrwydd y model. Ar ddiwedd y treial, rhoddwyd yr holl reolau arferol yn ôl ar waith a chyflwynodd yr arloeswr adroddiad i Ofgem ar yr hyn roedd wedi'i ddysgu. Gyda'i gilydd ein gwasanaeth adborth 'Am Ddim, Cyflym a Gonest' a'n 'Bocs Tywod Rheoleiddiol' yw ein **Cyswllt Arloesi**.

Erbyn mis Medi 2018, roeddem wedi cynorthwyo 22 o arloeswyr drwy ein gwasanaeth adborth a gwnaethom barhau i gael ymholiadau rheolaidd a chymhleth drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod dau gyfnod 'Bocs Tywod Rheoleiddiol', bûm yn gweithio gydag arloeswyr i lywio'r ffordd y gellid cynnal y treialon, eu cyfarwyddo a rhoi cyngor arnynt. Ar ddiwedd 2018/19, roedd pump o'r cynhyrchion/gwasanaethau hynny yn cael eu paratoi ar gyfer y treial byw.

Er mwyn datblygu trefniadau rheoleiddio at y dyfodol, rydym hefyd wedi cyflawni gwaith i **baratoi ar gyfer cerbydau trydan**, er mwyn deall yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan gynnydd cyflym posibl yn nifer y bobl sy'n eu defnyddio.

Gwnaethom ymgysylltu â'r diwydiant, y llywodraeth a chyrff defnyddwyr i sicrhau ein bod yn bwydo i mewn i fentrau amrywiol rhwng gwahanol gyrff. Rydym hefyd wedi bod yn weithgar o ran **ymgysylltu ag ynni lleol**, gan gynnwys trafod cynigion am fodelau ynni lleol â rhanddeiliaid a chynnal cynhadledd ynni lleol er mwyn dwyn rhanddeiliaid ynghyd.

### Taliadau rhwydwaith ac adennill costau

Rydym wedi parhau â'n **Hadolygiad Taliadau wedi'i Dargedu**. Prif ffocws ein Hadolygiad yw ymchwilio

i daliadau 'gweddilliol'[£] a godir ar gwmnïau ynni sy'n cysylltu â rhwydweithiau trydan (fel busnesau cynhyrchu, storio a chyflenwi). Ceir potensial i'r system bresennol o daliadau gweddilliol ystumio canlyniadau a chynyddu taliadau i rai defnyddwyr.

Gwnaeth newidiadau strwythurol parhaus i farchnad nwy Prydain Fawr, a deddfwriaeth yr UE i gysoni taliadau trawsyrru ym mhob Aelod-wladwriaeth, ein hannog i gynnal yr **Adolygiad Taliadau Trawsyrru Nwy**. Mae'r gwaith hwn yn ystyried newidiadau i'r gyfundrefn codi tâl a allai fod o fudd i ddefnyddwyr. Yn ystod 2018/19, gwnaethom gefnogi'r diwydiant drwy fwrw ymlaen â'r Adolygiad, ond bu rhywfaint o oedi wrth weithio gyda'r diwydiant i bennu'r cynigion terfynol. Bydd ein cefnogaeth yn parhau drwy gydol 2019/2020.

## Rhoi'r trefniadau a'r seilwaith deallus allweddol ar waith

Ni sy'n gyfrifol am reoleiddio **cydymffurfiaeth cyflenwyr â'u rhwymedigaethau o ran gosod mesuryddion deallus**. Ein rôl yw diogelu buddiannau defnyddwyr drwy fonitro cydymffurfiaeth cyflenwyr ynni â'u rhwymedigaethau yn unol â'u trwydded mesuryddion deallus, a rheoleiddio DCC, gan gynnwys drwy reolaeth prisiau (gweler Annog mwy o ddefnyddwyr i ymwneud â'r farchnad ynni' uchod).

Yn seiliedig ar gyflwyniad gan DCC, gwnaethom ddatblygu cynigion ar gyfer **systemau rheoli prisiau ar gyfer blwyddyn reoleiddio 2017/18** a phenderfyniad arnynt ym mis Chwefror 2019. Dyma'r system a ddefnyddir i gyfiawnhau a chymeradwyo taliadau gweithredu DCC.

Yn ystod 2018/19, dechreuodd cyflenwyr ynni drawsnewid i osod **y math newydd o fesuryddion deallus newydd** (SMETS1 i SMETS2), ond ni chyrhaeddwyd rhai o'r targedau gosod ar gyfer 2018. Gwnaethom ddilyn dull cydymffurfio a gorfodi gyda rhai cyflenwyr er mwyn iddynt gyflawni'n well, a gwnaethom weithio gyda BEIS i fynd i'r afael â diffyg cysondeb rhwng targedau a chyflawni realistig. Cafwyd **cynlluniau ar gyfer cyflwyno targedau 2019** hefyd, a oedd yn dangos llawer llai o uchelgais ar gyfer 2020. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gwnaethom ymgysylltu â chyflenwyr ynghylch eu cynlluniau, a BEIS ynghylch cynllun y fframwaith cyflawni rheoleiddiol ar ôl 2020.

Ym mis Hydref 2018, cafodd rôl yr awdurdod dros y **Cod Ynni Clyfar** ei throsglwyddo o BEIS i Ofgem. Yn ogystal â chyhoeddi penderfyniadau ynghylch addasiadau i'r Cod, rydym bellach yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Diogelu'r Rhwydwaith a Gwybodaeth, gan eu bod yn gysylltiedig â'r Cod.

Un o fanteision amlwg mesuryddion deallus yw eu gallu i fonitro defnydd o ynni ar y pryd, a gellir defnyddio hyn i lunio biliau mwy cywir i ddefnyddwyr. Er mwyn sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd hyn, rhoesom gymhellion ar waith i gyflenwyr brynu ynni i fodloni galw eu cwsmeriaid ym mhob hanner awr o'r dydd (diwygiad setlo trydan). Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaethom lansio Adolygiad Cod Sylweddol, sy'n nodi **amserlen ar gyfer setlo bob hanner awr drwy'r farchnad gyfan**, i'w chyflawni drwy Fodel Gweithredu Targed.

Bydd setlo bob hanner awr yn cynnig cymhellion i gyflenwyr helpu eu defnyddwyr i symud eu defnydd o ynni i adegau o'r dydd pan fydd trydan yn rhatach i'w gynhyrchu a'i drawsyrru. Bydd hyn yn cynnig arbedion uniongyrchol i ddefnyddwyr, a gaiff eu gwobrwyo am eu hyblygrwydd, a hefyd arbedion ym mhob rhan o'r system drwy osgoi buddsoddi mewn capasiti cynhyrchu a thrawsyrru newydd.

Er mwyn datblygu'r gwaith hwn, gwnaeth Gweithgor Cynllunio dan arweiniad ELEXON ddatblygu opsiynau ar gyfer cynllun y Model Gweithredu Targed a dewis opsiwn a ffefrir. Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriadau ynghylch gallu cyflenwyr i gael data bob hanner awr at ddibenion setlo, ac ynghylch cynnig na ddylai swyddogaethau asiantiaid data fod yn ganolog. Caiff y canfyddiadau eu cyhoeddi ddechrau 2019/20 ar ôl i'r Awdurdod gytuno arnynt. Gwnaethom hefyd gyhoeddi cais am dystiolaeth ar effeithiau'r diwygiad setlo trydan ar ddefnyddwyr, er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn iawn beth yw effaith y diwygiad hwn ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr.

[3] Mae rhwydweithiau trydan yn codi tâl ar gwmnïau (cynhyrchwyr, busnesau storio a chyflenwyr) i gysylltu â'r system. Mae hyn yn cynnwys 'taliad tuag at y dyfodol' (a fwriedir i adlewyrchu effaith defnyddwyr ar gostau rhwydwaith, gan gynnwys costau buddsoddi nawr ac yn y dyfodol) a 'thâl gweddilliol' (a fwriedir i fod yn daliad 'ychwanegol' er mwyn sicrhau y gall costau'r rhwydwaith gael eu talu ar ôl i'r taliadau eraill gael eu codi).

# Sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn cyflawni ar gyfer defnyddwyr mewn system sy'n newid – RIIO a chyfundrefn gystadleuol ehangach

## Rheoleiddio cwmnïau rhwydwaith monopoli

**Mae'r gwaith i ddatblygu RIIO-2 wedi parhau.** RIIO (Revenue=Incentives+Innovation+Outputs) yw fframwaith seiliedig ar berfformiad Ofgem

Gwnaethom barhau i gyhoeddi penderfyniadau ynghylch **lwfansau am gostau nad oedd sicrwydd yn eu cylch ar adeg pennu systemau rheoli prisiau presennol RIIO1.** Mae 'systemau ansicrwydd' yn caniatáu newidiadau i'r refeniw a ganiateir i gwmni rhwydwaith os cyfyd costau annisgwyl o'r fath. Gwnaethom hefyd weinyddu'r pecyn **o systemau cymhellion ariannol ac enw da** a roddwyd ar waith er mwyn sicrhau bod allbynnau'n cael eu cyflawni'n effeithlon ar gyfer cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

Pan wnaethom ddatblygu systemau rheoli prisiau RIIO, gwnaethom gydnabod bod rhai elfennau ansicr a allai effeithio ar allu cwmnïau rhwydwaith i gyflawni. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ansicrwydd hwn, darparwyd ar gyfer cynnal adolygiad hanner ffordd drwy'r system rheoli prisiau; sef yr **Adolygiad Canol Cyfnod**, petai angen.Yn Ch1 2018, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i beidio â chynnal Adolygiad Canol Cyfnod o'r system rheoli prisiau bresennol ar gyfer dosbarthu trydan (RIIO-ED1), gan na thybiwyd bod angen gwneud hyn.

Pan gyflwynwyd systemau rheoli prisiau RIIO gennym, gwnaethom sefydlu **Cystadleuaeth Arloesi'r Rhwydwaith Trydan**, sydd wedi parhau yn ystod 2018/19. Mae'r Gystadleuaeth yn gyfle blynyddol i gwmnïau rhwydwaith trydan i gystadlu am gyllid ar gyfer datblygu ac arddangos technolegau newydd, trefniadau gweithredu a threfniadau masnachol. Gwnaethom gyhoeddi cyfarwyddiadau cyllido i brosiectau llwyddiannus ar gyfer 2018/19 yn ystod Chwarter 4.

## Hybu cystadleuaeth lle y bo'n addas

Ym Mlaenraglen Waith 2018/19, gwnaethom addo symud ymlaen â'n cynlluniau i **gyflwyno grymoedd tebyg i gystadleuaeth ar gyfer cyflawni buddsoddiadau trawsyrru mawr ar y tir.** Rydym wedi parhau i ddatblygu modelau cystadleuaeth amgen a'u cymhwyso at brosiectau trawsyrru newydd ar y tir. Yn ystod 2018/19, gwnaethom benderfyniad ynghylch y model cyflawni ar gyfer prosiect Hinkley-Seabank, a gwnaethom hefyd gynnal ymgynghoriad ynghylch achosion o angen a modelau cyflawni ar gyfer prosiectau trawsyrru ar Ynysoedd Shetland ac Ynysoedd y Gorllewin.

Rydym wedi parhau i gynnal prosesau tendro llwyddiannus am berchnogaeth rhwydweithiau newydd drwy **gyfundrefn perchnogion gweithrediadau trawsyrru ar y môr (OFTO)**, gyda'r nod o sicrhau gwerth da am arian i ddefnyddwyr. Gwnaethom gynnal adolygiad cyfnodol o'n prosesau tendro OFTO. Hefyd, rhoesom drwydded ar gyfer fferm wynt ar y môr Dudgeon, a gwnaethom ddewis cynigwyr a ffefrir ar gyfer prosiectau Race Bank, Galloper a Wesley Extension.

Drwy gydol 2018/19, nod Ofgem oedd **asesu effeithiolrwydd y gyfundrefn bresennol ar gyfer rhyng-gysylltwyr.** Bu oedi yn y gwaith hwn yn ystod 2018/19 am nad oedd yn glir faint o'r rhyng-gysylltwyr arfaethedig a fyddai'n cael eu hadeiladu, a beth fyddai'r trefniadau masnachu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae angen mwy o eglurder cyn dechrau unrhyw adolygiad.

# Nodi cyfleoedd a rheoli risg hirdymor ar ran defnyddwyr

## Ymgysylltu â marchnadoedd, eu monitro a'u rheoli

Mae'r Farchnad Gapasiti yn sicrhau bod digon o gapasiti trydan ar gael i fodloni'r galw. Mae ein gwaith i helpu i gaffael y capasiti priodol mewn arwerthiannau capasiti, i fonitro perfformiad mewn arwerthiannau ac yn arwain at newidiadau buddiol i reolau'r Farchnad Gapasiti wedi parhau. Fodd bynnag, **roedd y Farchnad Gapasiti yn destun penderfyniad gan Lys Ewrop ym mis Tachwedd, sy'n golygu bod pob arwerthiant a thaliad i Ddarparwyr Capasiti yn y dyfodol wedi cael eu hatal**. Mae hyn wedi cael effaith ar gwmpas ein gwaith yn ystod chwarteri 3 a 4. Er gwaethaf hyn, gwnaethom barhau â'n gwaith ar yr Adolygiad Pum Mlynedd o reolau'r Farchnad Gapasiti, ac rydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn helpu i adfer y Farchnad Gapasiti.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i bwysleisio i **gwmnïau ynni eu dyletswydd i roi eu defnyddwyr yn gyntaf** drwy ein dull o ymgysylltu a monitro, yn unol â'u rhwymedigaethau rheoliadol. Rydym am weld mwy o ymwybyddiaeth ymhlith cwmnïau ynni o'u rhwymedigaethau i ddefnyddwyr a chynnydd yn eu gallu i **nodi risgiau a'u rheoli'n effeithiol**. Lle y bydd pethau'n mynd o chwith, sy'n anochel, rhaid i ddefnyddwyr gael eu trin â pharch, a hynny'n brydlon a, lle bo angen, rhaid cynnig taliad unioni addas. I lywio hyn, rydym yn **monitro'r marchnadoedd ynni cyfanwerthu a manwerthu**.

Lle bo cwmnïau ynni wedi methu â gweithredu'n unol â'u rhwymedigaethau, bydd yr Awdurdod yn cynnal ymchwiliadau a all olygu bod angen gweithgarwch gorfodi. Mae **Atodiad II** o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn yn nodi'r **gweithgarwch ymchwilio a gorfodi** rydym wedi'i gyflawni yn ystod 2018/19. Mae Atodiad II hefyd yn cynnwys crynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'n gwaith **monitro'r marchnadoedd cyfanwerthu a manwerthu**, yn ogystal â'n **gweithgarwch cydymffurfiaeth**. Yn unol â'n rhwymedigaethau adrodd statudol, mae'r Atodiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r gorchmynion terfynol a thros dro a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod blwyddyn adrodd 2018/2019 ynghyd â chrynodeb o'r cosbau a roddwyd gan yr Awdurdod yn ystod yr un cyfnod.

Er mwyn gwneud ein gweithgarwch cydymffurfiaeth a gorfodi yn fwy **tryloyw**, gwnaethom barhau i fynd ati i **gyfathrebu â'r gymuned a reoleiddir gennym** yn ystod 2018/19. Ym mis Mehefin 2018, gwnaethom gyhoeddi ein pedwerydd Trosolwg Gorfodi Blynyddol, a oedd yn cynnwys manylion y gweithgarwch rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018. Ym mis Medi 2018, gwnaethom gynnal ein Cynhadledd Cydymffurfiaeth a Gorfodi. Ym mis Awst 2018, gwnaethom gyhoeddi'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn ein Hadroddiad ar Gydymffurfiaeth a Gorfodi Cyflenwyr Manwerthol ar gyfer gwanwyn/haf 2018 ac, ym mis Hydref, llythyr agored ar ymchwiliadau Ofgem i'r gwaith o gyflwyno uwch-fesuryddion a'r goblygiadau i'r gwaith o gyflwyno mesuryddion deallus.

## Cynnal a gwella ein sgiliau a'n galluoedd arbenigol ar gyfer y diwydiant

Mae peirianneg wrth wraidd llawer o'r cwmnïau ynni a reoleiddir gan Ofgem, a thechnoleg fydd un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno newid wrth drawsnewid i ddyfodol carbon isel. Mewn ymateb i'r her hon, gwnaethom sefydlu **Canolfan Ragoriaeth Peirianneg a Thechnoleg** yn Ofgem, gan recriwtio staff o gefndiroedd ym meysydd peirianneg a thechnoleg.

Ym mis Mai 2018, trosglwyddwyd rôl yr **Awdurdod Cymwys ar gyfer ynni** i Ofgem a BEIS ar y cyd pan ddaeth Cyfarwyddeb yr UE ar **Reoliadau Diogelwch Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth** 2018 i rym. Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau newydd ar Weithredwyr Gwasanaethau Hanfodol ac yn rhoi pwerau a chyfrifoldebau newydd i ni er mwyn sicrhau bod y Gweithredwyr hyn yn cyflawni'r dyletswyddau hynny.

Bwriad y Rheoliadau yw gwella **seiberddiogelwch a seibergadernid** cyffredinol Gweithredwyr

Gwasanaethau Hanfodol, mewn perthynas â'r systemau rhwydwaith a gwybodaeth sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau hanfodol. Rhaid i'r Gweithredwyr hyn roi gwrthfesurau seiberddiogelwch technegol a sefydliadol priodol a chymesur ar waith i reoli'r risgiau a gyflwynir i ddiogelwch y rhwydwaith a gwybodaeth, y mae eu gwasanaeth hanfodol yn dibynnu arnynt, ac atal effaith digwyddiadau ar y gwasanaethau hanfodol, a'u lleihau cymaint â phosibl.

Ym mis Ionawr 2019, cawsom ein hunanasesiadau cyntaf gan 23 o Weithredwyr Gwasanaethau Hanfodol. Gofynnir am gyflwyniadau gan 24 o Weithredwyr eraill ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chywerthedd y Rheoliadau â'r Cod Ynni Clyfar (gweler 'Rhoi'r trefniadau a'r seilwaith deallus allweddol ar waith' ar dudalen 5). Yn fewnol, dechreuodd Ofgem hefyd ddatblygu ei gynlluniau ei hun er mwyn sicrhau ein bod wedi rhoi systemau neu brosesau digonol ar waith i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

## Parhau i gynnig ffynhonnell awdurdodol o waith dadansoddi ac arwain syniadau

Gwnaethom gyhoeddi ein hail **Adroddiad Blynyddol ar Gyflwr y Farchnad Ynn**i ym mis Hydref 2018. Mae'r adroddiad yn asesu i ba raddau y mae marchnadoedd ynni'n gweithio'n dda i ddefnyddwyr o ran cyflawni'r canlyniadau hyn.

Fel rhan o'n hymrwymiadau i ddatblygu ein cydweithio â'r diwydiant a'r byd academaidd, sefydlodd Ofgem **Ganolfan Ymchwil** bwrpasol yn ystod y flwyddyn. Ei nod yw datblygu rhaglen ymchwil sy'n cefnogi ein gwaith datblygu polisïau, drwy fanteisio i'r eithaf ar ryngweithio traws-sector ynghylch polisi, hwyluso'r broses o drawsnewid i economi carbon isel a nodi anghenion defnyddwyr yn y dyfodol a thueddiadau byd-eang. Caiff y Ganolfan ei harwain gan bwyllgor llywio sy'n cytuno ar y prosiectau ymchwil y dylem eu cyflawni. Yn ystod y flwyddyn, datblygodd y Ganolfan y canlynol:

- papur dealltwriaeth o'r dyfodol ar gerbydau trydan;
- adroddiadau yn edrych ar enghreifftiau rhyngwladol o drefniadau diofyn amgen a datgyfryngu'r cyflenwad;
- ymchwil i gynorthwyo ein gwaith datblygu polisi ar gyfer yr adolygiad taliadau wedi'i dargedu ac ymgynghoriad ein hail rownd o systemau rheoli prisiau rhwydwaith (RIIO-2);
- ymarfer blaenoriaethu i sganio'r gorwel ar gyfer y sector ynni;
- gwerthusiad polisi o rwymedi tryloywder prisiau CMA;
- dadansoddiad o'r tariff 'trosglwyddo costau', ar gyfer ein prosiect cynllunio marchnad fanwerthu'r dyfodol;
- taith defnyddwyr microfusnesau.

Hefyd, dechreuodd y Ganolfan waith ymchwil i lwyfannau ar gyfer defnyddwyr hyblyg, ac ymateb ar yr ochr galw, a gaiff ei gwblhau ddechrau 2019/20.

Gwnaethom barhau i gyflawni gwaith **sicrhau ansawdd, asesu effaith a gwerthuso**, yn unol ag argymhellion yn adolygiad Trysorlys EM o sicrwydd ansawdd a modelau dadansoddol y Llywodraeth. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn helpu ein timau polisi i ddatblygu eu modelau dadansoddol ac adolygu eu dadansoddiadau cost a budd ac asesiadau o effaith, cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

# Cynlluniau ynni adnewyddadwy a chymdeithasol Ofgem

Mae Ofgem yn cyflawni portffolio o raglenni ynni adnewyddadwy a rhaglenni cymdeithasol ar ran ein partneriaid yn y llywodraeth (BEIS ac Adran yr Economi Gogledd Iwerddon). Mae'r cynlluniau hyn yn werth mwy na £9bn y flwyddyn a chânt eu cyflawni gan ein cyfarwyddiaeth weithredol, E-Serve. Mae'r gydberthynas sydd gennym â'n partneriaid yn seiliedig ar sicrhau gwerth da am arian y trethdalwyr. Fe'i hategir gan amcan clir i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

Yn 2018/19, gwnaethom ddiwygio ein dull o gyflawni ein cynlluniau er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir gennym a chynyddu'r gwerth am arian rydym yn ceisio ei sicrhau i'n partneriaid cyllido.

Gwnaethom gyflawni hyn drwy waith ailstrwythuro cynhwysfawr lle y crëwyd pedair Canolfan swyddogaethol.

Yn y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

**Cyflawni:** Ein rôl graidd, sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Gwnaethom gyfuno'r gwaith o gyflawni a gweinyddu ein holl gynlluniau mewn un uned arbenigol fwy ystwyth.

**Sicrwydd:** Gwnaethom sefydlu amgylchedd rheoli cyfnerthedig er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn ynghylch ein portffolio o gynlluniau, risgiau a reolir ac achosion o dwyll yr ymchwilir iddynt.

**Technoleg:** Gwnaethom fuddsoddi mewn pobl a systemau, gan ddatblygu atebion technolegol i ddiogelu ein galluoedd cyflawni at y dyfodol. Gwnaethom groesawu cysyniadau gan gynnwys dysgu yn seiliedig ar beiriannau, deallusrwydd artiffisial ac awtomeiddio data.

**Cydberthnasau:** Gwnaethom gynnal a gwella ein cydberthnasau â'n partneriaid allweddol yn y Llywodraeth yn ogystal â sicrhau gwerth gwirioneddol drwy helpu i ddatblygu polisi.

## Cyflawni

### Trydan Adnewyddadwy

Yn ystod 2018/19, caeodd cynllun y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynllun y Tariff Cyflenwi Trydan (FIT) i newydd-ddyfodiaid, gyda'r broses o gau FIT yn cael ei rheoli yn 2018/19. Gwnaethom barhau i weinyddu'r ddau gynllun, sy'n rhoi cymorth parhaus i gynhyrchwyr achrededig, sy'n gyfrifol am bron i 30% o'r holl drydan a gynhyrchir. Yn 2018/19, gwerth cyfunol y cynlluniau hyn oedd £6.7bn.

Roedd cynllun FIT yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr trydan trwyddedig a oedd yn cymryd rhan wneud taliadau ar gynhyrchu ac allforio trydan o weithfeydd cymwys, er mwyn hybu'r defnydd o dechnolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel. Eleni oedd wythfed flwyddyn cynllun FIT, a'i flwyddyn olaf yn dilyn penderfyniad ym mis Gorffennaf 2018 gan BEIS i ymgynghori ynghylch cau'r cynllun. Tyfodd cyfanswm y capasiti a ddefnyddir o dan y cynllun o 5.65 GW yn y seithfed flwyddyn i 6.02 GW yn yr wythfed flwyddyn, sef cynnydd o 6.6%. Ar y cyfan, cynhyrchwyd 8,357 GWh o drydan gan weithfeydd FIT. Mewn ymateb i ddiddordeb cynyddol mewn cydleoli storfeydd, gwnaethom gyhoeddi canllawiau newydd ar gydleoli storfeydd â gweithfeydd FIT.

Roedd y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn gosod rhwymedigaeth ar gyflenwyr trydan y DU i gael cyfran gynyddol o'r trydan a ddarperir ganddynt o ffynonellau adnewyddadwy. Yn 2018/19, rhoesom 103.2 miliwn o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn seiliedig ar gynhyrchu 75.2TWh o drydan adnewyddadwy. Roedd hyn yn gyfwerth â 26.4% o farchnad cyflenwi trydan y DU. O'i gyfuno â'r 8.4TWh a gynhyrchwyd gan weithfeydd FIT, mae'r ffigur hwn yn codi i 29.3%.

Yn 2017/18, sef y flwyddyn ddiweddaraf rydym wedi paratoi adroddiad arni, methodd 14 o gyflenwyr â chyflawni eu rhwymedigaeth, gan arwain at ddiffyg o £58.6m yn y gronfa allbrynu. Arweiniodd y diffyg hwn at gilyddu am y tro cyntaf yn hanes cynllun y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Ystyr cilyddu yw pan fydd yn rhaid i gyflenwyr wneud taliadau ychwanegol i wneud iawn am ddiffyg yng nghronfeydd y cynllun a achoswyd am na wnaeth cyflenwyr eraill

gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y cynllun. O'r achosion hynny o ddiffyg cydymffurfio, gwnaethom gymryd y camau gorfodi priodol ac adennill arian lle roedd modd.

## Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI)

Gwnaeth y timau RHI barhau i gefnogi newid rheoliadol a rheoli'r cynlluniau RHI Domestig ac Annomestig ym Mhrydain Fawr. Yn 2018/19, cyflwynwyd nifer o ddiwygiadau sylweddol i'r cynlluniau RHI. Ymhlith y rhain roedd Gwarantau ar gyfer Tariffau, gofynion porthiant, dolenni daear a rennir a newidiadau o ran defnydd cymwys o wres i'r RHI Annomestig a chyflwyno trefniadau Aseinio Hawliau a mesuryddion ar gyfer perfformiad i'r RHI Domestig.

Eleni oedd pumed flwyddyn y cynllun RHI Domestig ac, ers iddo gael ei lansio, mae systemau achrededig wedi cynhyrchu mwy na 3.1 MWh o wres adnewyddadwy. Ym mis Mawrth 2019, roeddem wedi achredu 64,642 o systemau ers i'r cynllun gael ei lansio.

Yn ein rôl fel gweinyddwr cynlluniau cymhelliant gwres adnewyddadwy domestig ac annomestig y Llywodraeth, gwnaeth Ofgem daliadau i gyfranogwyr y cynllun gwerth cyfanswm o £817,898,169 yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19.

Yn seiliedig ar ein gwaith samplu'r boblogaeth ac yn amodol ar ein tybiaethau manwl, gallwn fod yn 95% hyderus bod y gwerth gwall ar gyfer taliadau cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr a wnaed neu a gronnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 rhwng terfynau uchaf ac isaf £21,765,747 a £43,175,637. Yn seiliedig ar yr un tybiaethau, y gwerth gwall mwyaf tebygol ar gyfer yr un cyfnod yw £32,470,692.

Gwnaethom barhau i gefnogi'r gwaith o reoli cynllun RHI Annomestig Gogledd Iwerddon, gan gynnwys cynorthwyo gyda'r rhaglen archwilio gysylltiedig. Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn Senedd y DU i reoli gwerth taliadau cynllun Gogledd Iwerddon yn y dyfodol. Gwnaethom gefnogi newidiadau i reoliadau perthnasol fel bod modd i daliadau barhau yn ddi-dor.

Yn 2018/19, gwnaethom gyflwyno tystiolaeth i'r Ymchwiliad Cyhoeddus i gynllun RHI Gogledd Iwerddon a helpu gyda gwaith yr Ymchwiliad, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2019.

## Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni a Chymdeithasol

Gwnaeth ein gwaith o weinyddu'r cynlluniau hyn barhau i gael effaith uniongyrchol ar ddefnyddwyr, gan leihau biliau ynni a diogelu defnyddwyr agored i niwed. Ar ôl i sawl cyflenwr bach fethu yn 2018/19, gwnaethom gydweithio â chydweithwyr sy'n rheoli proses 'cyflenwr pan fetho popeth arall'. Gwnaethom sicrhau nad oedd defnyddwyr sy'n cael Gostyngiad Cartrefi Cynnes dan anfantais pan oedd cyflenwyr olynol yn cael eu penodi ar gyfer y grwpiau cwsmeriaid hyn.

Parhaodd ein gwaith o weinyddu Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni drwy gydol y flwyddyn, gydag elfen ECO2 y cynllun yn dod i ben ac ECO3 yn cael ei lansio. Drwy gydol oes ECO2, cyfrannodd y cynllun arbedion gwerth mwy na 27 MtCO2. Gwnaethom lansio ECO3 sy'n rhoi ffocws newydd i'r cynllun ar arbedion biliau gydol oes i'r rhai sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd. Gwnaethom hefyd lansio ein gwasanaeth i bartïon sydd dan rwymedigaeth drwy reoli'r cynllun gan ddefnyddio llwyfan awtomataidd mwy deallus.

## Sicrwydd

Mae'r gwaith o reoli ein portffolio cyfan yn seiliedig ar ein hymrwymiad i gyflawni sicrwydd ar ein holl weithgareddau. Crëwyd ein Canolfan Sicrwydd er mwyn sicrhau rhagoriaeth yn y maes hwn, drwy ddefnyddio system o wiriadau a mesurau rheoli.

Gwnaethom gyflwyno strategaeth archwilio uwch a gweithio gyda Phrifysgol Strathclyde i sicrhau bod ein rhaglen archwilio ystadegol yn gadarn ac yn gynrychiadol. Gwnaethom fuddsoddi mewn arloesedd o ran data a sgiliau er mwyn ymchwilio i feysydd lle roeddem yn amau bod ein cynlluniau'n

cael eu camddefnyddio er budd ariannol nas bwriadwyd. Ychwanegwyd gwiriadau pellach at y ffordd rydym yn gwneud taliadau, gan leihau'r risg o wneud taliadau anghywir, a chyflawni sicrwydd i ddefnyddwyr bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

Hefyd, gwnaethom ymateb i argymhellion gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i wneud nifer o newidiadau i'n ffordd o weinyddu'r cynlluniau RHI. Roedd y gwaith hwn yn elfen allweddol o'n gwaith o ymgysylltu â'n Pwyllgor Risg a Sicrwydd ein hunain a arweinir yn annibynnol, a gwblhaodd ei flwyddyn gyntaf ers cael ei sefydlu yn 2018.

## Technoleg

Wrth i'r gynlluniau a gynhelir gennym ddatblygu, tyfu ac, mewn rhai achosion, gyrraedd eu terfyn, un her allweddol yn ystod 2018/19 oedd addasu a gwella ymarferoldeb a chydnerthedd ein systemau. Mewn perthynas ag ECO, gwnaed hyn drwy sicrhau ymarferoldeb anneddfwriaethol (e.e. awtomeiddio adroddiadau). Ar gyfer RHI Annomestig a'r Gofrestr Trydan Adnewyddadwy, roedd hyn yn golygu dechrau prosiect mawr i ymchwilio i'r ffordd y gellir adfywio'r bensaernïaeth dechnolegol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y cynllun yn y dyfodol.

Am y tro cyntaf, gwnaethom greu a defnyddio modiwlau y gellir eu hehangu a'u hailddefnyddio (microwasanaethau) a'n galluogodd ni i ddatblygu a chynnal sail codau a seilwaith mwy cyson ar gyfer ein holl gynhyrchion. At hynny, gwnaethom barhau i ddarparu nifer o gynhyrchion drwy'r cynlluniau. Ymhlith y rhain roedd wyth newid deddfwriaethol mawr yn y cynlluniau: gan gynnwys ECO3, Cau FIT a Phecyn RHI Annomestig 2B.

Hefyd, gwnaethom ymrwymo i alluogi diwylliant digidol blaengar ar gyfer E-Serve drwy ymchwilio i alluoedd newydd a'u croesawu, gan gynnwys cynhyrchion dadansoddi data ac adroddiadau awtomataidd. Gwnaethom ddatblygu a defnyddio ffordd newydd o gasglu a thrin data archwilio meintiol sy'n ein galluogi i gydweithio'n agosach mewn amser real â'n partneriaid archwilio. Cyflwynwyd cynnyrch dadansoddi Gwrth-dwyll newydd er mwyn gwella ein galluoedd i ganfod a nodi twyll ym mhob rhan o'n portffolio o gynlluniau.

## Ymgysylltu

Cytunwyd ar drefniadau gweinyddol newydd gydag Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon a gwnaethom barhau i ymgysylltu'n rheolaidd drwy fforwm strategol a drefnwyd gyda BEIS. Gwnaethom fodloni ein gofyniad i gyhoeddi adroddiadau chwarterol a blynyddol ar y cynlluniau a weinyddir gennym, yn ogystal â chynnig amrywiaeth o gyngor ac adnoddau i ymgeiswyr a chyfranogwyr.

# Ein cyfraniad at ddatgarboneiddio

Mae Ofgem wedi gweithio i gefnogi Strategaeth Twf Glân a Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth, drwy weithgareddau sydd â'r nod o gefnogi'r gwaith o ddatgarboneiddio'r economi. Lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol oedd un o'r pum canlyniad cyffredinol i gwsmeriaid yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2018/19, ac mae ein gwaith a amlinellir uchod mewn meysydd sy'n amrywio o weinyddu rhaglenni ynni adnewyddadwy i gynnal tendrau ar gyfer perchnogion gweithrediadau trawsyrru ar y môr yn cefnogi'r dyhead hwn. Mae ein gwaith hyd yma mewn perthynas â pharatoi ar gyfer cerbydau trydan wedi helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer lleihau allyriadau carbon o drafnidiaeth yn y dyfodol, ac mae ein hymdrechion mewn meysydd fel hyblygrwydd systemau neu ymgysylltu ag ynni lleol yn anelu at hwyluso'r broses o drawsnewid i system ynni carbon is, mwy datganoledig, mwy hyblyg, mwy dynamig ac ymatebol.

# Adroddiad ar Berfformiad

## Y prif risgiau i'n gallu i gyflawni

Yn 2018/19, gwnaethom weithio tuag at gyflawni pum canlyniad i sicrhau'r budd gorau posibl i ddefnyddwyr drwy ein meysydd gwaith blaenoriaeth allweddol (gweler yr Adroddiad ar Berfformiad – Cyflwyniad – tudalen 7). Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i reoli a lliniaru risgiau allweddol ac ansicrwydd a allai effeithio ar ein gallu i sicrhau canlyniadau i ddefnyddwyr. Mae manylion am ein trefniadau risg a rheoli i'w gweld yn ein Datganiad Llywodraethu (risg a rheoli – tudalen 44)

| Maes risg allweddol | Dull lliniaru |
|---|---|
| **Seiberddiogelwch** | |
| Mewn byd sy'n gynyddol gysylltiedig yn ddigidol, mae lefel y risg wedi codi o hacwyr unigol i ymosodiadau a noddir gan wladwriaethau. Rydym yn gynyddol ddibynnol ar dechnoleg ddigidol – o gartrefi 'clyfar' i geir trydan sy'n gyrru eu hunain – ac felly mae'r risg o ymosodiad ar ein seilwaith ynni hollbwysig a'n seilwaith sy'n gysylltiedig ar ynni hefyd yn cynyddu. | Ar y cyd â BEIS, mae Ofgem wedi cytuno i fod yn Gyd-awdurdod Cymwys y DU i reoleiddio seibergadernid wrth brosesu nwy a thrydan, gan gynnal ein rôl fel Awdurdod Cymwys ar gyfer Cod Ynni Clyfar y DU (gweler Cynnal a gwella ein sgiliau a'n galluoedd arbenigol ar gyfer y diwydiant – tudalen 14). Ein strategaeth yw sefydlu partneriaeth ymgynghorol a chydweithredol â'r Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol a datblygu sylfaen o bobl a phrosesau, gan gynnwys atgyfnerthu ein gallu ym maes cynghori technegol, archwilio ac ymchwilio a datblygu wrth reoli bygythiadau seiber er mwyn hybu ymgysylltu, arloesi a gwella. Hefyd, fel rhan o raglen RIIO2, bydd Awdurdod Cymwys Ofgem yn helpu gweithredwyr i ddatblygu cynlluniau seiber strategol hirdymor, sy'n gymesur ac yn briodol yn erbyn bygythiadau mwy soffistigedig. |
| **Gweithredu'n effeithiol gyda'r adnoddau sydd gennym** | |
| Fel cyrff cyhoeddus eraill, gwnaethom gytuno i wynebu'r her o weithio'n unol â chyllidebau sy'n lleihau fesul tipyn rhwng 2015 a'r cyfnod ar ôl SR15. Lle y gofynnir i Ofgem ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, cynhelir sgyrsiau am gyllid â Thrysorlys EM. | Dechreuodd ein rhaglen Datblygu Ofgem yn 2018 gyda'r nod o sicrhau ein bod mewn sefyllfa i allu rheoleiddio marchnadoedd nwy a thrydan yn llwyddiannus ar ran defnyddwyr mewn cyfnod o newid digynsail ym mhob rhan o'r sector ynni. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi mabwysiadu dull mwy 'ystwyth' o weithredu – gan ailfeddwl sut rydym yn gweithio i wneud yr hyn a wnaed mor effeithlon ac effeithlon â phosibl.<br><br>Yn 2019/20 gwnaethom gwblhau ymarfer blaenoriaethu trylwyr i nodi rhaglenni a gweithgareddau sy'n cynnig y budd gorau posibl i ddefnyddwyr, a rhoi blaenoriaeth i'w datblygu. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith drwy gydol y flwyddyn wrth i gyfleoedd a/neu risgiau newydd ddod i'r amlwg. |

| Maes risg allweddol | Dull lliniaru |
|---|---|
| **Ymadael â'r UE** | |
| Mae'r telerau a'r amserlenni ar gyfer ymadawiad y DU o'r UE yn ansicr, ond gall gael effaith sylweddol ar y sector a reoleiddir gennym (e.e. dewis defnyddwyr, buddsoddiad, cystadleuaeth, masnachu ynni ar draws ffiniau), ar ein fframwaith rheoleiddio ac ar ein gallu i recriwtio a chadw pobl o safon uchel. | Er nad ydym yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd ymadael â'r UE yn tarfu'n sylweddol ar farchnad ynni'r DU, rydym yn parhau i baratoi ar gyfer amrywiaeth o senarios ymadael â'r UE drwy gydweithio'n agos â llywodraeth ganolog a rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r diwydiant i sicrhau bod ein fframwaith rheoleiddio yn addas i'r diben (gweler Datblygu trefniadau'r dyfodol, tudalen 11). Mae Bwrdd Ofgem yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ein risgiau gan ein tîm cydgysylltu ymadael â'r UE. |
| **Cyflenwyr yn ymadael a thrwyddedu cyflenwyr** | |
| Mae pwysau cystadleuaeth yn y farchnad cyflenwyr wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi bod yn fanteisiol i ddefnyddwyr o ganlyniad i fwy o gystadleuaeth o ran prisiau a gwell gwasanaeth cwsmeriaid. Mae ein trefniadau presennol yn diogelu cwsmeriaid yn llwyddiannus pan fydd cyflenwr yn methu, ond ceir risg y gallai methiant cyflenwr darfu ar ddefnyddwyr ac arwain at gostau iddynt. | Rydym wedi dechrau cynnal adolygiad o'n trefniadau trwyddedu cyflenwyr er mwyn asesu p'un a yw'r safonau trwyddedu gofynnol yn ddigon cadarn i ddiogelu cwsmeriaid o ran hyfywedd ariannol cyflenwyr a safonau gwasanaethau. Byddwn, drwy'r gwaith hwn, yn anelu at sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu rhag gwasanaeth cwsmeriaid gwael ac ansefydlogrwydd ariannol. (Gweler Gwella ymddygiad y farchnad fanwerthu, tudalen 8.) |
| **Y rheolaethau prisiau rhwydwaith nesaf** | |
| RIIO-2 yw ein cyfundrefn rheoli prisiau nesaf ar gyfer cwmnïau rhwydwairth sy'n cynnal rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu nwy a thrydan (gweler Rheoleiddio cwmnïau rhwydwaith monopoli, tudalen 13). Mae'n hanfodol bod elfen cymhellion allbwn RIIO-2 yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng risgiau ariannol a risgiau eraill er mwyn sicrhau cymhellion i'r diwydiant a gwerth i ddefnyddwyr. Mae RIIO-2 yn cynnwys pwyntiau penderfynu allweddol a fydd yn llywio diwydiant ynni'r DU am ddegawdau i ddod, ac yn cwmpasu'r gwaith o ddatblygu systemau newydd sydd heb eu profi, a'u rhoi ar waith. Ceir risg y byddwn yn gwneud y penderfyniadau anghywir, ac yn gwneud y gyfundrefn yn fwy cymhleth na rhaid, neu y byddwn yn methu â sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol. | Rydym wedi bod yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn ein dull o weithredu â'n cynigion mewn perthynas â RIIO-2 ers 2016, ac rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau ynghylch agweddau ar y system rheoli prisiau nesaf, gan gynnwys ein penderfyniad ynghylch fframwaith RIIO-2 a gyhoeddwyd yn 2018 a'n penderfyniad ynghylch y fethodoleg sector-benodol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019. |

| Maes risg allweddol | Dull lliniaru |
|---|---|
| **Diogelu pwrs y wlad** | |
| Rydym yn gweinyddu nifer o raglenni amgylcheddol a chymdeithasol (cynlluniau) ar ran y Llywodraeth sy'n gwario llawer iawn o arian cyhoeddus (gweler Cynlluniau ynni adnewyddadwy a chymdeithasol – tudalen 16). Er nad ydym yn goddef twyll o gwbl, ceir risg o hyd y bydd y lefel o dwyll nas canfyddir a 'hapchwarae'r' cynlluniau hyn gan gyfranogwyr yn annerbyniol o uchel oherwydd ein hanallu i neilltuo adnoddau'n ddigonol ar gyfer cynllun gwrth-dwyll cadarn. | Mae gennym dîm gwrth-dwyll pwrpasol sy'n gweithio'n agos mewn partneriaeth â BEIS a sefydliadau eraill i leihau'r risg o dwyll yn y rhaglenni amgylcheddol neu gymdeithasol, gan weithredu lle y canfyddir twyll er mwyn cynnal uniondeb y cynlluniau.<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn swyddogaethau sicrwydd archwilio cynlluniau, risg, twyll a chydymffurfiaeth, ac wedi llunio Strategaeth Archwilio fanwl sy'n cwmpasu ein holl gynlluniau yn y DU a Gogledd Iwerddon. Rydym yn ymrwymedig i gynyddu nifer yr archwiliadau o gynlluniau a gynhelir. |
| **Ymgyfreitha** | |
| Gall ymgyfreitha gan randdeiliaid oedi penderfyniadau a wnawn er budd defnyddwyr, a'u tanseilio o bosibl, a gallant atal arloesedd a buddsoddiad. | Yn 2018, gwnaethom ailstrwythuro ein swyddogaeth gyfreithiol a'i gwneud yn un Swyddfa Cwnsler Cyffredinol, gan benodi Cwnsler Cyffredinol ar lefel uwch i'w harwain. |

# Ein rhanddeiliaid ym Mhrydain Fawr

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wraidd ein gwaith, gan helpu i sicrhau bod barn ein rhanddeiliaid yn cael ei hystyried yn y ffordd rydym yn rheoleiddio'r system ynni.

## Ymgysylltu â defnyddwyr a'r diwydiant

Yn 2018/19, gwnaethom barhau i gynnal rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau ledled Prydain Fawr gan gynnwys cynnal ein Cynadleddau Ynni Ofgem cyntaf erioed yn Llundain, Glasgow, Caerdydd a Manceinion, lle y gwnaethom ymgynghori ynghylch y Flaenraglen Waith yn ogystal â nodi ein gweledigaeth ar gyfer ynni'r dyfodol. Rydym wedi cynnal digwyddiadau mewn rhagor o leoliadau ledled Prydain Fawr ac rydym yn cyrraedd mwy o randdeiliaid nag erioed o'r blaen. Mae'r adborth ar y digwyddiadau hyn wedi gwella o un flwyddyn i'r llall, gyda Chynadleddau Ynni Ofgem yn cael adborth cadarnhaol iawn. Rydym hefyd wedi cynnal rhagor o weminarau i gefnogi gwaith datblygu polisïau drwy gyrraedd amrywiaeth ehangach o randdeiliaid ledled Prydain Fawr.

Rydym wedi ehangu'r rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer ein huwch-arweinwyr, gan gynnwys Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd yr Awdurdod i ganolfan gymunedol leol yn Tower Hamlets, ymweld ag elusennau lleol a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus i'r cynllun unioni i ddefnyddwyr yn Lerpwl ac Oldham, cynlluniau arloesol a oedd wedi defnyddio gwasanaeth cyswllt arloesi Ofgem a nifer o ymweliadau â safleoedd yng Nghymru a'r Alban.

Cynrychiolwyd Ofgem mewn llawer o'r prif gynadleddau ynni ledled Prydain eleni, gan gynnwys fforymau polisi, sesiynau bord gron, cynadleddau mawr y diwydiant ac uwchgynadleddau i ddefnyddwyr. Gwnaethom siarad â'n cynulleidfaoedd am ein gwaith ar reoleiddio'r rhwydweithiau ynni, y system ynni yn y dyfodol, a diogelu defnyddwyr.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi grwpiau allweddol sy'n cynrychioli'r diwydiant, fel y Grŵp Defnyddwyr Mawr, y fforwm cyflenwyr annibynnol a'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Gweler y dudalen ar areithiau a chyflwyniadau ar wefan Ofgem am areithiau o'r amrywiaeth o ddigwyddiadau lle rydym wedi siarad.

## Ymgysylltu â'r Llywodraeth

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau a gweinidogion y llywodraeth (gan gynnwys BEIS), ac rydym wedi parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd yn ein rôl fel y rheoleiddiwr ynni dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Ofgem yn atebol i Senedd y DU, ac mae ein tîm cysylltiadau allanol yn bwynt cyswllt dynodedig i gynrychiolwyr etholedig yn San Steffan a'r gweinyddiaethau datganoledig. Rydym yn gweithio i sicrhau deialog reolaidd ynghylch camau gweithredu Ofgem i ddiogelu defnyddwyr, a'r gwaith o ddatblygu ein Blaenraglen Waith. Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i ymchwiliadau seneddol, wedi anfon siaradwyr i grwpiau trawsbleidiol, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd â seneddwyr unigol ynglŷn â materion yn ymwneud ag ynni ar lefel genedlaethol ac etholaethol.

# Adroddiad ar Berfformiad

**Rydym yn ymrwymedig i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr. Fel rhan o hyn, rydym am gyfleu'n glir sut mae ein gwaith yn sicrhau gwerth am arian. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn ennill ymddiriedaeth y cyhoedd drwy ddangos a chyfleu'r buddiannau y mae Ofgem, fel rheoleiddiwr annibynnol, yn eu sicrhau i ddefnyddwyr a chymdeithas yn ehangach.**

**Fel y nodir yn Strategaeth Gorfforaethol Ofgem:**

**"We would like to report on the cumulative costs and benefits to consumers of our regulation and how these results change with each intervention. In practice, this is very difficult. Many factors throughout the industry, including the actions of government, influence outcomes, and it can be hard to highlight the particular impact of our contribution. However, we aim to be as transparent and accountable as possible and we will explore what we might be able to provide."**

I gyflawni'r strategaeth hon, mae Ofgem wedi ymrwymo i asesu effeithiau disgwyliedig ei weithgareddau rheoleiddio ar ddefnyddwyr yn flynyddol. Mae ein Hadroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr yn asesu'r buddiannau disgwyliedig i ddefnyddwyr o ganlyniad i benderfyniadau rheoleiddio diweddar Ofgem.

Gwnaethom gyhoeddi ein hail Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ym mis Mehefin, a oedd yn cynnwys manylion am weithgareddau rheoleiddio Ofgem a'r trafodaethau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Gyda'i gilydd, disgwylir i'r rhain arwain at fuddiannau sylweddol i ddefnyddwyr.

Yn y pen draw, caiff y costau sy'n gysylltiedig ag ariannu gweithgareddau Ofgem eu trosglwyddo i gwsmeriaid ar eu biliau ynni neu ar ffurf trethi. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn deall effaith ein gweithredoedd a'n penderfyniadau, er mwyn sicrhau ein bod yn sicrhau gwerth i ddefnyddwyr am yr arian a gaiff ei wario gennym. Mae ein Hadroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr ar gyfer 2019 yn asesu'r buddiannau y disgwylir i rai o'n penderfyniadau rheoleiddio sylweddol dros y flwyddyn flaenorol eu sicrhau.

Er y bwriedir i lawer o'n penderfyniadau fod o fudd i bob defnyddiwr, megis y rhai mewn perthynas â phryd neu sut y dylai cwmnïau gyfathrebu â'u cwsmeriaid, bydd rhai eraill yn targedu grwpiau penodol lle rydym wedi nodi nad yw'r farchnad yn cyflawni ar eu cyfer. Er enghraifft, disgwylir i'r cap a gyflwynwyd gennym ar bris tariffau diofyn fod o fudd i fwy na 10 miliwn o ddefnyddwyr ar dariffau amrywiol safonol, tra bod ein prosesau Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall wedi sicrhau nad yw'r ffaith bod cyflenwyr wedi methu wedi tarfu ar y gwasanaeth a ddarperir i fwy nag 800,000 o'u cwsmeriaid. Rydym yn cydnabod y gall fod gan ddefnyddwyr gwahanol anghenion ac amgylchiadau personol gwahanol iawn, felly rydym yn ystyried yn benodol sut y bydd ein penderfyniadau yn effeithio ar ddefnyddwyr y mae eu hamgylchiadau'n eu gwneud yn fwy agored i ganlyniadau gwaeth.

Mewn unrhyw flwyddyn, bydd gan Ofgem fwy na 100 o benderfyniadau rheoleiddio penodol yn mynd rhagddynt fel arfer, ac felly nid yw'n ymarferol i'r Adroddiad ar yr Effaith ar Ddefnyddwyr drafod ein holl weithgareddau. Ar gyfer y rhai rydym yn adrodd arnynt, ni ellir amcangyfrif yn rhesymol yr holl fuddiannau rydym yn eu sicrhau i ddefnyddwyr a rhoi gwerth ariannol iddynt - dim ond ffracsiwn o'n heffaith gyffredinol a gynrychiolir gan yr amcangyfrifon ariannol yr adroddir arnynt. Er enghraifft, o ran ein gweithredoedd cydymffurfiaeth a gorfodi, er y gellir mesur iawndal am niwed i ddefnyddwyr yn y gorffennol, mae'n llawer anos rhoi gwerth ar y niwed a osgowyd a fyddai wedi cael ei achosi pe na bai Ofgem wedi ymyrryd. Mae hefyd yn anodd mesur niwed yn y dyfodol y mae ein penderfyniadau'n eu

hosgoi drwy annog partïon eraill i beidio â gweithredu yn yr un ffordd. Yn aml, disgwylir i'r mathau hyn o fuddiannau heb werth ariannol wrthbwyso'r rhai y gallwn roi gwerth ariannol arnynt gryn dipyn. Felly, rydym wedi nodi'r buddiannau i ddefnyddwyr sy'n deillio o'n penderfyniadau drwy gyfuniad o waith dadansoddi ansoddol a meintiol.

## Effeithiau ar ddefnyddwyr rydym wedi'u hasesu'n ansoddol

- Bydd penderfyniadau Ofgem o'r flwyddyn ariannol hon yn sicrhau amrywiaeth eang o fuddiannau i ddefnyddwyr. Isod ceir rhai o'r buddiannau rydym wedi'u hasesu'n ansoddol:
- Mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus, ac iawndal pan fydd pethau'n mynd o chwith
- Bydd defnyddwyr yn cael iawndal digonol pan fydd rhywbeth yn mynd o chwith wrth iddynt newid cyflenwr, er enghraifft llawer o oedi.
- Bydd gwneud i gyflenwyr addasu ffurf ac amlder gwybodaeth filio i gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd gwneud taliadau yn helpu'r cartrefi hynny i oresgyn anawsterau ariannol ac yn lleddfu'r straen sydd arnynt.
- Bydd sicrhau bod cyflenwyr yn cyfathrebu'n fwy effeithiol â defnyddwyr ynglŷn â'u defnydd a'u biliau yn eu helpu i ymwneud â'r farchnad a lleihau eu biliau.
- Caiff cwmnïau rhwydwaith eu cymell a'u gwobrwyo am y camau a gymerir ganddynt i gefnogi defnyddwyr mewn sefyllfa fregus, gan olygu y bydd y defnyddwyr hynny'n cael eu diogelu'n well rhag canlyniadau negyddol, a allai achosi problemau iddynt sy'n amrywio o anhawster ariannol a straen, i waethygu problemau iechyd sydd eisoes ganddynt.
- Cynnal sicrwydd cyflenwad a hyder defnyddwyr yn y farchnad ynni manwerthu
- Mae llwyddo i benodi Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall bob tro mae cyflenwr wedi mynd i'r wal wedi sicrhau bod y cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt wedi cael cyflenwad parhaus o ynni i'w cartrefi a'u busnesau.
- Gwell gwasanaeth cwsmeriaid
- Ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ddarparu gwasanaeth gwell, gan gynnwys hwylustod cysylltu, gwybodaeth well ar eu gwefannau a datrys cwynion yn well.
- Annog cystadleuaeth nad yw'n seiliedig ar bris ymhlith cwmnïau manwerthu, a chynnig cymhellion iddynt am arloesi.
- Bydd gwella profiad defnyddwyr o ymwneud â'r farchnad yn arwain at fwy o ymwneud â'r farchnad yn y dyfodol, yn ogystal â lleihau trafferth a rhwystredigaeth ddiangen.
- Mwy o gystadleuaeth mewn marchnadoedd ynni
- Cael gwared ar y gofyniad i wefannau cymharu prisiau ddangos amrywiaeth eang o dariffau ynni ar y farchnad, ac nid dim ond y rhai y gellir newid iddynt drwy'r wefan. Mae hyn wedi eu cymell i wneud eu gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio i gymharu cynigion ynni a newid cyflenwr yn y pen draw.
- Yr argymhelliad i Ofgem gael gwared ar reolau o'r Cod sy'n ei gwneud yn ofynnol i wefannau cymharu prisiau achrededig ddangos amrywiaeth eang o dariffau ynni ar y farchnad, ac nid dim ond y rhai y gellir newid iddynt drwy'r wefan.
- Annog cwmnïau â modelau busnes arloesol i ymuno â'r farchnad.

## Effeithiau ar ddefnyddwyr rydym wedi llwyddo i'w mesur

Yn ogystal â'r buddiannau a amlinellir uchod, rydym yn disgwyl i'n penderfyniadau o Flwyddyn Ariannol 2018/19 arwain at yr effeithiau meintiol canlynol:

- Buddiannau uniongyrchol gwerth £2,544 miliwn
- Costau anuniongyrchol gwerth £555 miliwn
- Buddiannau ychwanegol gwerth £370 miliwn o ganlyniad i lai o gyllid i gwmnïau rhwydwaith.

Effeithiau a ragwelir ar ddefnyddwyr yw'r rhain yn bennaf ac, yn y dyfodol, gallant fod yn wahanol i'r swm gwirioneddol. Hefyd, fel y nodir uchod, dim ond adlewyrchiad rhannol o'n heffaith a roddir ganddynt. Fodd bynnag, maent yn rhoi syniad da o'r effaith gadarnhaol y mae ein penderfyniadau'n eu cael ar ddefnyddwyr. O ran y costau yr aed iddynt er mwyn cyflawni'r buddiannau hyn, costau Ofgem ar gyfer y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019 oedd £97 miliwn. Mae hyn yn rhoi cymhareb buddiannau uniongyrchol i gostau o 26:1, sy'n golygu ein bod yn disgwyl y bydd pob £1 a wariwyd gennym yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn sicrhau buddiannau uniongyrchol gwerth o leiaf £26 i ddefnyddwyr.

Mae ein dull o fesur buddiannau yn debyg i'r un a ddefnyddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i asesu, lle y bo'n ymarferol, y buddiannau ariannol uniongyrchol i ddefnyddwyr o ganlyniad i'w benderfyniadau. Rydym yn cyfrifo cyfanswm y buddiannau ariannol a nodir mewn asesiadau effaith ffurfiol a'r rhai sy'n deillio o gamau gorfodi a chydymffurfio.

Ar gyfer y penderfyniadau a ategir gan asesiadau effaith, mae'r buddiannau meintiol yn asesiadau sy'n edrych tuag at y dyfodol o'r effeithiau disgwyliedig, yn hytrach na gwerthusiadau sy'n edrych yn ôl ar effeithiau gwirioneddol. Mae'r asesiadau effaith yn cynnig fframwaith tryloyw a chyson er mwyn deall effeithiau tebygol ein polisïau ar ddefnyddwyr. Caiff pob asesiad effaith ei baratoi yn unol â'n canllawiau a bydd yn cynnig gwerth presennol net yr effeithiau ar ddefnyddwyr rydym yn disgwyl eu gweld yn digwydd o ganlyniad i benderfyniad, lle bo hynny'n ymarferol. Er mwyn cymharu gwerthoedd presennol net yr holl benderfyniadau, rydym yn mesur buddiannau o 2019 (h.y. gwnaethom ddewis 2019 fel blwyddyn sylfaen).


# Adroddiad Cynaliadwyedd[4]

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi lleihau ein defnydd o garbon, ein defnydd o ddŵr a'n tunelledd gwastraff yn sylweddol. Yn ystod haf 2018, gwnaethom symud ein swyddfa yn Llundain i leoliad newydd yn adeilad Hwb y Llywodraeth yn 10 South Colonnade, Canary Wharf. Mae'r adeilad hwn yn fwy effeithlon o ran yr amgylchedd na'r safle blaenorol, gyda sgôr BREEAM Da Iawn. Mae ein hôl troed swyddfeydd wedi lleihau tua 45% o ganlyniad i hyn.

**Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i Dargedau Gwyrddu'r Llywodraeth, sy'n ein herio i gyflawni'r canlynol yn erbyn llinell sylfaen 2009/10:**

- **Lleihau carbon cyffredinol 32%**
- **Lleihau gwastraff tirlenwi i 10% o gyfanswm gwastraff**
- **Cynyddu'r gyfran o wastraff a ailgylchir**
- **Lleihau defnydd o bapur 50%**
- **Lleihau'r defnydd o ddŵr**


## Allyriadau carbon sy'n gysylltiedig ag adeiladau a gweithgareddau
## Carbon usage by FTE




Mae'r defnydd o garbon fesul CALI wedi lleihau 36% ers 2009/10.


[4] Am fod ein swyddfa yn Llundain wedi symud yn ddiweddar, ac yn unol â Chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd 2018-19 (paragraffau 2.18 a 2.29) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, rydym wedi newid ein ffiniau adrodd. Rydym wedi normaleiddio ein data i niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) ar gyfer y flwyddyn sylfaen a phob blwyddyn o hynny ymlaen. Gallwn wneud hyn ar sail niferoedd CALI 2009-10 wedi'u lluosi â nifer y staff CALI a symudodd i'r swyddfa newydd yn Llundain.

## Cyfanswm Carbon




Mae cyfanswm carbon wedi lleihau 39% ers 2009/10, yn bennaf am fod ein swyddfa newydd yn Llundain yn fwy effeithlon na'n swyddfa flaenorol. Golyga hyn ein bod wedi cyrraedd Targed Gwyrddu'r Llywodraeth, sef gostyngiad o 32%.

## Teithio Carbon




Fel y nodir uchod, rydym wedi lleihau ein defnydd o garbon yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd Targed Gwyrddu'r Llywodraeth. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r angen i staff deithio, ac rydym wedi parhau i wneud mwy o ddefnydd o dechnolegau fel fideogynadledda, gyda'r nod o leihau'r angen i deithio rhwng safleoedd.

Ers 2009/10, rydym wedi cynyddu nifer y staff sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfa yn Glasgow (o lai na 30 o staff yn 2009/10 i fwy na 350 yn 2018/19). Mae'r newid hwn tuag at fodel mwy 'safle deuol' wedi cynyddu'r angen i deithio rhwng safleoedd, gan olygu bod ein carbon teithio wedi cynyddu. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymdrechu i wella ein defnydd o dechnoleg a mabwysiadu ffyrdd clyfrach o weithio, er mwyn lleihau'r angen i deithio.

# Lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | | 2009-10 | 2018-19 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol ($tCO_2e$)** | Cyfanswm yr allyriadau gros | 1,670 | 1,015 |
| | Fesul CALI | 2.23 | 1.43 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 1,671 | 1,015 |
| | Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol | 511 | 49 |
| | Cwmpas 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol ynni | 1,045 | 431 |
| | Cwmpas 3: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill | 115 | 535 |
| **Data Defnydd Cysylltiedig (kWh)** | Trydan: Adnewyddadwy (k) | 1,130 | 1,521 |
| | Nwy (k) | 1,578 | 269 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Gwariant ar ynni | £138,240 | £308,870 |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | Dd/G | £523,530 |


# Perfformiad DEC ac EPC

Fel arfer yn yr adran hon, byddem yn dangos ein sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC). Nid oes modd gwneud hyn eleni am na fydd ein swyddfa newydd yn Llundain yn gwneud cais am DEC nes ar ôl iddi gael ei defnyddio'n llawn am 12 mis (mis Hydref 2019). Nid yw'r Alban yn cymryd rhan mewn sgoriau DEC, sy'n golygu na chaiff ein swyddfa yn Glasgow ei chynnwys.

Mae Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) yn rhoi syniad i ddarpar brynwyr a thenantiaid o effeithlonrwydd ynni eiddo. Dim ond 37 yw EPC ein swyddfa yn Glasgow, sy'n golygu mai hon oedd y swyddfa fwyaf effeithlon ond un yn ystad y llywodraeth yn adroddiad Cyflwr yr Ystad 2017/18. Mae gan 10SC EPC o 72, a hynny'n bennaf am fod yr adeilad yn cael ei aerdymheru'n llawn.

# Dileu gwastraff

## Dileu gwastraff




Mae ein gwastraff wedi lleihau 123 o dunelli, neu 82%, ers 2009/10 o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Cyflwyno gliniadur/llechen fel cyfarpar TG safonol, gan leihau'r angen i argraffu dogfennau
- Lleihau lle ffeilio swyddfeydd i 0.75 metr llinol y pen
- Cau'r uned reprograffeg ar y safle
- Lleihau nifer y peiriannau argraffu yn ein swyddfeydd mwy na hanner


Nid ydym wedi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi ers 2010, sy'n golygu ein bod wedi cyrraedd targed Gwyrddu'r Llywodraeth i leihau'r gyfran o wastraff tirlenwi i 10%.

| Gwastraff | | | 2009-10 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tunnell) | **Targed** | | - | - |
| | Cyfanswm y Gwastraff | | 149 | 26 |
| | Cyfanswm y Gwastraff fesul CALI | | 0.2 | 0.04 |
| | Gwastraff Peryglus | | 1 | - |
| | Gwastraff nad yw'n Beryglus | Tirlenwi | 23 | 0 |
| | | Ailddefnyddiwyd/ Ailgylchwyd | 81 | 15 |
| | | Llosgi/ ynni o wastraff | 44 | 11 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Cyfanswm y Gost Gwaredu | | £11,845 | £9,798 |

# Lleihau'r defnydd o bapur

Rydym wedi lleihau'r defnydd o bapur 60% ers 2009/10, a thrwy hynny wedi cyrraedd targed Gwyrddu'r Llywodraeth i'w leihau 50%. Roedd hyn i raddau helaeth o ganlyniad i'r gwaith o gyflwyno system argraffu 'follow me', sy'n golygu bod llai o beiriannau argraffu yn ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi cyflwyno gliniaduron Surface Pro fel cyfarpar TG safonol, gan leihau'r angen i argraffu dogfennau ymhellach.


## Defnydd papur blynyddol



# Lleihau'r defnydd o ddŵr

Mae ein defnydd o ddŵr fesul CALI wedi haneru, bron, ers 2009/10. Y prif reswm dros y lleihad yw sgôr BREEAM Da Iawn ein swyddfa newydd yn Llundain.

## Lleihau'r defnydd o ddŵr




| Dŵr | | | 2009-10 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion Anariannol** | **Targed** | | | **6.00** |
| | Defnydd o Ddŵr ($m^3$) | Cyflenwyd | 7,116 | 3,608 |
| | | Fesul CALI | 9.5 | 5.6 |
| **Dangosyddion Ariannol** | Costau Cyflenwi Dŵr | | £9,026 | £8,444 |



**Dermot Nolan**
Swyddog cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

# Adroddiad ar Atebolrwydd



# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Aelodau gweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn:

Penodwyd Dermot Nolan, y prif weithredwr, ym mis Chwefror 2014. Nid yw'n gyfarwyddwr unrhyw gwmnïau eraill.

Ymunodd Sarah Cox, Prif Swyddog Gweithredol, ag Ofgem ym mis Mai 2016 ac fe'i penodwyd i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA) ym mis Tachwedd 2018. Mae'n aelod o fwrdd CSSC (Chwaraeon a Hamdden) ac yn gynghorydd i'r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (Amddiffyn a Rhyngwladol).

Ymunodd Jonathan Brearley, Cyfarwyddwr Gweithredol, System a Rhwydwaith, ag Ofgem ym mis Mai 2016 ac fe'i penodwyd i GEMA ym mis Tachwedd 2018.

Ymunodd Mary Starks, Cyfarwyddwr Gweithredol, Defnyddwyr a Marchnadoedd, ag Ofgem ym mis Medi 2018 ac fe'i penodwyd i GEMA ym mis Tachwedd 2018. Mae'n un o ymddiriedolwyr elusen Working Families.

### Aelodau anweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn:

Ymunodd David Gray ym mis Hydref 2013 fel cadeirydd anweithredol. Daeth ei benodiad i ben ym mis Medi 2018. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol yn yr Awdurdod Hedfan Sifil, ac yn un o Lywodraethwr y Central School of Ballet.

Ymunodd Martin Cave ym mis Medi 2018 fel cadeirydd anweithredol. Mae'n Athro gwadd yn Adran y Gyfraith yn Ysgol Economeg Llundain, yn gynghorydd i Gomisiwn Masnach Seland Newydd ac yn gynghorydd i Brifysgol Chalmers, Sweden.

Ymunodd Christine Farnish ym mis Ionawr 2016. Daw ei phenodiad i ben ym mis Ionawr 2021. Mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Ofwat, yn aelod anweithredol o Fwrdd Grŵp Zopa a chadeirydd Zopa ltd (busnes benthyca rhwng cymheiriaid Zopa), ac yn aelod o fwrdd cynghori defnyddwyr Fairer Finance.

Ymunodd yr Athro David Fisk CB ym mis Gorffennaf 2009. Fe'i hailbenodwyd ym mis Mehefin 2012 a daeth ei benodiad i ben ym mis Mai 2017. Mae'n Athro Emeritws Arloesedd a Pheirianneg Systemau yng Ngholeg Imperial, Llundain ac mae'n Aelod Cyngor o Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu.

Ymunodd yr Athro Paul Grout ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Mae ganddo Gadair mewn Economi Wleidyddol ym Mhrifysgol Caerfaddon ac ef yw cadeirydd y grŵp cynghori arbenigol ar gyfer Loteri Cenedlaethol 4 yn y Comisiwn Gamblo a'r Uwch Gynghorydd ar Gystadleuaeth ym Manc Lloegr.

Ymunodd Keith Lough ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2022. Ef yw Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Pwyllgor. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol, ac ef yw Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol Rockhopper Exploration Ltd. Mae hefyd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Cairn Energy plc, ac yn gyfarwyddwr anweithredol ac Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol yn Hunting plc.

Ymunodd Ann Robinson ym mis Gorffennaf 2018. Daw ei phenodiad i ben ym mis Gorffennaf 2023. Mae'n gwneud gwaith pro bono gydag elusennau, yn cadeirio a hwyluso cyfarfodydd, yn gweithio gydag Ofwat ar ei Adolygiad o Brisiau ac agor y farchnad i BBaChau yn ogystal â chadeirio cwmni y mae'r Cyngor Diogelwch Trydan yn berchen arno.

Ymunodd Lynne Embleton ym mis Gorffennaf 2018. Daw ei phenodiad i ben ym mis Gorffennaf 2023. Mae'n brif weithredwr yn IAG CArgo, yn aelod o bwyllgor rheoli IAG, yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Bwrdd BA ac yn gyfarwyddwr yn Zenda.

Ymunodd John Crackett ym mis Rhagfyr 2018. Daw ei benodiad i ben ym mis Rhagfyr 2023. Mae wedi cyflawni rolau anweithredol yn y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac mewn cwmni telathrebu.

Mae hefyd wedi bod yn aelod o Fwrdd y Fyddin, mae'n cynghori'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gynhyrchu a dosbarthu trydan, ac mae'n weithgar gydag elusennau tai ac elusennau i gyn-filwyr.

Ystyrir bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac maent yn cyfrif am y rhan fwyaf o aelodau'r Awdurdod.

## Buddiannau arwyddocaol eraill a ddelir gan aelodau'r Awdurdod

Mae Keith Lough, sydd wedi gweithio i gwmnïau ynni yn y gorffennol, yn aelod o gynllun pensiwn cyn-gyflogwr. Gweinyddir y cynllun hwn yn unol â rheolau'r Rheoleiddiwr Pensiwn ac mae ar wahân i fusnes y cwmni a reoleiddir.

## Trefniadau archwilio

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i Senedd y DU, sy'n archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiadau ymddiriedaeth. Cost dybiannol archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth oedd £85,000 (2017–18: £64,000). Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth, gwirioneddol na thybiannol, i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae'r swyddog cyfrifyddu wedi gwneud popeth y dylai ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Nid yw'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn cael mynediad ati.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn gwerthuso'n annibynnol pa mor ddigonol, dibynadwy ac effeithiol yw ein systemau rheoli a rheolaeth ariannol. Mae'n gwneud argymhellion ac yn rhoi adroddiad sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu bob blwyddyn. Rydym wedi gosod y swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cael dadansoddiad ac argymhellion annibynnol a phroffesiynol. Ailbenodwyd Deloitte i'r rôl hon ar 1 Ebrill 2015, ar ôl tendr cystadleuol. Daw'r contract presennol i ben ar 30 Mehefin 2019.

Fel rhan o'n proses sicrwydd cyflawni prosiectau, rydym yn cael sicrwydd annibynnol ar wahân ar gamau allweddol prosiect. Rydym wedi gosod y gwasanaeth hwn ar gontract allanol naill ai i Deloitte neu gwmnïau eraill sydd ar gael drwy ein fframwaith caffael.

## Cyllidebau a hylifedd

Mae Senedd y DU yn cymeradwyo ein cyllideb, ar ôl i ni ymgynghori â'r diwydiant a phartïon eraill â diddordeb. Ar gyfer 2018/19 cymeradwyodd Senedd y DU y canlynol drwy'r Prif Amcangyfrif:

- cyllideb adnoddau gros o £97.47 miliwn
- cyllideb cyfalaf o £0.802 miliwn
- gofyniad arian parod net o £2.331 miliwn (a ddiwygiwyd i £2.134 miliwn yn yr Amcangyfrif Atodol)

## Cysoni rhwng yr amcangyfrif a'r gyllideb

| | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Alldro adnoddau net (amcangyfrif) | 702 | 702 |
| Costau gweithredu net (cyfrifon) | 434 | 596 |
| Alldro cyllideb adnoddau (cyllideb) | 434 | 596 |
| O'r cyfanswm hwnnw: | | |
| Terfynau gwariant adrannol | 434 | 596 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | - | - |

Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r alldro i ofyniad cyllidebu Trysorlys EM i drin rhyddhau'r ffi drwydded ohiriedig (a ddelir ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol) fel cyllid drwy bleidlais yn yr amcangyfrifon yn hytrach nag incwm gweithredu yn y cyfrifon.

Hawliwyd blaendaliad o £15.0 miliwn o'r gronfa wrth gefn ym mis Ebrill 2018 er mwyn rhoi hylifedd byrdymor nes ein bod yn dechrau cael ffioedd trwydded. Ad-dalwyd y swm hwn yn llawn gennym ym mis Rhagfyr 2018.

## Cyllid a darpariaethau

Roedd cyfanswm y darpariaethau yn gwneud cyfanswm o £1.906 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Rydym wedi darparu ar gyfer taliadau ymadael gwirfoddol, dadfeiliadau, a chostau parhaus ymddeoliadau cynnar sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol.

Yn 2003, gosodwyd gwasanaethau archwilio a phrofi statudol ar gontract allanol i SGS UK Ltd (ein labordai yng Nghaerlŷr a oedd wedi darparu'r gwasanaethau hynny hyd yna). Mae rhai o gostau'r newid hwn, yn enwedig costau diswyddo a rhwymedigaethau pensiwn parhaus, wedi cael eu trosglwyddo i ni. Bu'n rhaid i ni wneud darpariaethau yn 2003/04 sydd bellach yn gwneud cyfanswm o £0.147 miliwn.

Cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol, sef cyfanswm o £0.522 miliwn, o ganlyniad i ad-drefnu mewnol.

Mae Ofgem hefyd wedi llofnodi cytundeb i gwtogi'r brydles ar gyfer swyddfa Cornerstone yn Glasgow, gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn symud i'r safle. Yn ôl y cytundeb hwn rhennir costau dadfeiliadau hanner a hanner rhwng Ofgem a HSE. Mae'r ddarpariaeth yn creu cyfanswm o £0.029 miliwn. Mae'r cytundeb ar gyfer prydles newydd Commonwealth House yn Glasgow yn nodi y bydd Ofgem yn atebol am gostau dadfeiliadau. Mae'r ddarpariaeth yn creu cyfanswm o £0.338 miliwn.

Cydnabuwyd darpariaeth ar gyfer prydles rwymedigaethus o £0.032 miliwn ar gyfer llawr gwaelod Cornerstone yn Glasgow.

Rydym wedi darparu cyfanswm o £0.522 miliwn yn ystod 2018/19. Dengys ein datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018 ecwiti trethdalwyr sy'n cyfateb i £1.386 miliwn.

# Gwella ein cadwyn gyflenwi

## Caffael amgylcheddol

Mae ein tîm Caffael yn gwneud penderfyniadau prynu yn seiliedig ar werth gorau am arian (sy'n ymgorffori meini prawf cynaliadwyedd amgylcheddol) ac rydym yn mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o brynu cynaliadwyedd.

Cadwn gofnod manwl o'r arbedion arian parod a gyflawnwn sydd fel arfer yn deillio o fanteisio ar fframweithiau cyflenwyr (ein rhai ni'n hunain a'r rhai a sefydlir gan Wasanaeth Masnachol y Goron).

Mae ein prosesau yn gyson ag Ardystiad Safon Rhagoriaeth y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.

## Talu credydwyr yn gyflymach

Rydym wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer Talu'n Well a sefydlwyd gan y Grŵp Ymarfer Talu'n Well, sef fforwm o aelodau'r gymuned fusnes a chynrychiolwyr y llywodraeth. Mae hyn yn golygu ein bod yn talu biliau o fewn 30 diwrnod (neu gyfnod arall y cytunwyd arno) i dderbyn nwyddau neu wasanaethau, neu anfoneb, p'un bynnag sydd hwyraf. Yn 2018/19 talwyd 97% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfyn amser hwn.

Yn 2008, heriodd y llywodraeth adrannau i dalu pob cyflenwr o fewn 10 diwrnod gwaith. Eleni, talwyd 88% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfyn amser hwn. Ar gyfer symiau sy'n ddyledus yn gytundebol ac sy'n cael eu hanfonebu erbyn 31 Mawrth 2019, nifer y diwrnodau pryniannau na thalwyd amdanynt yw 3.

## Adroddiadau i'r Ombwdsmon Seneddol

Yn 2018/19, cafodd yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (PHSO) 91 o ymholiadau newydd ynglŷn ag Ofgem, a derbyniodd un gŵyn i ymchwilio iddi. Cwblhaodd y PHSO un ymchwiliad[5] na chafodd ei gadarnhau na'i gadarnhau'n rhannol. Rhoddwyd y gorau i un ymchwiliad arall, a chafodd pedwar eu datrys heb fod angen cwblhau'r ymchwiliad. Gan na chafodd unrhyw ymchwiliadau eu cadarnhau na'u cadarnhau'n rhannol, ni wnaeth y PHSO unrhyw argymhellion cysylltiedig.



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

[5] Gall nifer y cwynion y mae'r Ombwdsmon Seneddol yn eu derbyn i ymchwilio iddynt mewn blwyddyn ariannol fod yn wahanol i nifer yr ymchwiliadau a gwblheir yn ystod yr un flwyddyn ariannol.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi ein cyfarwyddo i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'n defnydd ohonynt yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i halldro adnoddau net, adnoddau a gymhwyswyd, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Yn benodol, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.
- cadarnhau, hyd y gwŷr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ofgem yn ymwybodol ohoni, a bod pob cam wedi'i gymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Trysorlys EM wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu i ni. Mae cyfrifoldebau ein swyddog cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# Datganiad Llywodraethu

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan sy'n gwneud pob penderfyniad mawr ac sy'n pennu blaenoriaethau polisi. Mae'r Awdurdod yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

## Pwy sy'n rhan o'r Awdurdod?

### Sut y gwneir penodiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd.  Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swydd am gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd a nodir yn Nhrydydd Pecyn Ynni'r UE a'i reolau ynglŷn â phenodiadau i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol mewn aelod-wladwriaethau.

Dangosir manylion cydnabyddiaeth aelodau'r Awdurdod a'u trefniadau pensiwn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth sy'n dechrau ar dudalen 49.

### Sut mae'r Awdurdod yn gweithio

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod yn ffurfiol o leiaf 10 gwaith y flwyddyn.  Yn ogystal â hynny, mae aelodau'r Awdurdod hefyd yn mynychu sesiynau briffio anffurfiol rheolaidd i'w galluogi i adolygu materion sy'n datblygu ar lefel uchel a gwasanaethu ar bwyllgorau'r Awdurdod, y nodir manylion isod.

Yn 2018/19, adolygodd y cadeirydd berfformiad unigol aelodau'r Awdurdod unwaith eto, gan ystyried eu cyfraniadau i waith yr Awdurdod.  Pennodd yr aelodau anweithredol eraill amcanion i'r cadeirydd ar ôl trafodaeth ag ef a bydd yn adolygu ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn.

Mae'r Awdurdod yn adolygu gweithgareddau, cynlluniau a pherfformiad y sefydliad yn erbyn ei amcanion strategol ac yn adolygu gweithgareddau a blaenoriaethau ei brif swyddogaethau cymorth bob chwe mis. Caiff gweithgareddau a blaenoriaethau E-Serve eu hadolygu gan yr Awdurdod, yn dilyn adroddiad gan Fwrdd E-Serve, dair gwaith y flwyddyn.  Mae'r Awdurdod hefyd yn adolygu ei risgiau strategol, hynny yw, y risgiau hynny sydd fwyaf arwyddocaol i strategaeth yr Awdurdod, ddwywaith y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2014 gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth gorfforaethol a amlinellodd sut rydym yn anelu at wneud y mwyaf o'n hadnoddau a'n pwerau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr nawr ac yn y dyfodol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Adolygwn ein strategaeth bob blwyddyn, gydag adolygiad mwy sylfaenol bob pum mlynedd, neu oddeutu hynny, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau yn y byd o'n cwmpas. Bob blwyddyn cyhoeddwn ein Blaenraglen Waith yn dilyn ymgynghoriad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gwnaethom gyhoeddi ein Blaenraglen Waith ddrafft ar gyfer cyfnod estynedig 2019-21 at ddiben ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2018 a chyhoeddwyd y cynllun terfynol ar 29 Mawrth 2019.

Mae'r Awdurdod yn ystyried y cyd-adolygiad gweithredol o'r ffactorau allanol bob pedwar mis ac adolygiad llawn o'r rhaglen gyffredinol o waith tymor canolig a thymor hwy bob chwe mis ochr yn ochr â gallu ac iechyd y sefydliad bob chwe mis. Mae'r Awdurdod hefyd yn gwneud penderfyniadau ar faterion rheoleiddio mawr penodol nad ydynt wedi cael eu dirprwyo i bwyllgorau neu swyddogion gweithredol.

Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod ar ein gwefan, ynghyd â chylch gorchwyl y pwyllgorau. Rydym hefyd yn paratoi agendâu dros dro ar gyfer prif gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes yr Awdurdod. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a chyfarfodydd pwyllgorau fel a ganlyn:

| Aelodau | Yr Awdurdod | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Bwrdd E-Serve | Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth | Pwyllgor RIIO 2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Christine Farnish | 12/13 | - | 1/1 | 4/4 | 5/7 |
| Dermot Nolan | 13/13 | 3/3 | 3/3 | - | 7/7 |
| Sarah Cox | 12/13 | 3/3 | 3/3 | - | - |
| Mary Starks | 6/7 | - | - | - | - |
| Jonathan Brearley | 10/10 | - | - | - | 6/6 |
| Martin Cave | 10/10 | 1/1 | - | 2/2 | - |
| David Gray | 7/7 | 3/3 | - | - | - |
| Ann Robinson | 10/10 | - | - | 1/2 | - |
| Keith Lough | 13/13 | 3/3 | - | - | - |
| Lynne Embleton | 10/10 | 1/1 | - | - | 2/2 |
| John Crackett | 4/4 | - | - | - | 2/2 |
| Paul Grout | 13/13 | 2/2 | 2/2 | - | 7/7 |

[1] Daeth tymor David Gray fel Cadeirydd i ben ar 30 Medi 2018
[2] Dechreuodd tymor Martin Caves fel Cadeirydd ar 1 Hydref 2018.
[3] Penodwyd Ann Robinson a Lynne Embleton yn Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Awdurdod ym mis Mehefin 2018.
[4] Penodwyd John Crackett yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2018.

Cyfarfu'r Awdurdod yn yr Alban ar 14 Mehefin 2018, ac yng Nghymru ar 27 Mawrth 2019, gan ddefnyddio'r ddau achlysur i gyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid ynni lleol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cynhaliwyd cyfarfodydd â phartïon â diddordeb ar ôl rhai o'r prif gyfarfodydd, gan roi cyfle i'r Awdurdod drafod pynciau cyfoes â rhanddeiliaid.

## Pa bwyllgorau sydd gan yr Awdurdod?

Mae strwythur corfforaethol yr Awdurdod – gyda chylch gorchwyl clir i bwyllgorau – yn ymdrechu i roi sicrwydd i ni fod trefniadau llywodraethu cadarn drwy'r sefydliad cyfan. Gwnaethom gyhoeddi strwythur sefydliadol newydd ym mis Chwefror 2018 a system lywodraethu newydd ar gyfer 2018/19 i adlewyrchu hyn ac, ar yr un pryd, ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â llywodraethu a nodwyd drwy waith archwilio mewnol ac allanol a phwyntiau eraill a godwyd drwy ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod a'r swyddog cyfrifyddu, lle y bo'n berthnasol iddynt, ar unrhyw beth sy'n effeithio ar ein hiechyd ariannol, adroddiadau ariannol, gonestrwydd, rheoleiddio neu reoli risg yn fwy cyffredinol a'r system lywodraethu. Mae'r pwyllgor hefyd yn edrych ar unrhyw agwedd ar y busnes a all effeithio ar yr amcanion strategol a gweithrediad effeithiol Ofgem ac mae'n goruchwylio ein cyfundrefn rheolaeth costau ar gyfer Adolygiad o Wariant 2015.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2018/19. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan Keith Lough, a'r aelodau anweithredol eraill yw Paul Grout a Lynne Embleton.

Eleni, roedd gwaith y pwyllgor yn cynnwys:

- cael adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol. Er enghraifft, gwnaethom ofyn i'r archwilydd mewnol adolygu meysydd lle roeddem o'r farn bod gwendidau rheoli, a thrafododd y pwyllgor gynlluniau i fynd i'r afael â'r rhain. Ymhlith y cynlluniau a roddwyd ar waith mae parhau â'n rhaglen 'datblygu Ofgem'; trawsnewid sefydliadol; ymgorffori ystod o delerau, amodau a

gofynion perfformiad mewn llythyrau dirprwyo ariannol er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei reoli mewn modd cadarn sy'n cydymffurfio; a sefydlu Gweithlu, wedi'i gadeirio gan Gadeirydd Ofgem ac yn cynnwys nifer o Gyfarwyddwyr Anweithredol, i oruchwylio paratoadau Ofgem ar gyfer SR19, a defnyddio cyllideb 2019/20 Ofgem yn effeithiol.

- monitro'r camau a gymerwyd i ymdrin â gwendidau yn deillio o adroddiadau sicrwydd, y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt gan unrhyw Is-bwyllgor arall o'r Awdurdod neu'r Bwrdd Gweithredol
- cael adroddiadau ar ddiogelwch TG a seiberddiogelwch o fewn y sefydliad, yn arbennig adolygu a chynghori ar ddigonolrwydd polisïau a phrosesau seiberddiogelwch, gwrth-dwyll a chwythu'r chwiban, a'r camau a gymerwyd gan y sefydliad mewn ymateb i ddigwyddiadau andwyol.

Mae ein barn archwilio mewnol gyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 yn cydnabod ein bod wedi gofyn i'r archwilydd adolygu meysydd lle roeddem o'r farn bod gwendidau rheoli, a'n bod wedi rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r Archwilydd Mewnol wedi datgan ei fod yn cefnogi'r mentrau y mae'r rheolwyr wedi'u rhoi ar waith i wella galluoedd, trawsnewid prosesau ac atgyfnerthu systemau rheoli. Yn seiliedig ar hyn, mae'r Archwilydd Mewnol wedi rhoi Sicrwydd Cyfyngedig i Ofgem ynglŷn â'r trefniadau a'r systemau ar gyfer risg, rheoli a llywodraethu sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei amcanion yn effeithiol ac yn effeithlon.

## Pwyllgor Bwrdd E-Serve

Mae Bwrdd E-Serve yn gweithredu ar ran yr Awdurdod ac yn monitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd E-Serve wrth gyflawni ei weithgareddau perthnasol ac yn rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ynghylch y ffordd y caiff y gweithgareddau hynny eu cyflawni. Mae Bwrdd E-Serve hefyd yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â phenderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar E-Serve, gan gynnwys agweddau polisi, strategol a gweithredol sylweddol ar waith E-Serve. Y prif ffocws yw adolygu ac argymell strategaeth, cynlluniau busnes blynyddol a chyllideb gyffredinol E-Serve mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol a chytuno ar amcanion a thargedau blynyddol E-Serve. Mae Bwrdd E-Serve yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn a chaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredol.

## Panel Penderfyniadau Gorfodi

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi wedi cael ei sefydlu i wneud penderfyniadau pwysig mewn achosion gorfodi a ymleddir ar ran yr Awdurdod. Mae aelodau'r Panel yn arbenigwyr sy'n sicrhau gwahaniad gweladwy rhwng swyddogaethau ymchwilio a gwneud penderfyniadau. Mae gan aelodau'r Panel rôl allweddol yn y gwaith o barhau i gyflawni ein dyletswydd ganolog i ddiogelu defnyddwyr, hwyluso cystadleuaeth a sicrhau uniondeb y farchnad ynni cyfanwerthu. Cadeirydd y Panel oedd John Swift QC. [6]Caiff aelodau'r Panel eu penodi gan Gadeirydd y Panel i wrando achosion unigol a gwneud penderfyniadau. Mae penderfyniadau'r Panel yn annibynnol ar y tîm ymchwilio ac ni all yr Awdurdod newid na gwrthod penderfyniadau'r Panel. Mae aelodau'r Panel hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Setliadau Gorfodi (gweler yr adran nesaf).

## Pwyllgorau Setliadau Gorfodi

Gellir sefydlu Pwyllgorau Setliadau Gorfodi i benderfynu a ddylid awdurdodi gweithdrefn setliad mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 neu mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r gyfraith o dan adrannau amrywiol o Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 a deddfwriaeth arall. Penodir pwyllgorau ar wahân ar gyfer pob achos ac maent yn cynnwys dau aelod o'r Panel Penderfyniadau Gorfodi a enwebir gan ei gadeirydd yn ogystal ag Uwch Was Sifil a enwebir gan gadeirydd yr Awdurdod. Am ragor o fanylion am y Panel, gweler tudalennau'r Panel ar wefan Ofgem[7].

## Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor hwn, a gadeirir gan Christine Farnish, yn ystyried cyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff, a chynllunio olyniaeth hefyd. Am fanylion aelodau'r pwyllgor, ei rôl, a chyflog a hawliadau pensiwn uwch aelodau o staff, gweler yr adroddiad gydnabyddiaeth yn ddiweddarach yn yr adran hon.

# Sut y caiff perfformiad yr Awdurdod ei fesur?

Adolygwyd effeithiolrwydd y Bwrdd gan ymgynghorydd allanol ym mis Mawrth 2018. Daeth i'r casgliad bod Bwrdd Ofgem yn gweithredu mewn ffordd iach, gydag aelodau anweithredol egnïol a phwrpasol yn gwneud cyfraniadau

[6] Ymddeolodd John Swift QC o'r Panel ar 31 Mai 2019. Penodwyd Megan Forbes yn Gadeirydd y Panel ar 1 Mehefin 2019.
[7] https://www.ofgem.gov.uk/about-us/how-we-work/our-approach-regulation/enforcement-decision-panel

amrywiol; perthynas dda a oedd yn cynnwys her a gwrando rhwng aelodau gweithredol ac anweithredol; sylfaen gadarn ym maes rheoli risg; ac ymrwymiad clir gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd i welliant. Gellid a dylid datblygu her ymhellach ac argymhellodd yr adolygiad y dylai'r Bwrdd gynnwys mwy o aelodau sy'n Gyfarwyddwyr Anweithredol. Ymunodd tri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd â'r Bwrdd yn ystod 2018-19. Trafodwyd yr adolygiad mewn cyfarfod anffurfiol o aelodau'r Awdurdod ac uwch-swyddogion gweithredol ac yn dilyn hyn mae tasglu bach yn ystyried sut i wella ymhellach y broses o bennu cyfeiriad strategol y Bwrdd. Mae'r tasglu hwn yn cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol a dau aelod o'r bwrdd gweithredol ac fe'i cefnogir gan yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod. Trafodir hyn eto gan yr Awdurdod cyn haf 2019. Cynhelir yr adolygiad nesaf o effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Medi 2019, pan fydd Martin Cave, ein Cadeirydd newydd, wedi bod yn ei swydd am flwyddyn lawn.

## Y fframwaith llywodraethu gweithredol

### Uwch Dîm Arwain

Mae'r Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr E-Serve a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cefnogi'r Prif Weithredwr yn y gwaith o redeg Ofgem o ddydd i ddydd. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth, yn ogystal â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Economegydd. Am ran o'r flwyddyn, roedd Cyfarwyddwr E-Serve yn cyflenwi ar ran y Prif Swyddog Gweithredu fel rhan o'r Uwch Dîm Arwain. Mae'r Tîm yn cyfarfod yn wythnosol i benderfynu ar bopeth yn ymwneud â rheoli ac adnoddau, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod.

### Fframwaith Llywodraethu

Mae ein fframwaith llywodraethu gweithredol newydd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a strategaeth, prosesau gwneud penderfyniadau cyflymach o ansawdd uchel a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol er budd defnyddwyr. Mae'r byrddau canlynol yn eu lle ac yn cyfarfod bob mis.

### Bwrdd Perfformiad a Chyflawni

Mae'r Bwrdd Perfformiad a Chyflawni yn goruchwylio perfformiad lefel uchel y sefydliad ac yn dwyn timau i gyfrif am berfformiad a chyflawni ym mhob rhan o'r sefydliad, gan ystyried a gwneud y penderfyniadau gweithredol mwyaf arwyddocaol hynny. Y Bwrdd sy'n sicrhau ein bod yn rhoi gweithdrefnau a phrosesau busnes priodol a chadarn ar waith sy'n hwyluso gwaith cyflawni o safon uchel, a'n bod yn eu dilyn yn effeithiol. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn herio cynnydd tuag at gyflawni ein rhaglen waith ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ynglŷn â sicrhau canlyniadau'r rhaglen waith ac unrhyw gamau unioni sydd eu hangen i gyflawni amcanion cynlluniau a chynnal effeithlonrwydd y sefydliad. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob mis a chaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu. Bydd y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwr E-Serve yn mynychu.

### Bwrdd Rheoleiddio

Mae'r Bwrdd Rheoleiddio yn sicrhau y creffir yn briodol ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y sefydliad, yn rhoi arweiniad ar gam cynnar ar faterion polisi ac yn rhoi barn yr uwch dîm arwain ar faterion sy'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod. Nid yw'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio – lle'r Awdurdod, neu unigolion ag awdurdod dirprwyedig yw gwneud y rhain. Cadeirir y Bwrdd bob yn ail gan y Cyfarwyddwr Gweithredol, Defnyddwyr a Marchnadoedd, a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Systemau a Rhwydweithiau. Mae'n cyfarfod bob mis gan ganolbwyntio ar bapurau ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod y mis canlynol.

### Pwyllgor Llywodraethu a Chyflawni (E-Serve)

Diben y Pwyllgor hwn yw sicrhau bod gwaith llywodraethu, cyflawni cynlluniau a datblygu E-Serve yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon ac yn unol ag amcanion a strategaeth E-Serve, fel y pennir gan yr Awdurdod a Bwrdd E-Serve. Mae gan y Pwyllgor bwerau gwneud penderfyniadau gweithredol ar gyfer materion sydd o fewn i gwmpas, ond nid oes ganddo'r pŵer i wneud penderfyniadau ar gyfer unrhyw un o gynlluniau neu raglenni E-Serve sy'n swyddogaethau y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt o dan y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn wythnosol a chaiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr E-Serve.

### Y Fframwaith Rheoli Risg

Mae ein fframwaith rheoli risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem; sut rydym yn nodi, yn gweinyddu ac yn rheoli risgiau.

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio:

- y systemau sydd gennym i reoli risg
- sut rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli risg
- pwysigrwydd rheoli risg i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr
- manylion rolau a chyfrifoldebau rheoli risg
- canllawiau ac adnoddau ar reoli risg.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o'n gwaith llunio polisïau, cynllunio a chyflawni. Mae gan aelodau sy'n uwch-reolwyr amcanion penodol ar gyfer rheoli risg yn eu maes.

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu'r fframwaith a sicrhau bod pawb yn ymwybodol ohono. Gall pob aelod o staff weld y fframwaith ar ein mewnrwyd.

Rydym wedi pennu awydd i fentro a bennir yng nghyd-destun ein cenhadaeth i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr ynni. Ni allwn weithredu heb gymryd risgiau, felly mae'r fframwaith hwn yn ein helpu i nodi a gwerthuso'r risgiau hyn mewn ffordd strwythuredig sy'n eu cysylltu â'n cenhadaeth a'n strategaeth.

## Risg a rheoli

Mae ein fframwaith rheoli risg yn seiliedig ar egwyddor sicrhau bod y bobl gywir yn cael y sgyrsiau cywir ynglŷn â risg. Er mwyn cyflawni hyn, a rheoli risgiau'n briodol, mae'n bwysig ein bod yn nodi risgiau allweddol sy'n wynebu'r sefydliad ac yn cytuno ar y ffordd rydym am ymateb iddynt, gan gofio ein hamcanion statudol a'r adnoddau sydd gennym.

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am y fframwaith rheoli risg, gan bennu ein hawydd i fentro a chytuno ar ein themâu risg corfforaethol. Ddwywaith y flwyddyn, mae'r Awdurdod yn cynnal adolygiad strategol o wybodaeth am risg o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi dadansoddiad ar gyfer pob thema.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnal adolygiadau tebyg cyn adolygiad yr Awdurdod, yn ogystal â chynnal adolygiad manwl sy'n cynnwys trafodaeth fanwl am risgiau neu faterion penodol, er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd gwraidd y materion dan sylw. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn nodi sut mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

Mae ein tîm gweithredol yn pennu goddefiant risg ar gyfer ei feysydd cyfrifoldeb, yn adolygu cynlluniau lliniaru ar gyfer meysydd risg sylweddol o fewn ei gylch gwaith ac yn monitro symudiadau risg. Mae ein Bwrdd Perfformiad a Chyflawni yn cael adroddiadau rheolaidd o'n meysydd gweithgarwch amlycaf ac yn goruchwylio risgiau penodol a thematig a chynlluniau lliniaru cysylltiedig yn gyffredinol. Mae'r wybodaeth hon am risg yn helpu i sicrhau bod y bobl gywir yn cael y sgyrsiau cywir, fel y gallwn ddatblygu cynlluniau lliniaru yn brydlon, ac mae'n arbennig o ddefnyddio pan ddaw risgiau i'r amlwg sy'n pontio meysydd polisi gwahanol. Hefyd, mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb cyffredinol am fonitro a chyfarwyddo gwaith rheoli risg gweithredol yn y sefydliad.

Caiff archwiliadau annibynnol o'n prosesau rheoli risg eu cynnal gan ein swyddogaeth Archwilio Mewnol ar gylch 2-3 blynedd.

Yn ystod 2018-19, arhosodd polisi ynni yn uchel ar yr agenda wleidyddol ac agenda defnyddwyr. Mae defnyddwyr yn pryderu am gynnydd yn eu biliau ynni, a hynny'n ddealladwy, ac un ffocws risg sylweddol i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd **rhoi'r cap ar dariffau diofyn** ar waith ar ôl i Senedd y DU basio Deddf Nwy a Thrydan Domestig (Cap ar Dariffau) 2018 y Llywodraeth, a ddaeth yn gyfraith ym mis Gorffennaf 2018. Gwnaethom ffurfio tîm trawsadrannol a sefydlu rhaglen waith hynod strwythuredig er mwyn rhoi'r Cap ar Brisiau ar waith, gyda chyfundrefn llywodraethu ac adrodd gref hyd at lefel y Bwrdd. Ar ôl cydweithio'n agos â'r Llywodraeth ac ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid, gwnaethom roi'r cap ar waith yn llwyddiannus ar 1 Ionawr 2019 ac, ar ôl hynny, gwnaethom lwyddo i gynnal yr adolygiad cyntaf o'r cap ym mis Ebrill 2019.

Un o'n cyfrifoldebau pwysicaf yw rheoleiddio'r meysydd hynny o ddiwydiant nwy a thrydan y DU lle mae gan gwmnïau'n fonopoli effeithiol a lle nad oes modd cyflwyno cystadleuaeth o bosibl. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio systemau rheoli prisiau. **Bydd ein system rheoli prisiau nesaf, RIIO2**, yn rhedeg o 2021 ymlaen ac rydym yn cydnabod bod hwn yn faes o risg uchel i ddefnyddwyr, ond hefyd yn gyfle iddynt. Eleni mae'r Awdurdod wedi bod yn brysur iawn yn craffu ar gynigion gan ein rîm RIIO2 a'u hasesu, gan wneud nifer o benderfyniadau pwysig iawn ynghylch RIIO2, ar ôl ymgynghori'n helaeth, yn ystod 2018/19 gan gynnwys penderfyniadau ym mis Gorffennaf ynghylch fframwaith cyffredinol RIIO2 a phenderfyniadau ym mis Rhagfyr ynghylch methodolegau sector-benodol. Mae ein rhaglen RIIO2 ar y trywydd cywir i gael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2021 a bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r rhaglen yn agos iawn a'i llywio wrth i ni symud tuag at y cerrig milltir pwysig nesaf, sef penderfyniadau drafft a therfynol yn 2020.

Yn ystod 2018 gwnaethom **adleoli ein swyddfeydd yn Llundain** o San Steffan i Hwb Unedau Eiddo Llywodraeth yn ardal Dociau Canary Wharf. Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth y Llywodraeth, Y Ffordd Rydym yn Gweithio (TW3) – gan greu amylchedd gwaith gweddus i bob aelod o staff, gyda gweithleoedd modern sy'n galluogi gweithio hyblyg, yn gwella adnoddau TG yn sylweddol ac yn symleiddio gofynion diogelwch i'w gwneud yn llai beichus i'r staff. Mae gweithio'n gallach wedi dod yn fwy cyffredin yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Rhaglen a arweinir gan Swyddfa'r Cabinet yw TW3 ac mae pob un o adrannau'r llywodraeth wedi dechrau dilyn strategaethau gweithio'n gallach. Rydym bellach wedi adleoli ein staff yn Glasgow a Llundain i safleoedd amgen yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ar ddeiliadaeth, wedi gwella ein harferion gwaith ac wedi sicrhau bod gennym dechnoleg sy'n addas i'r diben.Yn ystod 2018 gwnaethom hefyd ddechrau o ddifrif ar ein rhaglen **ailstrwythuro sefydliadol sylweddol,** Datblygu Ofgem, er mwyn sicrhau bod ein sefydliad mewn sefyllfa i allu rheoleiddio marchnadoedd nwy a thrydan yn llwyddiannus ar ran defnyddwyr, ar adeg o newid digynsail ym mhob rhan o'r sector ynni, ac i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl o ystyried y tebygolrwydd y bydd yr adnoddau ariannol sydd ar gael i ni yn lleihau yn y dyfodol. Roedd yr adleoli a'r ailstrwythuro yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd sylweddol ar adeg arbennig o heriol i ni. Cafodd gwaith rheoli rhaglen a rheoli prosiect y ddwy fenter ei gyflawni'n drylwyr gan dimau penodedig, gyda'r Awdurdod yn monitro'n agos. Ymhlith manteision adleoli i Canary Wharf mae gweithio mwy cydweithredol ac ystwyth drwy'r sefydliad cyfan ac mae ailstrwythuro ein cyfarwyddiaethau rheoleiddiol wedi'i gwblhau. Disgwylir i'r is-adrannau sy'n weddill gael eu cwblhau yn ystod haf 2019.

Fel y nodwyd gennym y llynedd, ym mis Ionawr 2017, sefydlodd Gweinidog Cyllid Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ymchwiliad cyhoeddus er mwyn ystyried **Cynllun Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI) Annomestig Gogledd Iwerddon**, yn benodol ei ddyluniad, y trefniadau llywodraethu a gweithredu, ac ymdrechion i reoli costau'r cynllun[8]. Fel gweinyddwr y cynllun, mae'r ymchwiliad yn arwyddocaol i ni ac mae gennym dîm dynodedig ar draws Ofgem sydd wedi ymgysylltu'n helaeth â'r ymchwiliad ynghylch y materion a godwyd a oedd yn ymwneud â'n rôl yn y gwaith o weinyddu cynllun RHI Annomestig Gogledd Iwerddon. Rydym yn disgwyl i adroddiad yr ymchwiliad gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2019.

Yn 2017, cyn i'r ymchwiliad i gynllun RHI Annomestig Gogledd Iwerddon gael ei sefydlu, cyflwynodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol asesiad adroddiad[9] ar werth am arian **cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy (RHI) Prydain Fawr** sydd hefyd yn cael eu gweinyddu gan Ofgem. Nid yw cynllun RHI Annomestig Gogledd Iwerddon yn perthyn i gwmpas yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Chwefror 2018 a daw i'r casgliad bod yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) wedi dangos hyblygrwydd wrth gyflwyno'r cynllun, gan addasu amcanion y cynllun mewn ymateb i strategaeth a oedd yn newid a thybiaethau cynllunio cychwynnol a oedd yn rhy optimistaidd. Llwyddodd y mesurau a gyflwynwyd er mwyn rheoli costau'r cynllun i osgoi'r problemau a gododd yng nghynllun Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i'r casgliad cyffredinol nad yw cynlluniau RHI Prydain Fawr wedi cyflawni eu prif amcanion ac nad ydynt wedi sicrhau gwerth am arian. Gwnaethom groesawu adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a gwnaeth Ofgem a BEIS ymgorffori canfyddiadau'r Swyddfa, a gyfrannodd at ddiwygiadau'r llywodraeth a wnaed i'r cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy a basiwyd drwy Senedd y DU ym mis Mai 2018, gan gyflwyno newidiadau mewn tri maes allweddol: mesuryddion, aseinio hawliau a newidiadau i reolau disgyniad y cynllun.

Mae llawer o'r gwaith a wnawn ar ran defnyddwyr yn aml yn heriol iawn ac mae'n cyflwyno risg gynhenid, ond hefyd gyfle, i ddefnyddwyr. Mae modelau busnes, technoleg a dewisiadau defnyddwyr i gyd yn datblygu'n gyflym iawn – ond ni allwn ragweld natur y newidiadau hyn â sicrwydd. Wrth gyflawni ein gwaith rydym yn asesu'r buddiannau a'r risgiau posibl i ddefnyddwyr yn barhaus, yn ogystal â'r goblygiadau i ni fel rheoleiddiwr. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar 'sganio'r gorwel' (nodi bygythiadau, risgiau, materion sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd posibl) drwy gydol 2019-21, gan gydnabod a chroesawu gwaith rheoli risg systematig a chymesur fel ffordd o liniaru risg a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddwyr. Rydym wedi pennu gweithdrefnau rheoli risg synhwyrol a chymesur ym mhob maes o'n gwaith. Mae rheolwyr yn ystyried bod rheoli risg yn rhan annatod o'u gwaith, ac mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) yn adolygu prif risgiau Ofgem yn rheolaidd.

[8] https://www.rhiinquiry.org/
[9] https://www.nao.org.uk/report/low-carbon-heating-of-homes-and-businesses-and-the-renewable-heat-incentive/

## Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rydym yn cydnabod gwerth trefniadau corfforaethol da ac yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol.[10] Yr unig eithriad yw bod y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gael eu cadeirio gan y gweinidog arweiniol. Fel un o adrannau anweinidogol y llywodraeth ac awdurdod rheoleiddio cenedlaethol annibynnol, gydag aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae gan yr Awdurdod gadeirydd anweithredol yn lle hynny. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bob amser bod ein hymddygiad ein hunain fel rheoleiddiwr mor ymarferol gyson â phosibl ag egwyddorion Nolan ar gyfer safonau moesegol i gyrff cyhoeddus yn ogystal â'r argymhellion arfer gorau ar gyfer cyrff rheoleiddio.

## Ansawdd data

Mae cael data o ansawdd da yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol. Os nad yw'r data a ddefnyddiwn yn gadarn, yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gywir, gall hynny effeithio ar y penderfyniadau a wneir. Mae'r Awdurdod yn cael amrywiaeth eang o ddata ariannol a data eraill, er mwyn hwyluso'r broses o oruchwylio perfformiad swyddogaethau'r Awdurdod a llywio ei benderfyniadau rheoleiddio. Mae'r Awdurdod o'r farn bod y wybodaeth hon o ansawdd da yn gyffredinol. Yn 2016/17, gwnaethom newidiadau i'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth reoli fewnol, er mwyn ei gwneud yn fwy defnyddiol o ran monitro effeithlonrwydd y sefydliad wrth gyflawni ein hamcanion strategol. Yn 2017, gwnaethom sefydlu tîm amlddisgyblaethol dynodedig sydd â chenhadaeth i wella ein trefniadau rheoli data fesul tipyn. Mae ein tîm Gwasanaethau Data wedi parhau i dyfu drwy gydol 2018/19, gan gydweithio â phobl a thimau gwahanol ym mhob rhan o Ofgem, profi ffyrdd newydd o reoli data ac atgyfnerthu ein galluoedd mewnol o ran llywodraethu a diogelu data. Caiff y data a ddefnyddir i lywio penderfyniadau rheoleiddio eu hadolygu'n barhaus yn erbyn cefndir o newid parhaus yn y marchnadoedd perthnasol. Er mwyn hybu canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, rydym yn bwriadu cydweithio a rhannu gwersi/dulliau drwy grwpiau ymchwil ar y cyd UKRN, gan gynnwys prosiectau ar rannu data am ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd bregus, a gweithio gyda'n gilydd i wella ansawdd a hygyrchedd seilwaith a data defnyddwyr.

Yn unol â'n gwaith o arwain rôl y Cyd-awdurdod Cymwys Seiber (ar y cyd â BEIS) ar gyfer y Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth, yn ogystal â'n rôl gynyddol er mwyn sicrhau diogelwch mesuryddion deallus, rydym wedi ehangu ein tîm arbenigol i asesu, cynghori a monitro gweithredwyr gwasanaethau hanfodol. Hefyd, rydym yn atgyfnerthu ein galluoedd mewnol o ran llywodraethu a diogelu data, seiber weithrediadau, sicrwydd a phensaernïaeth

## Trefniadau chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban Ofgem ar gael i'n pobl ar ein mewnrwyd, ynghyd â chyngor yn dangos i reolwyr sut i ddelio â phryderon ynglŷn â chwythu'r chwiban. I chwythwyr chwiban allanol, caiff manylion cyswllt ein Desg Chwythu'r Chwiban eu cyhoeddi ar wefan gyhoeddus Ofgem, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig.

## Digwyddiadau data personol

Mae gan bob un o gyflogeion Ofgem rôl i gadw gwybodaeth yn ddiogel, ac mae polisïau cyhoeddedig ar gael ar safle mewnrwyd y sefydliad. Yn unol â'r polisïau hyn, mae prosesau ar waith i hysbysu am achosion o dor-data ac, ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, lle y codwyd digwyddiadau, nid oes unrhyw rai wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu o effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd ein system rheolaeth fewnol. Rwy'n seilio fy adolygiad ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system lywodraethu. Rwyf hefyd yn ystyried sylwadau'r archwilwyr mewnol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi dweud wrthyf am oblygiadau canlyniad fy adolygiad, ac mae cynllun yn bodoli i fynd i'r afael â'r gwendidau a welwn a sicrhau ein bod yn parhau i wella'r system.

Mewn adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2018/19 ac mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth ein harchwilwyr mewnol 42 o argymhellion y disgwylid iddynt gael eu gweithredu cyn 31 Rhagfyr 2018. O'r rhain, erbyn mis Ebrill 2019, roedd cynnydd

[10] https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments-2017

boddhaol wedi'i wneud gydag 17 o'r 42 o argymhellion naill ai wedi'u gweithredu neu wedi'u cwblhau i raddau helaeth, 21 o argymhellion eraill yn mynd rhagddynt, dau argymhelliad yn weddill a dau argymhelliad lle mae rheolwyr wedi derbyn y risg.

Eleni, cymerwyd camau i fonitro a gwella ein system lywodraethu:

- Adolygodd yr Awdurdod ein risgiau strategol ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2018
- Adolygwyd ein risgiau strategol gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2018.
- Sicrwydd: Mae Ofgem ac E-Serve wedi ffurfio swyddogaethau sicrwydd pellgyrhaeddol sy'n atgyfnerthu ein swyddogaethau rheoli risg, goruchwylio cydymffurfiaeth ac archwilio yn ein portffolio cyflawni a'n gwaith o weinyddu cynlluniau amgylcheddol.
- Penodwyd unigolion i rolau uwch allweddol yn y Gwasanaethau Corfforaethol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Digidol a Thechnoleg. Mae ymarfer i benodi rhywun parhaol i swydd Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl ac Ystadau yn mynd rhagddo.
- Cynhaliodd y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Adnoddau ymarfer blaenoriaethu'r gyllideb yn ystod chwarter 4 er mwyn sicrhau bod Ofgem yn pennu cynllun gweithredu terfynol ar gyfer 2019/20 sy'n gyflawnadwy o fewn ein hamlen ariannol ar gyfer y cyfnod. Arweiniodd yr ymarfer at ddeialog dryloyw rhwng cyfarwyddiaethau sefydliadol er mwyn blaenoriaethu adnoddau.
- Rydym wedi diweddaru ein datganiadau llywodraethu i'w gwneud yn ofynnol i bob un o'n Uwch-weision Sifil ystyried a chyflwyno adroddiadau ar bob agwedd ar reoli ariannol a rheoli risg a materion rheoli llywodraethu eraill yn eu maes.

Yn 2018/19 gwnaethom ofyn i'n darparwr archwilio allanol adolygu meysydd penodol lle roedd fy nhîm rheoli a minnau o'r farn bod gwendidau rheoli. Yn unol â'n disgwyliadau, nodwyd nifer o wendidau rheoli ac mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi llunio barn gyffredinol anfoddhaol yn 2018/19. Mae pob adroddiad archwilio mewnol wedi cael ei drafod gan Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd Ofgem ac mae cynlluniau wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd. Ymhlith y mesurau lliniaru nodedig sy'n mynd rhagddynt mae'r canlynol:

- Mae ein rhaglen drawsnewid 'Datblygu Ofgem' yn dal i fynd rhagddi ac, yn 2018/19, mae wedi dechrau canolbwyntio ar y Gwasanaethau Corfforaethol, yn benodol Pobl ac Ystadau, Cyllid a Digidol a Thrawsnewid. O dan uwch-arweinwyr newydd, bydd y timau hyn yn cael eu hailstrwythuro'n gyfan gwbl yn 2019/20, gan arwain at strwythurau timau, rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u trawsnewid yn sylweddol er mwyn sicrhau lefel uwch o berfformiad a galluogrwydd. Bydd y gwaith yn parhau i fireinio prosesau ac ymgorffori ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Bydd y gwaith o ailstrwythuro'r Gwasanaethau Corfforaethol hefyd yn golygu bod modd buddsoddi mewn systemau allweddol i Ofgem gan gynnwys cyflwyno archebion prynu, a system ddigidol ar gyfer caffael a rheoli contractau. Wedyn, bydd angen gwaith pellach i ymgorffori ffyrdd newydd o weithio gan ddefnyddio'r systemau hyn, gan gynnwys sicrhau bod y busnes yn deall ac yn cydymffurfio â'r ffyrdd hyn o weithio.
- O ystyried maint y pwysau ariannol a wynebwyd yn 2018/19 ac a ddisgwylir yn 2019/20, rwyf wedi ymgorffori ystod o delerau, amodau a gofynion perfformiad mewn llythyrau dirprwyo ariannol er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei reoli mewn modd cadarn sy'n cydymffurfio. Er enghraifft, mae targedau perfformiad wedi cael eu clustnodi i ddeiliaid cyllidebau er mwyn mesur cywirdeb eu rhagolygon yn ystod y flwyddyn, a bydd yn ofynnol i bob un o Uwch-weision Sifil Ofgem gael hyfforddiant ymwybyddiaeth ariannol a rheoli.
- Mae Bwrdd Ofgem wedi sefydlu Gweithlu, wedi'i gadeirio gan Gadeirydd Ofgem ac yn cynnwys nifer o Gyfarwyddwyr Anweithredol, i oruchwylio paratoadau Ofgem ar gyfer SR19, a defnyddio cyllideb 2019/20 Ofgem yn effeithiol. Er nad oes gan y Gweithlu unrhyw awdurdod ffurfiol i wneud penderfyniadau, mae'n ffynhonnell bellach o sicrwydd a her ynghylch gwaith cynllunio ariannol a rheoli cadarn yn y sefydliad cyn cylch gwariant y Llywodraeth.

Rwy'n ffyddiog y bydd y mesurau hyn yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r gwendidau rheoli a nodwyd, ac yn atgyfnerthu amgylchedd llywodraethu a rheoli Ofgem.



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff



# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phobl

Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys aelodau anweithredol yr Awdurdod a benodir drwy benderfyniad cyffredin yr Awdurdod. Cadeirir y pwyllgor gan Christine Farnish. Yr aelodau eraill yn ystod 2018-19 oedd Paul Grout ac Ann Robinson. Mae Martin Cave (Cadeirydd Ofgem), Dermot Nolan (Prif Swyddog Gweithredol), Sarah Cox (Prif Swyddog Gweithredu) yn mynychu fel arsylwyr, ac mae Andrea Armstrong (Adnoddau Dynol) yn cyflwyno gwybodaeth am Adnoddau Dynol/y Bobl ac mae Stella Denny yn rhoi cymorth ysgrifenyddol. Rôl y pwyllgor yw adolygu a chymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol a lefel unrhyw fonws i gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli. Mae hefyd yn ystyried materion eraill sy'n ymwneud â chyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff Ofgem. Dyfernir cyflog a bonysau ar sail perfformiad o fewn y terfynau a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet, a'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch ar gyfer cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu gwaith cynllunio olyniaeth a rheoli talent uwch aelodau o staff.

## Polisi cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r cadeirydd, mae pob un o'n huwch gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob un o gyflogeion yr Uwch Dîm Rheoli yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Petai Ofgem yn terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, byddai iawndal yn cael ei roi i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn **www.civilservicecommission.org.uk.**

## Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r wybodaeth yn y tablau canlynol wedi cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Dangosir cyflog cyflogeion lefel uchaf Ofgem (nad yw pob un ohonynt yn aelod o'r Awdurdod), eu taliadau bonws a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da iddynt yn 2018-19 yn y tabl dros y dudalen:

## Un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol

| | Cyflog (£000) | | Taliadau bonws (£000) | | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)‡ | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** | **2018-19** | **2017-18** |
| **Uwch aelodau gweithredol Ofgem** | | | | | | | | | | |
| **Dermot Nolan** Prif Weithredwr | 190-195 | 195-200 | - | - | - | - | 36,000 | 36,000 | 230-235 | 230-235 |
| **Jonathan Brearley** Cyfarwyddwr Gweithredol | 145-150 | 140-145 | 15-20 | - | - | - | 57,000 | 56,000 | 215-220 | 200-205 |
| **Sarah Cox** Prif Swyddog Gweithredu | 135-140 | 135-140 | 15-20 | - | - | - | 52,000 | 67,000 | 185-190 | 200-205 |
| **Martin Crouch** Uwch Bartner (gadawodd 30/6/18) | 75-80* | 140-145 | - | - | - | - | 20,000 | 45,000 | 95-100 | 185-190 |
| **Rob Salter-Church** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro (01/01/18) | 120-125* | 30-35* | 15-20 | - | - | - | 55,000 | 46,000 | 195-200 | 75-80 |
| **Dr Andrew Wright** Uwch Bartner (gadawodd 31/8/18) | 85-90* | 190-195 | 2-3 | - | - | - | 12,000 | 29,000 | 100-105 | 215-220 |
| **Chris Poulton** Rheolwr gyfarwyddwr dros dro (gadawodd 30/4/18) | 70-75* | 135-140 | - | - | - | - | 5,000 | 49,000 | 75-80 | 185-190 |
| ***Mary Starks** Cyfarwyddwyr Gweithredol (dechreuodd 10/09/18) | 90-95* | - | - | - | - | - | 36,000 | - | 125-130 | - |
| **Aelodau anweithredol yr Awdurdod** | | | | | | | | | | |
| **David Gray** (gadawodd 30/09/18) | 80-85* | 160-165 | - | - | - | - | - | - | 80-85 | 160-165 |
| ***Martin Cave** Cadeirydd (dechreuodd 01/10/18) | 80-85* | - | - | - | - | - | - | - | 80-85 | - |

Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol (heb gynnwys tâl ar sail perfformiad):

| | |
|---|---|
| **Mary Starks:** | 165-170 |
| **Martin Cave:** | 160-165 |
| **Martin Crouch:** | 140-145 |
| **Dr Andrew Wright:** | 190-195 |
| **Chris Poulton:** | 135-140 |
| **David Gray:** | 160-165 |
| **Rob Salter Fletcher:** | 120-125 |

‡ Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20, llai'r cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys unrhyw gynnydd neu leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| Aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod a dalwyd | 2018-19 | | 2017-18 | |
|---|---|---|---|---|
| | Honorariwm | Lwfans | Honorariwm | Lwfans |
| Christine Farnish | £20,000 | £3,000 | £20,000 | - |
| Paul Grout | £20,000 | £3,000 | £20,000 | - |
| Lynne Embleton (o fis Gorffennaf 2018) | £15,000 | - | - | - |
| Keith Lough | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Ann Robinson (o fis Gorffennaf 2018) ** | £15,000 | - | £21,000 | - |
| John Cracket (o fis Rhagfyr 2018) | £6,667 | - | £20,000 | £3,000 |

* Swm cyfatebol blynyddol £20,000
** Swm cyfatebol blynyddol £20,000
*** Swm cyfatebol blynyddol £20,000

Mae penodiadau aelodau anweithredol am gyfnod penodol, am hyd at bum mlynedd fel arfer. Nid yw'r penodiadau hyn yn adnewyddadwy. Ceir gwybodaeth am ddyddiadau penodi ar dudalen [xx]. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sy'n pennu cydnabyddiaeth ac yn gwneud penodiadau, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Telir cydnabyddiaeth iddynt ar ffurf honorariwm ynghyd â lwfans ychwanegol am gadeirio unrhyw un o bwyllgorau'r Awdurdod. Nid oes ganddynt yr hawl i gael tâl ar sail perfformiad na phensiwn. Telir iawndal am derfynu penodiad yn gynnar yn ôl disgresiwn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dechreuodd penodiad cadeirydd anweithredol yr Awdurdod, Martin Cave, ar 10 Gorffennaf 2018 a bydd yn para am bum mlynedd.

Yn ogystal â honoraria, sydd wedi'u cynnwys mewn cyflogau, caiff cyfarwyddwyr anweithredol hawlio treuliau gwirioneddol, os rhoddir tystiolaeth ar ffurf derbynebau.

Cyhoeddir y treuliau a hawlir gan ein huwch gyflogeion a'n cyfarwyddwyr anweithredol ar ein gwefan **www.ofgem.gov.uk.**

## Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU.

## Bonysau

Yn 2018/19, rhoddwyd bonws i 621 o aelodau o staff (697 yn 2017-18). Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,527.74 (£1,238 yn 17/18) a'r cyfanswm a dalwyd mewn bonysau oedd £948,727.30 (2017-18 £862,907). Un unigolyn a gafodd y bonws mwyaf, sef £17,500 (2017-18: pedwar a gafodd y taliad bonws mwyaf sef £12,500)

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu hasesu fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau yr adroddwyd arnynt yn 2018-19 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2017-18. Mae'r bonysau yr adroddwyd arnynt yn 2017-18 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2016-17.

## Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn 2018-19 oedd £195,000-£200,000 (2017-18: £195,000-£200,000).
Roedd hyn 4.69 gwaith (2017-18: 4.73) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £41,818 (2017-18: £41,782).

Yn 2018-19 ni chafodd unrhyw (2017-18: dim) rai o gyflogeion Ofgem gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £10,000 i £197,500 (2017-18: £10,000 i £195,757).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Lleihaodd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn barhaol yn 2018-19, fel y dangosir yn yr adroddiad staff isod.

## Buddion Pensiwn

| Buddion Pensiwn | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig yn 60 oed. £000 | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2018 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2019 £000 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2018 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod £000 | Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth Nearest £1000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch aelodau gweithredol Ofgem** | | | | | | |
| **Dermot Nolan**<br>Prif Weithredwr | - | - | - | - | - | 36 |
| **Jonathan Brearley**<br>Uwch Bartner | 5-10 | 2.5-5 | 104 | 58 | 26 | - |
| **Sarah Cox**<br>Prif Swyddog Gweithredu | 35-40 | 2.5-5 | 564 | 470 | 27 | - |
| **Martin Crouch**<br>Uwch Bartner | 40-45 | 0-2.5 | 545 | 529 | 11 | - |
| **Mary Starks**<br>Executive Director | 0-5 | 0-2.5 | 23 | - | 16 | - |
| **Rob Salter-Church**<br>Uwch Bartner Dros Dro o fis Ionawr 2018 | 30-35 | 2.5-5 | 371 | 286 | 22 | - |
| **Dr Andrew Wright**<br>Uwch Bartner | - | - | - | - | - | 29 |
| **Chris Poulton**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro | 20-25 | 0-2.5 | 196 | 193 | 1 | - |

## Pensiynau'r gwasanaeth sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu “alpha”, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag “alpha”. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y cynllun bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol (“classic”, “premium” neu “classic plus”) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan (“nuvos”) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.

Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau “classic”, “premium”, “classic plus”, “nuvos” ac “alpha” eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill

2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i ffwrdd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i "alpha" rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i "alpha" wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael "alpha". (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu "alpha" yn briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac "alpha", y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn seiliedig ar gyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy i aelodau o "classic" (ac aelodau o "alpha" a fu'n aelodau o "classic" yn union cyn ymuno ag "alpha") a rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau "premium", "classic plus", "nuvos" a phob aelod arall o "alpha". Mae buddiannau "classic" yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth ar gyfer "premium". Yn wahanol i'r cynllun "classic", ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun "classic plus" yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun "classic" a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun "premium". Bydd aelod o gynllun "nuvos" yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Mae buddiannau yn y cynllun "alpha" yn cronni mewn ffordd debyg i "nuvos", ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau "classic", "premium" a "classic plus", 65 oed ar gyfer aelodau "nuvos", a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau "alpha". (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu "alpha" yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac "alpha", y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol.

Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

## Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall). Mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Adroddiad Staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | | | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Rheoleiddio | 329 | 40 | **369** | **401** |
| E-Serve | 230 | 31 | **261** | **273** |
| Cyflawni | 191 | 30 | **221** | **142** |
| **Cyfanswm** | **750** | **101** | **851** | **816** |

Roedd 45 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 26 ym mand cyflog 1, 14.5 ym mand cyflog 2, a 4.5 ym mand cyflog 3.

## Costau staff

| Mae costau staff yn cynnwys | | | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogau | 40,458 | 5,966 | 46,424 | 42,821 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,544 | - | 4,544 | 3,522 |
| Costau pensiwn eraill | 7,995 | - | 7,995 | 7,481 |
| Costau staff eraill | 330 | - | 330 | (113) |
| **Cyfanswm** | **53,292** | **8,019** | **61,311** | **56,253** |

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori eraill yn 2018-19 oedd £18.04m, yn unol â nodyn 4 o'r cyfrifon (2017-18: £12.37m; 2016-17: £9.45m). Gwnaethom geisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarbodus cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol. Y prif reswm dros y cynnydd mewn gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 18-19 oedd y cymorth proffesiynol arbenigol roedd ei angen i gyflwyno cap ar brisiau tariffau diofyn a fydd yn arbed dros £1 biliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr.

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

| Band costau pecyn ymadael | 2018-2019 | | | 2017-2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau |
| <£10,001 | 0 | 3 | 3 | 0 | 3 | 3 |
| £10,001 - £25,000 | 0 | 3 | 3 | 0 | 3 | 3 |
| £25,001 - £50,000 | 0 | 5 | 5 | 0 | 2 | 2 |
| £50,001 - £100,000 | 0 | 5 | 5 | 0 | 7 | 7 |
| £100,001 - £150,000 | 0 | 2 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| £150,001 - £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | 0 | 18 | 18 | 0 | 16 | 16 |
| **Cyfanswm y gost £000** | **0** | **921** | **921** | **0** | **808** | **808** |

Rydym wedi talu costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaeth Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Rydym yn cyfrif am gostau ymadael yn llawn pan ddaw'r rhaglen ymddeol yn gynnar yn gyfrwymol ond gall y dyddiadau ymadael gwirioneddol fod yn y cyfnod adrodd canlynol. Lle rydym wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, ni sy'n talu'r costau ychwanegol ac nid Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cynnwys cyflogeion

Eleni, roedd gan ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 77%, a mynegai ymgysylltu o 61%, sef cynnydd o 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae ein staff yn parhau i nodi bod eu rolau yn ddiddorol (87%), gan gredu bod eu gwaith yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad personol iddynt (74%), a byddent yn argymell Ofgem fel lle gwych i weithio (61% – cynnydd o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

## Polisi cyfle cyfartal

Rydym yn recriwtio staff ar sail teilyngdod drwy gystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag egwyddorion recriwtio'r Gwasanaeth Sifil a lywodraethir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae hyn yn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, heb ystyried:

- hil;
- rhyw;
- cyfeiriadedd rhywiol;
- oedran;
- statws priodasol;
- anabledd;
- crefydd a chred;
- ailbennu rhywedd;
- beichiogrwydd a mamolaeth; neu
- patrwm gweithio.

Caiff yr holl weithgarwch recriwtio ei archwilio gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn yr egwyddorion recriwtio.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio. I'r perwyl hwn, gwnaethom lansio ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant yn 2019. Rydym hefyd yn y broses o benodi ein Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf (hysbysebwyd y rôl ym mis Ebrill 2019). Bydd y swydd hon yn ein helpu i herio ein dyheadau sefydliadol, gan ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldebau Sengl a bwrw ymlaen â'r broses o roi ein strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith – mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu. Yn arolwg ymgysylltu â staff 2017 cawsom sgôr o 79% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg.

Yn 2018, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth sy'n cwmpasu menywod, LGBT+, ethnigrwydd ac anabledd.

Yn 2018-19 parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a rhagfarn anymwybodol i staff. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar 31 Mawrth 2019:

- gwyddys bod gan 3.3% (2017-18: 2.1%) o'r staff anabledd.
- roedd 46% (2017-18: 45%) o'r staff yn fenywod.
- roedd 42% (2017-18: 45%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3) yn fenywod.
- roedd 44% (2017-18: 35%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod.
- gwyddys bod 19% (2017-18: 18%) o'r staff o darddiad lleiafrif ethnig.
- gwyddys bod 31% (2017-18: 62%) o'r staff o darddiad ethnig lleiafrif mewn swyddi rheoli (Band D i SCS3).

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

## Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Rydym wir yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaoedd yn ein helpu i'w cadw a denu pobl newydd mewn sawl ffordd. Mae ein proses o ddyrannu'r gyllideb yn darparu swm fesul cyflogai ar gyfer gweithgarwch dysgu a datblygu. Mae'r gweithgareddau hyn yn amrywio o e-ddysgu i gymorth ar gyfer ennill cymwysterau proffesiynol ac academaidd.

## Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogeion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae aelodau o'n staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy gynllun mentora. Yn 2018 gwnaethom hefyd dreialu gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ein swyddfa yn Glasgow. O ganlyniad i lwyddiant y treial hwn, mae E-Serve wedi ymrwymo i gydberthynas barhaus drwy gynnig mentora a phrofiad gwaith i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd drwy waith Ymddiriedolaeth y Tywysog.

Yn Llundain, rydym wedi dechrau datblygu ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned drwy Ganolfan Bromley-by-Bow (BBC). Elusen leol yw BBC sy'n rhoi cymorth cymunedol a chyfleoedd i ddysgu a gwella llesiant i drigolion Tower Hamlets.

## Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion o ddifrif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

Ers i ni symud i'n swyddfeydd newydd yn Commonwealth House a Canary Wharf, rydym wedi llwyddo i ddarparu amgylcheddau gwaith gwell er mwyn cefnogi llesiant ein staff. Mae hyn yn cynnwys cynnig amgylcheddau gwaith gwahanol, desgiau eistedd/sefyll ac offer arbenigol eraill.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2018-19, collwyd 5.1 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2017-18: 4.9 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y sector cyhoeddus sef 8.4 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai.

## Adolygiad o drefniadau treth penodeion yn y sector cyhoeddus

Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y Llywodraeth adolygiad o drefniadau cyhoeddus o benodeion yn y sector cyhoeddus. Nododd yr adolygiad nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gwerth mwy na £58,200 y flwyddyn ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

Ceir gwybodaeth am benodeion presennol oddi ar y gyflogres yn Atodiad III ar dudalen [108]. Mae gwybodaeth am amser cyfleuster undeb llafur i'w chael yn Atodiad IV, ar dudalen [109].



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

# Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad



# Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr amcangyfrif cyflenwi a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU, ar gyfer pob terfyn rheoli cyllidebol. Mae'r wybodaeth yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol wedi cael ei harchwilio gan archwilwyr allanol.

## Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2018-19

| | | | 2018-19 £000 | | | | | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | | Alldro |
| | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Nis cymeradwywyd drwy | Cyfanswm | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Nis cymeradwywyd drwy | Cyfanswm | Alldro a gymeradwywyd drwy bleidlais o'i gymharu â'r | Cyfanswm |
| **Terfynau Gwariant Adrannol** | | | | | | | | |
| Adnodd | 702 | - | 702 | 434 | - | 434 | 268 | 596 |
| Cyfalaf | 802 | - | 802 | 688 | - | 688 | 114 | 2,325 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | |
| Adnodd | | - | | | - | | | - |
| Cyfalaf | | - | | | - | | | - |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | 1,504 | - | 1,504 | 1,122 | - | 1,122 | 382 | 2,921 |
| **Adnodd Annomestig** | | | | | | | | |
| Adnodd | | - | | | - | | - | - |
| **Cyfanswm** | **1,504** | **-** | **1,504** | **1,122** | **-** | **1,122** | **382** | **2,921** |
| Cyfanswm yr Adnoddau | 702 | - | 702 | 434 | - | 434 | 268 | 596 |
| Cyfanswm Cyfalaf | 802 | - | 802 | 688 | - | 688 | 114 | 2,325 |
| **Cyfanswm** | **1,504** | **-** | **1,504** | **1,122** | **-** | **1,122** | **382** | **2,921** |

| | 2018-19 £000 | 2018-19 £000 | | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Alldro o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad | Alldro |
| **Gofyniad arian parod net** | 2,134 | (6,902) | 9,036 | 569 |

| **Costau gweinyddol** | 2018-19 £000 | 2018-19 £000 | | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Alldro | Arbediad | Alldro |
| | 702 | 434 | 268 | 596 |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.

# Alldro net SoPS1

## SoPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2018-19 £000 | | | | | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro – Gweinyddu | | | Amcangyfrif | | |
| | Gros | Incwm | Cyfan-swm net | Cyfanswm net | Cyfanswm net o'i gymharu â'r Amcangy-frif | Cyfanswm |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol** | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 71,935 | (71,935) | - | - | - | - |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | 25,227 | (24,793) | 434 | 702 | 268 | 596 |
| **Cyfanswm** | **97,162** | **(96,728)** | **434** | **702** | **268** | **596** |

## SoPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2018-19 £000 | | | | | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | Alldro |
| | Gros | Incwm | Cyfan-swm net | Cyfanswm net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r am-cangyfrif | Cyfan-swm |
| **Gwariant mewn terfynau gwariant adrannol** | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 688 | - | 688 | 802 | 114 | 2325 |
| **Cyfanswm** | **688** | **-** | **688** | **802** | **114** | **2325** |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.

## SoPS2 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | | Amcangy-frif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion/(dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro adnoddau** | SoPS1.1 | **702** | **434** | **268** |
| **Alldro cyfalaf** | SoPS1.2 | **802** | **688** | **114** |
| **Croniadau i addasiadau arian parod:** | | | | |
| ▪ Dibrisiant | 4 | (700) | (1,373) | 673 |
| ▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau | 4 | - | (445) | 445 |
| ▪ Eitemau anariannol eraill | 4 | (60) | (85) | 25 |
| ▪ Symudiad mewn cyfalaf gwaith | | | | |
| - Dyledwyr | | 1000 | (11,179) | 12,179 |
| - Creditors | | 390 | 4,633 | (4,243) |
| ▪ Defnydd o ddarpariaeth | 13 | - | 424 | (424) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **2,134** | **(6,902)** | **9,036** |

## SoPS3 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol

chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2018-19. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gennym wrth weithredu fel asiant y gronfa gyfunol yn hytrach na phenadur. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant y gronfa gyfunol yn natganiad ymddiriedaeth yr adran, a gyhoeddwyd ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn ond ochr yn ochr â hwy.

## Meysydd eraill o Atebolrwydd Seneddol

Nid yw'r meysydd canlynol yn gymwys i OFGEM:

- Colledion a thaliadau arbennig;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Rhwymedigaeth ddigwyddiadol annhebygol;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.



**Dermot Nolan**
Swyddog cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

# Tystysgrif Ac Adroddiad Y Rheolwr Ac Archwilydd Cyffredinol I Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel datganiad sydd wedi cael ei archwilio.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2019, ac o gost weithredu net yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn;
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Mae'n ofynnol i ni ddod i gasgliad ynghylch priodoldeb defnydd y rheolwyr o sail gyfrifyddu'r busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, ynghylch p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os byddaf yn dod i gasgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd datgeliadau yn annigonol, addasu fy marn, yn adroddiad yr archwilydd. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yn rhaid i'r Adran roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad.

Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, llunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth sy'n ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll yn uwch na pheidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, achosion o gam-gynrychioli, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn ffordd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ac nad aed uwchlaw'r cyfansymiau hynny. Mae'r cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Derfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), (Adnodd) Nad yw'n Gyllidebol a Gofyniad Arian Parod Net. Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Staff a datgeliadau Atebolrwydd Seneddol y disgrifir yn yr adroddiad hwnnw eu bod wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd hwnnw a luniwyd gennyf. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol fel arall. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os rwyf yn dod i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad ar Atebolrwydd;
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau ar Berfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London SW1W 9SP

**1 July 2019**

# Cyfrifon Adnoddau



# Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn nodi incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm neu wariant eto.

| | | | | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Costau staff | Costau eraill | Incwm | |
| **Costau gweinyddol** | | | | | |
| Costau staff | 3 | 61,311 | | | 56,523 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | | 35,851 | | 33,517 |
| Incwm Gweithredu | 5 | | | (96,728) | (89,444) |
| **Cyfansymiau** | | | | **434** | **596** |
| **Cost gweithredu net** | 2 | | | **434** | **596** |
| Cyfanswm y Gwariant | | | | 97,162 | 90,040 |
| Cyfanswm yr Incwm | | | | (96,728) | (89,444) |
| **Cost gweithredu net** | | | | **434** | **596** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | | | |
| Ennill/(colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 13 | | | (15) | 43 |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr** | | | | **419** | **553** |

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2019

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno ein sefyllfa ariannol. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir, rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill, ac ecwiti, gwerth gweddilliol yr endid.

| | | | 2018-19 | | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | | £000 | | £000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 6 | 2,677 | | 3,362 | |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | | **2,677** | | **3,362** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau Masnach Derbyniadwy a Symiau Derbyniadwy Eraill | 11 | 7,189 | | 18,368 | |
| Arian Parod a'r hyn sy'n Cyfateb Iddo | 10 | 9,036 | | 6,561 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | **16,225** | | **24,929** |
| ***Cyfanswm yr Asedau*** | | | **18,902** | | **28,291** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 12 | (18,382) | | (20,541) | |
| Darpariaethau – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 13 | (570) | | - | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | | **(18,952)** | | **(20,541)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(50)** | | **7,750** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | | | |
| Darpariaethau | 13 | (1,336) | | (1,870) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | | **(1,336)** | | **(1,870)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **(1,386)** | | **5,880** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (1,386) | | 5,880 | |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **(1,386)** | | **5,880** |



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos ein newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut rydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol. Mae llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn cynnwys y cyflenwad seneddol a llifau arian parod eraill, gan gynnwys benthyca.

| | Nodyn | 2018-19<br>£000 | 2017-18<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Cost gweithredu net | SoPS1.1 | (434) | (596) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 4 | 1,903 | 2,324 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 11,179 | (2,778) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy | 12 | (2,158) | (11,659) |
| *llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE* | 12 | (2,475) | 14,744 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 13 | (425) | (278) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **7,590** | **1,757** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | - | - |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 6 | (688) | (2,325) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(688)** | **(2,325)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | | - | - |
| Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 15,000 | 20,000 |
| Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (15,000) | (20,000) |
| **Llif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **-** | **-** |
| **Lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **6,902** | **(569)** |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | | (4,427) | (14,175) |
| **Cynnydd/(lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **2,475** | **(14,744)** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 10 | 6,561 | 21,305 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **9,036** | **6,561** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 87 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **5,800** |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – cydnabyddiaeth i archwilwyr | 4 | 64 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (596) |
| Colledion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 13 | 43 |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | - |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 7,130 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (6,561) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **5,880** |
| Taliadau nad ydynt yn rhai arian parod – cydnabyddiaeth i archwilwyr | 4 | 85 |
| Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (434) |
| Enillion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 13 | (15) |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | - |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | 2,134 |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (9,036) |
| Derbyniadau arian parod o 2018-19 nad ydynt yn ddyledus i'r gronfa gyfunol | | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **(1,386)** |

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol a gyhoeddwyd gan y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, rydym wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 60.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

### 1.2 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Ni chaiff eiddo, offer a chyfarpar eu hailbrisio'n flynyddol drwy ddefnyddio mynegeion mwyach. Yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig. Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth perthnasol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau lesddaliadol | Oes y brydles |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Pum mlynedd |
| Cyfarpar TG | Tair blynedd |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Mae grwpio asedau sydd islaw'r trothwy wedi'i gyfyngu i gyfarpar TG a dodrefn yn unig.

### 1.3 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i dalu rhai costau, bydd yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o'r gwerth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol.

Pan fo gwerth amser arian yn berthnasol, rydym yn disgowntio'r ddarpariaeth i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 0.1%, sef cyfradd safonol y llywodraeth. Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

Yn y cyfrifon eleni, dim ond darpariaeth ymddeol yn gynnar a welodd ddisgownt gan nad yw effaith disgowntio'r dadfeiliadau na darpariaethau ymadael gwirfoddol yn berthnasol. 0.1% yw'r gyfradd ddisgowntio ar gyfer buddiannau ôl-gyflogaeth.

## 1.4 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n gweithgareddau gweithredu yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

Gan fod holl gostau trwyddedau yn cael eu hadennill drwy'r ffioedd am drwyddedau a chaiff y rhain eu hanfonebu mewn dwy gyfran yn ystod y flwyddyn ar seiliedig ar gostau amcangyfrifedig, caiff unrhyw gostau sy'n cael eu goradennill eu trin fel incwm gohiriedig yn y symiau taladwy ac unrhyw gostau sy'n cael eu tanadennill fel incwm cronedig yn y symiau derbyniadwy.

## 1.5 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.6 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn Nodyn 3. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

Mae gan ein cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol drefniadau pensiwn ar wahân sy'n ddigon tebyg i'r PCSPS. Mae'r trefniadau yn darparu ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu. Fodd bynnag, yn wahanol i'r PCSPS, mae rhwymedigaeth pensiwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon fel sy'n ofynnol o dan IAS37.

## 1.7 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i ni dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Rydym yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n gyfrwymol arnom.

## 1.8 Treth ar werth

Yn ein cyfrifon, dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.9 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg.

## 1.10 Busnes gweithredol

Dengys y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2019 ecwiti trethdalwyr negyddol sy'n cyfateb i £1.386 miliwn.

## 1.11 Rhwymedigaethau amodol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Amodol), at ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd seneddol rydym yn cyflwyno adroddiad ar rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol. Rydym yn gwneud hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol y mae'n rhaid i ni eu datgelu o dan IAS 37 mewn symiau wedi eu disgowntio a gwneir nodyn ar wahân o'r swm y cyflwyniad adroddiad arno i Senedd y DU. Datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan Rheoli Arian Cyhoeddus yn y symiau y cyflwynir adroddiad arnynt i Senedd y DU.

## 1.12 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 16 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gennym unrhyw fudd ynddynt.

## 1.13 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

Mae Offerynnau Ariannol IFRS 9, sy'n gymwys o 1 Ionawr 2018, yn disodli Offerynnau Ariannol IAS 39: Cydnabod a Mesur. Eu hegwyddor graidd yw symleiddio'r broses o ddosbarthu a mesur asedau ariannol, ond maent hefyd yn ystyried lleihad mewn gwerth, dosbarthu a mesur rhwymedigaethau a chyfrifyddu ar sail rhagfantoli. Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei weithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei ariannu, ni chaiff ei amlygu i'r un graddau o risg ariannol y mae endidau busnes yn eu hwynebu. Nid yw mabwysiadu IFRS 9 yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ganlyniadau Ofgem.

IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid yn gymwys o 1 Ionawr 2018.

- Ar ddechrau'r polisi – bydd IFRS 15 yn cyflwyno model pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Yr egwyddor graidd yw cydnabod refeniw fel ei fod yn dangos nwyddau neu wasanaethau a addawyd i gwsmeriaid yn cael eu trosglwyddo mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r endid yn disgwyl y mae ganddo hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Mae Ofgem wedi ystyried y broses pum cam ac wedi penderfynu peidio â newid y dull o gydnabod refeniw (os yw'n berthnasol i Ogfem).

**- Ffioedd trwydded** – Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Ofgem fantoli ei wariant â'i incwm. Mae'n ofynnol yn ôl [cyfeiriad at y ddeddfwriaeth] i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddo er mwyn talu'r costau yr â Ofgem iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei gostau gan drydydd partïon. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thrydan, ac fel y nodir yn y [enw cynllun blynyddol Ofgem neu'r ddogfen gyfatebol] cyhoeddedig. Caiff y taliadau eu cyfrifo drwy adennill costau fel y nodir yng nghyllideb Ofgem a'u haddasu ar gyfer unrhyw achosion o oradennill neu danadennill yn y flwyddyn flaenorol [os yw'n berthnasol]. Cydnabyddir refeniw yn y flwyddyn pan eir i'r rhwymedigaeth perfformiad (cost). Caiff unrhyw refeniw a oradenillir neu a danadenillir ei gronni neu ei ohirio a chaiff unrhyw daliadau yn y dyfodol eu haddasu'n unol â hynny.

**- Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau** – O dan gytundebau/contractau lefel gwasanaeth gyda'r [e.e. yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a chyrff eraill y llywodraeth y mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni a chynlluniau amgylcheddol] ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau/contractau lefel gwasanaeth gael eu bodloni dros amser.

**- Incwm Arall** – Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.

IFRS 16 Prydlesau yn gymwys o 1 Ebrill 2020 ar gyfer cyrff y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FreM) – yn disodli IAS 17 Prydlesau ac yn newid y broses gyfrifyddu ar gyfer prydlesau yn ei hanfod i ddeiliaid prydlesau. Bydd model presennol IAS 17 sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau wahaniaethu rhwng prydlesau cyllid (ar y fantolen) a phrydlesau gweithredu (heb fod ar y fantolen) yn cael ei ddisodli gan fodel ‘hawl i ddefnyddio’ sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid prydlesau gydnabod bron pob prydles ar y fantolen gyda'u rhwymedigaeth gysylltiedig. Hefyd, bydd hyn yn golygu bod angen adolygu contractau newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli er mwyn nodi elfennau sy'n brydlesau ac elfennau nad ydynt yn brydlesau (h.y. gwasanaethau). Bydd Ofgem yn cyflawni asesiad o effaith ei amlygiad prydles ac yn sefydlu tîm prosiect i reoli'r broses o drawsnewid i IFRS 16. Bydd Ofgem yn asesu'r contractau presennol er mwyn canfod a oes digon o wybodaeth yn bodoli er mwyn galluogi'r asesiad yn unol â meini prawf IFRS 16.

## 1.14 Polisi Cyfrifyddu ar Benderfyniadau Cyfrifyddu Hanfodol ac Ansicrwydd Ynghylch Amcangyfrifon

Yn unol ag IAS 1.122, rhaid datgelu'r penderfyniadau, ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys amcangyfrifon, y mae'r rheolwyr wedi'u gwneud wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r endid sy'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol. Yn unol ag IAS 1.125, mae'n ofynnol datgelu gwybodaeth am y tybiaethau a wneir gan yr endid am y dyfodol, a phrif ffynonellau eraill ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon ar ddiwedd y cyfnod adrodd, sy'n cyflwyno risg sylweddol o arwain at addasiad sylweddol i symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mewn perthynas â'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny, mae'r nodiadau i'r datganiadau ariannol yn cynnwys manylion eu natur a'u swm cario ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â phenderfyniadau cyfrifyddu ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon.

## 1.15 Cronni Gwyliau

Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni.

## 2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl cylchran weithredu

| 2018-19 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Cyflawni £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 33,812 | 25,227 | 38,123 | 97,162 |
| Incwm | (33,812) | (24,793) | (38,123) | (96,728) |
| **Gwariant net** | **-** | **434** | **-** | **434** |

| 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Gwasanaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 42,156 | 24,398 | 23,486 | 90,040 |
| Incwm | (42,156) | (23,802) | (23,486) | (89,444) |
| **Gwariant net** | **-** | **596** | **-** | **596** |

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad. Mae'r Gwasanaethau Corfforaethol bellach yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Gyflawni sy'n cynnwys y Swyddfa Ymchwil ac Economegwyr, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a'r gwasanaethau Seiber a Data a oedd yn rhan o'r Gweithgareddau Rheoleiddio o'r blaen.

## 3. Costau staff

| **Mae costau staff yn cynnwys** | | | **2018-19 £000** | **2017-18 £000** |
|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogau | 40,627 | 8,019 | 48,646 | 44,220 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 4,523 | - | 4,523 | 4,389 |
| Costau pensiwn eraill | 7,936 | - | 7,936 | 7,723 |
| Costau staff eraill | 20 | - | 20 | 21 |
| Lefi Prentisiaethau (gwariant treth) | 186 | - | 186 | 170 |
| **Cyfanswm** | **53,292** | **8,019** | **61,311** | **56,523** |

Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha”, ond ni all Ofgem nodi ei gyfran o’r asedau a’r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actiwari’r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil **(www.civilservice-pensions.gov.uk)**.

Ar gyfer 2018-19 roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £7,665,084 yn daladwy i'r PCSPS a'r CSOPS (2017/18: £7,409,372) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% (2017-18: 20.0% i 24.5%) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari’r Cynllun yn adolygu cyfraniadau’r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o’r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2017-18 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £270,916 (2017/18: £312,823) i dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% (2016-17: o 8% i 14.75%). Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y cyflogwr yn cyfrannu £10,454 (2017-18: £12,395), 0.8% o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015, i'r PCSPS a'r CSOPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw.

Nid ymddeolodd neb (2017-18: neb) yn gynnar oherwydd salwch.

Gellir gweld nifer y staff yn yr adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ar dudalen 55.

Cyfrifir am y lefi prentisiaethau am gost. Nid yw'r gost hyfforddi na'r cyllid wedi cael eu cydnabod yn y cyfrifon oherwydd gall y prentis symud i weithio i gyflogwr arall ac felly ni fydd Ofgem yn cael unrhyw fudd o'r hyfforddiant prentisiaeth.

## 4. Costau gweinyddol eraill

| | Nodyn | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|---|
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredu:** | | **3,309** | **4,147** |
| Prydlesau gweithredu | | 3,309 | 4,147 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod (gweler isod):** | | **1,458** | **1,551** |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r Archwilwyr* | | 85 | 64 |
| Dibrisiant | 6 | 1,373 | 1,292 |
| Colled oherwydd lleihad mewn gwerth asedau sefydlog | | - | 195 |
| **Gwariant arall:** | | **30,639** | **27,046** |
| Contractwyr | | 18,039 | 12,366 |
| Costau llety | | 2,806 | 3,380 |
| Recriwtio a hyfforddiant | | 1,390 | 1,327 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 1,232 | 1,021 |
| Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa | | 5,872 | 6,302 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | | 319 | 1,512 |
| Costau sy'n ymwneud â staff | | 322 | 260 |
| Gwariant arall | | 659 | 878 |
| **Darpariaethau (nad ydynt yn rhai arian parod):** | | **445** | **773** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 13 | 425 | 754 |
| Cost llog | 13 | 20 | 19 |
| **Cyfanswm** | | **35,851** | **33,517** |

* Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

## 5. Incwm gweithredu

| | 2018-19 £000 | | | 2017-18 £000 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | **Costau llawn** | **Diffyg** | **Incwm** | **Costau Llawn** | **Diffyg** |
| Ffioedd trwydded | 69,143 | 69,143 | - | 61,193 | 61,193 | - |
| Arall | 27,585 | 28,019 | (434) | 28,251 | 28,847 | (596) |
| **Cyfanswm** | **96,728** | **97,162** | **(434)** | **89,444** | **90,040** | **(596)** |

| **Mae incwm arall yn cynnwys:** | 2018-19 £000 | 2017-18 £000 |
|---|---|---|
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | 2,385 | 2,206 |
| Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yn ymwneud â rhaglenni amgylcheddol a throsglwyddo staff) | 19,138 | 18,788 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | 5,655 | 3,503 |
| Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (yn ymwneud â chostau swyddfeydd wedi'u rhannu a throsglwyddo staff) | (6) | 2,053 |
| Adrannau eraill | 137 | 1,458 |
| Amrywiol* | 276 | 243 |
| | **27,585** | **28,251** |

*Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill.

## 6. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Ased sy'n cael ei adeiladu | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 306 | 1,999 | 6,535 | 7,498 | - | 16,338 |
| Ychwanegiadau | 26 | - | 627 | 35 | - | 688 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **332** | **1,999** | **7,162** | **7,533** | **-** | **17,026** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 180 | 1,976 | 5,249 | 5,571 | - | 12,976 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 31 | 21 | 773 | 548 | - | 1,373 |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **211** | **1,997** | **6,022** | **6,119** | **-** | **14,349** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2019** | **121** | **2** | **1,140** | **1,414** | **-** | **2,677** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2018 | 126 | 23 | 1,286 | 1,927 | - | 3,362 |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2019 | **121** | **2** | **1,140** | **1,414** | **-** | **2,677** |

| | Dodrefn | Cyfarpar swyddfa | TG | Lesddaliadol | Ased sy'n cael ei adeiladu | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | | £000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 335 | 2,489 | 6,770 | 5,749 | 62 | 15,405 |
| Ychwanegiadau | - | 5 | 633 | 1,687 | - | 2,325 |
| Lleihad mewn gwerthoedd | (29) | (495) | (868) | - | - | (1,392) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | 62 | (62) | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **306** | **1,999** | **6,535** | **7,498** | **-** | **16,339** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 166 | 2,296 | 5,103 | 5,316 | - | 12,881 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 29 | 110 | 898 | 255 | - | 1,292 |
| Lleihad mewn gwerthoedd | (15) | (430) | (752) | - | - | (1,197) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **180** | **1,976** | **5,249** | **5,571** | **-** | **12,976** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2018** | **126** | **23** | **1,286** | **1,927** | **-** | **3,362** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2017 | 169 | 193 | 1,667 | 433 | 62 | 2,524 |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2018 | **126** | **23** | **1,286** | **1,927** | **-** | **3,362** |

# 7. Ymrwymiadau o dan brydlesau

**Prydlesau gweithredu**

Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | Ar 31 Mawrth 2019 | Ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Mae rhwymedigaethau o dan brydlesau gweithredu yn cynnwys:** | | |
| Adeiladau: | | |
| O fewn blwyddyn | 2,134 | 2,733 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 8,502 | 8,409 |
| Ar ôl pum mlynedd | 23,626 | 25,904 |
| | **34,262** | **37,046** |

Disgwylir i bencadlys Ofgem symud o Millbank i Canary Wharf ym mis Ebrill 2018. Mae'r taliadau prydlesau gofynnol yng ngholofn '2018-19' yn ymwneud yn bennaf â rhwymedigaethau prydlesau o dan y cytundeb rhent newydd ar gyfer 10 South Colonnade yn Canary Wharf. Mae'r swyddfeydd newydd dan gontract tan fis Mehefin 2032.

## 7.1 Ymrwymiadau ariannol eraill

Ar 31 Mawrth 2019, nid oeddem wedi ymrwymo i unrhyw gontractau perthnasol na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredu).

## 8. Incwm yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo

| | Ar 31 Mawrth 2019 | Ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Adeiladau: | | |
| O fewn blwyddyn | - | 165 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | - |
| | **-** | **165** |

Mae'r wybodaeth uchod am brydlesau yn ymwneud ag is-osod lloriau yn ein pencadlys yn Llundain i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan gytundeb Memorandwm o Delerau Meddiannu (MOTO).

## 9. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr adran. Felly, nid ydym yn cael ein hamlygu i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

## 10. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 6,561 | 21,305 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 2,475 | (14,744) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **9,036** | **6,561** |
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 9,036 | 6,561 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **9,036** | **6,561** |

Yn ogystal â'r balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i hynny a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â sicred datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfa lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan. Disgrifir y rhain yn nodyn 16.

## 11. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | £000 | £000 |
| Ffioedd a gronnwyd (Incwm) | 5,277 | 7,506 |
| Cymhelliant Prydles a Gronnwyd | - | 4,859 |
| Dyledwyr masnach (symiau derbyniadwy) | 565 | 3,653 |
| Rhagdaliadau | 806 | 1,607 |
| Cyllid a Thollau EM (TAW) | 411 | 624 |
| Dyledwyr masnach | 130 | 119 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **7,189** | **18,368** |

Ym mis Chwefror 2015 llofnododd Ofgem gytundeb i ildio ei hawliau o dan Ddeddf Landlord a Thenant 1954, mewn perthynas â'i bencadlys yn Millbank.  Er mwyn cydnabod bod Ofgem wedi ildio ei hawliau, cytunodd Berkeley Homes, y mae'r landlord wedi ymrwymo i gontract ag ef i ailddatblygu Millbank, i dalu £5.25 miliwn i Ofgem.

Mae'r swm o £5.25 miliwn yn cynnwys adnau o £0.25 miliwn a oedd yn daladwy ar adeg llofnodi (mis Chwefror 2015). Cyfarwyddodd Ofgem y dylid talu'r swm i'r asiantau a negododd y cytundeb. Cronnwyd y cymhelliant prydles yn 17-18 a chafwyd y taliad yn 18-19.

Mae symiau derbyniadwy staff yn cynnwys benthyciadau sy'n weddill, y mae £0.121 miliwn o'r swm hwnnw yn ymwneud â benthyciadau tocyn tymor i gyflogeion.

## 12. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | **£000** | **£000** |
| Symiau a roddwyd o'r gronfa gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn | 9,036 | 6,561 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 2,995 | 6,571 |
| Croniadau | 3,319 | 4,666 |
| Symiau staff taladwy (tâl gwyliau a gronnwyd) | 1,599 | 1,538 |
| Credydwr Trethiant a Nawdd Cymdeithasol | 1,314 | 1,139 |
| Symiau masnach taladwy | 119 | 13 |
| Cymhelliant Lesddaliadol | - | 52 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **18,382** | **20,540** |

Mae'r symiau staff taladwy yn cynrychioli'r tâl gwyliau a gronnwyd tuag at wyliau i'w rhoi i'r staff yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

## 13. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

### 13.1 Ymddeol yn Gynnar

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **164** | **202** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | | (21) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (17) | (17) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **147** | **164** |

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio** | **£000** | **£000** |
| O fewn blwyddyn | 16 | 16 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 62 | 64 |
| Ar ôl pum mlynedd | 69 | 84 |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **147** | **164** |

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

## 13.2 Rhwymedigaethau pensiwn

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **803** | **827** |
| Cost llog | 20 | 19 |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol | - | - |
| (Ennill)/colled actiwaraidd | 15 | (43) |
| Cost gwasanaeth a roddwyd | - | - |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **838** | **827** |
| Symudiad net yn ystod y flwyddyn (heb gynnwys ennill/colled actiwaraidd | 35 | 19 |

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Hanes colledion profiad** | **£000** | **£000** |
| Ennill profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun | 8 | (5) |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 0.95% | -0.01% |
| Yn unol â'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr | 15 | (43) |

O 31 Mawrth 2018, y gyfradd ddisgowntio ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yw 0.10%. Adlewyrchir y gyfradd hon ym mhrisiad rhwymedigaeth y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2019.

## 13.3 Cynllun Ymadael Gwirfoddol

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **504** | **340** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 522 | 504 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | (97) | (79) |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (407) | (261) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **522** | **504** |

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod allan** | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | 522 | 504 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | - |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **522** | **504** |

## 13.4 Darpariaethau Dadfeiliadau

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| **Darpariaeth ar 1 Ebrill** | **368** | **50** |
| Darpariaeth a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 368 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | (50) |
| **Darpariaeth ar 31 Mawrth** | **368** | **368** |

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod allan** | £000 | £000 |
| O fewn blwyddyn | - | 81 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 368 | 287 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **368** | **368** |

Cytunwyd ar nifer o daliadau ymadael gwirfoddol â Swyddfa'r Cabinet ac unigolion. Mae'r rhain yn deillio o ad-drefnu mewnol o fewn yr is-adran Gwasanaethau Corfforaethol.

## 14. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Ar 31 Mawrth 2019 nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol yr oedd angen eu datgelu.

## 15. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £9.462 miliwn i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Roedd £8.537 miliwn o hwn ar gyfer costau cysylltiedig â'r sector ynni Llais y Defnyddiwr (yn gweithredu fel Dyfodol Defnyddwyr) a Cyngor ar Bopeth. Trosglwyddwyd y £0.925 miliwn oedd yn weddill ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran BEIS, ac yn secondio staff i'r adran honno. Roedd yr incwm gan BEIS a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £19.137 miliwn.

Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Yr incwm a gydnabuwyd oedd £0.872 miliwn gan Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau, a £0.805 miliwn gan Adran yr Economi.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog.

Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn a nodir ar dudalen 50.

## 16. Asedau trydydd partïon

**Sicred Datblygwyr Tendrau ar y Môr**

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal sicred at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r sicred hwn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2019 roedd Ofgem yn dal £11.750m mewn llythyrau credyd (2017-18 £7.30m) a £0.700m mewn arian parod (2017-18 £1.550m).

### Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Nod y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon yw rhoi cymhelliant i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y farchnad cynhyrchu trydan. Cyflwynwyd y cynlluniau hyn gan yr Adran Masnach a Diwydiant (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol bellach), Gweinyddiaeth yr Alban a'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddi yn y drefn honno a chânt eu gweinyddu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan y cyflawnir ei swyddogaethau o ddydd i ddydd gan Ofgem. Darperir ar gyfer y cynlluniau mewn is-ddeddfwriaeth ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr trydan trwyddedig gael cyfran benodol o'r trydan a gyflenwir ganddynt o ffynonellau adnewyddadwy neu wneud taliad i gronfa prynu cyfran, neu gyfuniad o'r ddau. Mae Tystysgrif Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn dystiolaeth bod cyflenwr wedi cael ei drydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae pob taliad prynu cyfran yn mynd i mewn i'n cronfa prynu cyfran ar gyfer cyfnod cydymffurfio penodol. Yna caiff y taliadau hyn (gan gynnwys taliadau hwyr) eu hailddosbarthu i gyflenwyr erbyn canol mis Tachwedd ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio (sy'n rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth bob blwyddyn) i'r rhai sydd wedi cyflwyno Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Fel arfer mae'r balans yn y gronfa prynu cyfran yn werth bach iawn ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa prynu cyfran ar 31 Mawrth 2019 oedd £163,173 (31 Mawrth 2018: £162,987).

### Cronfa lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2019 oedd £3,268,360 (31 Mawrth 2018: £141,504).

## 17. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# Datganiad Ymddiriedaeth



# Rhagair y swyddog cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth

## Cwmpas

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Nodir cyfrifoldebau'r Awdurdod yn Neddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989, Deddf Cyfleustodau 2000, Deddf Cystadleuaeth 1998, Deddf Menter 2002, Deddfau Ynni 2004, 2008, 2010, 2011 a 2013 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi (gan gynnwys rhoi cosbau ariannol) mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio, a chasglu ardollau tanwydd ffosil Cymru a Lloegr, a'r Alban.

Mae'r datganiad ymddiriedaeth yn adrodd ar y refeniw a'r gwariant a'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dirwyon, cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r gronfa gyfunol .

Paratoir y datganiad hwn hefyd i ddatgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Ni fu unrhyw wariant nac incwm o'r fath yn ystod 2018-19.

## Cefndir

### Cosbau

O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 gall yr Awdurdod osod cosb statudol os yw'n fodlon bod parti a reoleiddir (e.e. deiliaid trwydded) wedi mynd yn groes neu yn mynd yn groes i unrhyw amod neu ofyniad perthnasol, neu wedi methu neu yn methu â chyflawni unrhyw safon ragnodedig o berfformiad.

Ni all unrhyw gosb a osodir gan yr Awdurdod fod yn fwy na 10% o drosiant y parti a reoleiddir. Caiff unrhyw symiau a osodir gan yr Awdurdod drwy gyfrwng cosb statudol eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol. Yn 2018-19, cafwyd cyfanswm o £2,400,000. Mae'r Awdurdod yn hysbysu'r parti a reoleiddir ei fod yn cynnig gosod cosb ac mae'n ymgynghori ar hyn yn gyhoeddus.

[11] Ni sy'n casglu'r dirwyon, cosbau ac ardollau tanwydd ffosil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Cafodd hyn ei adolygu gan yr archwilwyr a'i gymeradwyo ar gyfer 2018-19

## Adolygiad ariannol

Eleni gwnaethom osod cosbau ar gwmnïau a'i gwneud yn ofynnol iddynt wneud iawn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt neu fel arall gefnogi buddiannau defnyddwyr ynni. Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â chosbau a arweiniodd at ddosbarthu arian i'r gronfa gyfunol[12].

### Npower

Ar 17 Medi 2018, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i roi un gosb gyfunol o £2.4 miliwn i npower Direct Limited, npower Limited, npower Northern Limited ac npower Yorkshire Limited, yn dilyn ymchwiliad gan Ofgem i gydymffurfiaeth npower ag Amodau Trwydded Safonol 12.18 a 12.21 o'r Drwydded Cyflenwi Trydan.

Mae Amodau Trwydded Safonol 12.18 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr osod “Uwch Fesuryddion” trydan newydd ar ‘safleoedd perthnasol’ (a ddiffinnir yn Amodau Trwydded Safonol) yn unig o fis Ebrill 2009 ymlaen. Gwelsom fod npower yn gosod mesuryddion trydan newydd ar safleoedd perthnasol diffiniedig nad oeddent yn uwch fesuryddion, yn groes i Amodau Trwydded Safonol 12.18.

Mae Amodau Trwydded Safonol 12.21 yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedai, o 6 Ebrill 2014 ymlaen, beidio â chyflenwi trydan i unrhyw safleoedd perthnasol heblaw drwy uwch fesurydd, ac eithrio mewn unrhyw achosion lle na allai'r trwyddedai osod na threfnu i osod unrhyw uwch fesurydd ar y safle perthnasol dan sylw er ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i wneud hynny.  Gwelsom hefyd fod npower wedi methu i gymryd pob cam rhesymol i osod neu drefnu i osod uwch fesurydd ar safleoedd perthnasol.

[12] Gall cwmnïau wirfoddoli i dalu swm o arian i'r Gronfa Unioni Gwirfoddol yn lle cosb ariannol, neu'n ychwanegol ati, am dorri amodau'r drwydded. Gall cwmnïau hefyd wirfoddoli i wneud y taliadau hyn i wneud iawn am unrhyw niwed i ddefnyddwyr, yn ogystal ag iawndal i'r rhai yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt, lle nad yw Ofgem wedi cynnal ymchwiliad ffurfiol. Mae manylion y gronfa i'w gweld yn https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/08/authority_guidance_on_the_allocation_of_redress_funds.pdf

# Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiad ymddiriedaeth

O dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) i baratoi datganiad ymddiriedaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae Trysorlys EM wedi penodi'r prif weithredwr fel swyddog cyfrifyddu Ofgem, gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r datganiad ymddiriedaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Paratoir y datganiad ymddiriedaeth ar sail croniadau a rhaid iddo roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa o ran dirwyon a chosbau a osodir gan Ofgem, a'r Ardoll Tanwydd Ffosil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a gesglir gennym ni, ynghyd â'r symiau net a ildiwyd i'r gronfa gyfunol.

Wrth baratoi'r datganiad ymddiriedaeth, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a baratowyd gan Drysorlys EM a gwneud y canlynol yn benodol.

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r datganiad ymddiriedaeth ar sail busnes byw.

## Governance statement

Mae datganiad llywodraethu Ofgem, sy'n cwmpasu cyfrifon yr adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth, ar dudalennau 40 i 47.

# Tystysgrif Ac Adroddiad Y Rheolwr Ac Archwilydd Cyffredinol I Dŷ'r Cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu pwysig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ar 31 Mawrth 2019, ac o'r refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos perthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio'n fanylach o dan gyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwy'n annibynnol ar Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol o ran cynnig sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Mae'n ofynnol i mi ddod i gasgliad ynghylch priodoldeb defnydd y rheolwyr o sail gyfrifyddu'r busnes gweithredol ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd, ynghylch p'un a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os byddaf yn dod i gasgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd datgeliadau yn annigonol, addasu fy marn, yn adroddiad yr archwilydd. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol olygu y bydd yn rhaid i'r endid roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), rwyf yn arddel barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, llunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a chael tystiolaeth sy'n ddigonol ac yn briodol i gynnig sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll yn uwch na pheidio â chanfod camddatganiad perthnasol o ganlyniad i wall, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, achosion o gam-gynrychioli, neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio gweithdrefnau archwilio sy'n briodol o dan yr amgylchiadau, ond nid at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan.
- gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a datgeliadau perthnasol a wnaed gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol ar y cyfan, gan gynnwys y datgeliadau, a ph'un a yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynrychioli'r trafodion sylfaenol a'r digwyddiadau mewn ffordd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.

Rwy'n cyfathrebu'r â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu mewn perthynas ag, ymhlith materion eraill, y cwmpas a'r amseru a gynlluniwyd ar gyfer yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol o'r archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol ym maes rheolaeth fewnol rwyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth Arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol nac adroddiad yr archwilydd arnynt a luniwyd gennyf. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno. Mewn perthynas â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd gennyf yn yr archwiliad neu sy'n ymddangos ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol fel arall. Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, os rwyf yn dod i gasgliad bod y wybodaeth arall wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, London SW1W 9SP

**1 July 2019**

# Datganiad o refeniw, ac incwm a gwariant arall am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

| | | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£000** | **£000** |
| **Refeniw** | | | |
| **Dirwyon a chosbau** | | | |
| Cosbau a osodwyd | | 2,400 | - |
| **Ardoll Tanwydd Ffosil** | | | |
| Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | | 1,818 | 2,583 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban) | | 540 | 850 |
| **Incwm arall** | | | |
| Llog ar gosbau | | - | - |
| Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | | 183 | 75 |
| Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban) | | 253 | 100 |
| **Cyfanswm y refeniw ac incwm arall** | | **5,194** | **3,608** |
| **Gwariant** | | | |
| Gweinyddu'r Ardoll Tanwydd Ffosil | | (11) | (38) |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **(11)** | **(38)** |
| **Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol** | | **5,183** | **3,570** |

Ni fu unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y cyfrifwyd amdanynt y tu allan i'r datganiad uchod o refeniw ac incwm a gwariant arall.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 98 i 99 yn rhan o'r datganiad hwn.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2019

| | | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£000** | **£000** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy | 3 | 307 | 440 |
| Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol y DU | | 31,671 | 32,500 |
| Arian parod yn y banc – cronfa gyfunol yr Alban | | 43,352 | 42,610 |
| Asedau cyfredol net | | 75,330 | 75,550 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig | 4 | (2) | (2) |
| **Cyfanswm asedau net** | | **75,328** | **75,548** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol y DU | | 31,884 | 32,895 |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol yr Alban | | 43,444 | 42,653 |
| | 5 | **75,328** | **75,548** |



**Dermot Nolan**
Swyddog Cyfrifyddu

**21 Mehefin 2019**

## Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 2,917 | 4,149 |
| Arian parod a dalwyd i'r cronfeydd cyfunol | (3,003) | - |
| **Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod** | **(86)** | **4,149** |

## Nodiadau i'r datganiad llif arian parod

### A: Cysoni llif arian parod net â symudiad mewn cronfeydd net

| | | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol | | 2,783 | 3,570 |
| Gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod | 3 | 134 | 579 |
| Gostyngiad mewn rhwymedigaethau | 4 | - | - |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 2,917 | 4,149 |

### B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gostyngiad mewn arian parod yn y cyfnod | (86) | 4,149 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill 2018 | 75,110 | 70,961 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2019 | 75,024 | 75,110 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 98 i 99 yn rhan o'r datganiad hwn.

# Nodyn i'r datganiadau ymddiriedaeth

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail cyfrifyddu

Paratoir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 ac yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng Ofgem a'r Trysorlys ac fe'u datblygwyd drwy gyfeirio at y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chanllawiau perthnasol eraill. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a geir yn y datganiadau hyn yw'r llifau hynny o gronfeydd y mae Ofgem yn ymdrin â hwy ar ran y gronfa gyfunol a lle y mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phenadur.

Caiff y wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ac yn y nodiadau ei thalgrynnu i'r £1,000 agosaf.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

### 1.3 Cydnabod refeniw

Mesurir dirwyon, cosbau ac ardollau yn unol ag IFRS 15. Fe'u mesurir ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy. Cydnabyddir incwm pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- gosodir dirwy neu gosb yn ddilys a bydd rhwymedigaeth i dalu yn codi
- daw taliad ardoll yn ddyledus.

# 2. Refeniw

## 2.1 Dirwyon a chosbau

Yn ystod 2018-19, dim ond cosbau nominal a gafwyd gan Ofgem heblaw'r ddirwy o £2.4m i Npower o ddatgelwyd yn Atodiad II.

# 3. Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy

| | Refeniw cronedig derbyniadwy ar 31 Mawrth 2019 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2019 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Dirwyon a Chosbau | - | - | - |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | 307 | 307 | 440 |
| **Cyfanswm** | **307** | **307** | **440** |

Symiau derbyniadwy yw'r symiau sy'n deillio o'r rhai y gosodwyd cosbau ariannol arnynt neu lle yr aseswyd ardoll ar ddyddiad y fantolen, ond lle y ceir derbyniad wedi hynny.

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.

# 4. Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig

| | Symiau taladwy ar 31 Mawrth 2019 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2019 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | 2 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** | **2** | **2** |

Symiau taladwy yw'r symiau y cadarnhawyd eu bod yn ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle y gwneir taliad wedi hynny.

# 5. Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol

| | 2018-19 | 2017-18 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol | 75,548 | 71,978 |
| Refeniw net ar gyfer cyfrifon y gronfa gyfunol | 5,183 | 3,570 |
| Llai symiau a dalwyd i'r gronfa gyfunol | (5,403) | - |
| **Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 31 Mawrth** | **75,328** | **75,548** |

# Atodiadau



# Atodiad I
# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| Cystadleuaeth Effeithiol | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig (DPAau)** | **Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur** | **Targed blynyddol 2018-19** | **Gwirioneddol** |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgynghoriad Adran 8a | 70 diwrnod gwaith | 43.5 diwrnod gwaith |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Dewis Cynigydd a Ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno ITT (ac eithrio Cynnig Gorau a Therfynol) | 120 diwrnod gwaith | 97.3 diwrnod gwaith |
| Ceisiadau am Drwydded | Gwneud penderfyniadau ar Geisiadau am Drwydded o fewn 45 diwrnod | 100% | 100% |
| Addasiadau i'r Cod | Gwneud penderfyniadau ynghylch addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod gwaith (neu dri mis os oes angen ymgynghoriad ynghylch bwriad / Asesiad Effaith). | 90% | 55% |
| Cysylltiadau Cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 93% - 10 diwrnod gwaith | 91% |
| Chwythwyr Chwiban | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau chwythwr chwiban | 100% i gael ymgysylltiad cychwynnol o fewn 1 diwrnod gwaith. | 92% |

| DPAau E-Serve 2018-19 | | | |
|---|---|---|---|
| **Metrig** | **Beth sy'n cael ei fesur** | **Targed** | **Gwirioneddol** |
| DRHI | Ymateb i ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 76.4%[13] |
| NDRHI | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 95.1% |
| RO | Ymateb i ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 86.8%[14] |
| FIT | Ymateb i ymholiadau ynglŷn â cheisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 93.5% |
| ECO | Ymateb i ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith | 90% | 96.2% |
| WHD | Ymateb i gynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes a gyflwynwyd gan y parti gorfodol am gymeradwyaeth, o fewn 28 diwrnod | 100% | 100.0% |
| DRHI | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99.99% |
| NDRHI | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99.97% |
| RO | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99.82% |
| FIT | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99.90% |
| ECO | Sicrhau bod y system ar gael yn ystod oriau busnes | 99% | 99.85% |
| DRHI | Gwneud taliadau o fewn 30 diwrnod gwaith | 95% | 98.0% |
| NDRHI | Gwneud taliadau o fewn 40 diwrnod gwaith | 95% | 88.0%[15] |
| RO | Cyhoeddi'r brif gyfres o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar ôl dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu hallbwn data, o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebr-Meh) a 12 diwrnod gwaith (Gor-Maw) | 95% | 98.8% |
| FIT | Cwblhau'r broses lefelu o fewn 22 diwrnod gwaith | 95% | 100.0% |
| ECO | Prosesu'r mesurau a gyflwynwyd mewn un mis calendr erbyn diwedd y mis canlynol | 100% | 100.0% |

[13] Gwnaethom addasu adnoddau ar draws timau gweithredol mewn ymateb i gynnydd o 37% mewn galw am geisiadau yn ystod chwe mis olaf y flwyddyn ariannol. Arweiniodd y blaenoriaethu hyn at wasanaeth ymholiadau llai.

[14] Oherwydd natur gymhleth y ceisiadau i'r cynllun sy'n weddill, gan gynnwys y rhai a gafwyd yn ystod cyfnodau gras, cymerodd fwy o amser nag arfer i ddatrys nifer o ymholiadau. O ganlyniad i hyn, roedd y DPA cyffredinol yn is na'r targed.

[15] Roedd taliadau ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn yn is na'r DPA am fod nifer o hen ymholiadau data wedi cael eu cyfrif yn y metrig hwn yn anghywir. Adolygwyd hyn ac addaswyd y metrig er mwyn adlewyrchu gweithgarwch presennol Ofgem yn unig

# Appendix II
# Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2018-19

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan[16] yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi.[17] Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan,[18] er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad[19] ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT).[20]

Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i'r gronfa unioni gwirfoddol, a weinyddir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.[21]

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| SSE | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 25C a 31A – peidio â thrin cwsmeriaid yn deg drwy roi gwybodaeth anghywir i gwsmeriaid yn eu datganiadau blynyddol. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Mae SSE wedi derbyn iddo fethu â chydymffurfio; datryswyd yr achos drwy gamau gweithredu amgen; cymerwyd camau unioni a gwnaed taliad unioni gwirfoddol o £1m i'r gronfa unioni gwirfoddol. | Mehefin 2018 |
| Nwy Prydain | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 24 a 25C – peidio â thrin cwsmeriaid yn deg drwy roi telerau ac amodau anghywir i rai cwsmeriaid, codi ffioedd terfynu ar rai cwsmeriaid yn anghywir a methu â chymhwyso prisiau contract cyflenwi cyfnod penodol at filiau terfynol rhai cwsmeriaid yn y cyfnod a ddiogelir ar ôl newid cyflenwr. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Derbyniodd Nwy Prydain iddo fethu â chydymffurfio; datryswyd yr achos drwy gamau gweithredu amgen; cymerwyd camau unioni a thalwyd cyfanswm o £1.8m (iawndal a dalwyd yn uniongyrchol i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt; a thalwyd swm o arian unioni gwirfoddol i'r gronfa unioni gwirfoddol). | Awst 2018 |

[16] https://www.ofgem.gov.uk/investigations

[17] https://www.ofgem.gov.uk/system/files/docs/2017/10/enforcement_guidelines_october_2017.pdf

[18] Nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.

[19] Rheoliad 1227/2011 Senedd Ewrop a'r Cygor 25 Hydref 2011

[20] Mae ein Canllawiau Gweithdrefnol ar gyfer REMIT i'w gweld yn: https://www.ofgem.gov.uk/publications-and-updates/consultation-decision-remit-penalties-statement-andprocedural-Guidelines

[21] https://energyredress.org.uk/

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| npower | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol 12 – methiannau mewn perthynas â gosod uwch fesuryddion. | Canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Rhoddwyd cosb o £2.4m.[22] | Awst 2018 |
| Iresa | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 14, 23, 25C (Amod Trwydded Safonol 0 o fis Hydref 2017), 27 a Rheoliadau Safonau Ymdrin â Chwynion Defnyddwyr 2008 – pryderon ynglŷn ag ymdrin â chwynion, gwasanaeth cwsmeriaid, newid cyflenwr, rhoi ad-daliadau ac adennill dyled ac ystyried y gallu i dalu. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Daeth yr ymchwiliad i ben pan roddodd Iresa Limited y gorau i fasnachu ym mis Gorffennaf 2018 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. | Awst 2018 |
| Spark Energy | Cydymffurfiaeth ag Erthygl 68 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 44 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (yr Alban) 2009 – methu â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Daeth yr ymchwiliad i ben pan roddodd Spark Energy y gorau i fasnachu ym mis Tachwedd 2018 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. | Rhagfyr 2018 |
| Extra Energy | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 7B, 14, 21B, 25C, 27, 31Aa Rheoliadau Safonau Ymdrin â Chwynion Defnyddwyr 2008 – Pryderon mewn perthynas â thrin cwsmeriaid yn deg, amlder bilio, darparu biliau terfynol yn brydlon, darparu datganiadau blynyddol, ad-dalu balansau credyd, ymdrin â darlleniadau mesurydd yn briodol, rhwystro rhag trosglwyddo, ac ymdrin â chwynion a galwadau. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Daeth yr ymchwiliad i ben pan roddodd Extra Energy y gorau i fasnachu ym mis Tachwedd 2018 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. | Rhagfyr 2018 |
| Economy Energy | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 25 – pryderon mewn perthynas ag arferion gwerthu a marchnata. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Daeth yr ymchwiliad i ben pan roddodd Economy Energy y gorau i fasnachu ym mis Ionawr 2019 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. | Ionawr 2019 |
| Economy Energy | Cydymffurfiaeth ag Erthygl 68 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 44 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (yr Alban) 2009 – methu â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Daeth yr ymchwiliad i ben pan roddodd Economy Energy y gorau i fasnachu ym mis Ionawr 2019 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu. | Ionawr 2019 |

[22] Gwrandawiad a ymladdwyd oedd hwn, lle y gwnaeth y Panel Penderfyniadau Gorfodi, ar ran yr Awdurdod, ganfyddiad ffurfiol o dor-amod. Yn achos gwrandawiad a ymleddir, mae'r gosb a roddir yn mynd i'r gronfa gyfunol.

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd yr Awdurdod drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau i ddefnyddwyr yn gyflym, heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Cadent | Cydymffurfiaeth â Safonau Perfformiad Gwarantedig 2 a 12 – pryderon mewn perthynas ag adfer safleoedd cwsmeriaid. | Wedi cau drwy gamau amgen. Talodd Cadent £1,660,050 mewn iawndaliadau i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt; a thalodd £278,050 mewn taliadau unioni gwirfoddol i'r gronfa unioni gwirfoddol (cyfanswm o £1,938,100). | Mehefin 2018 |
| NGN | Cydymffurfiaeth â Safon Perfformiad Gwarantedig 2 – pryderon mewn perthynas ag adfer safleoedd cwsmeriaid. | Wedi cau drwy gamau amgen. Talodd NGN £247,440 mewn iawndaliadau i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt; a thalodd £15,000 mewn taliadau unioni gwirfoddol i'r gronfa unioni gwirfoddol (cysanswm o £262,440). | Mehefin 2018 |
| EDF | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol o'r Drwydded Cyflenwi Trydan ac Amod Trwydded Safonol 38,4 o'r Drwydded Cyflenwi Nwy – methodd EDF â chyrraedd ei dargedau ar gyfer 2017 i osod mesuryddion deallus i'w gwsmeriaid. | Wedi cau drwy gamau amgen. Talodd EDF £350,000 mewn taliadau unioni gwirfoddol i'r gronfa unioni gwirfoddol. | Mehefin 2018 |
| Green Star Energy | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 25 a 31A – pryderon mewn perthynas â Dewisiadau ar sail Gwybodaeth a darparu datganiadau blynyddol. | Wedi cau drwy gamau cydymffurfio. Talodd Green Star £361,415 mewn iawndaliadau i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt; a thalodd £317,868 mewn taliadau unioni gwirfoddol i'r gronfa unioni gwirfoddol (cysanswm o £679,283). | Medi 2018 |
| SSE | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol 33 A, Rhan 3, Paragraff 3. Roedd SSE wedi gorddatgan taliadau cynhyrchu yn ei gyflwyniad lefelu blynyddol ar gyfer y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan (FIT) ar gyfer 2016/17 o £9.88m. | Wedi cau drwy gamau amgen. Cafodd y gordaliad a dalwyd i SSE ei ad-dalu i'r gronfa lefelu. Talodd SSE swm ychwanegol o £455,705 i gronfa lefelu FIT a gwnaeth daliad unioni gwirfoddol o £250,000 i'r gronfa unioni gwirfoddol. | Chwefror 2019 |
| Foxglove | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol 33 A, Rhan 3, Paragraff 3 a Gorchymyn Tariff Cyflenwi Trydan 2012 Roedd Foxglove wedi methu â gwneud ei daliad Tariff Cyflenwi Trydan. | Wedi cau drwy gamau amgen. Talodd Foxglove £497,691.80 i dalu ei ddyled Tariff Cyflenwi Trydan, a ddefnyddiwyd i leihau'r swm cilyddu sy'n ddyledus gan gyflenwyr eraill. | Chwefror 2019 |
| Eversmart | Cydymffurfiaeth ag Erthygl 68 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015 (fel y'i diwygiwyd) ac Erthygl 44 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (yr Alban) 2009 – methu â gwneud taliad Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. | Wedi cau drwy gamau amgen. Talodd Eversmart £439,149.82 i dalu ei ddyled Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a ddefnyddiwyd i leihau'r swm cilyddu sy'n ddyledus gan gyflenwyr eraill. | Mawrth 2019 |

### Gorchmynion Dros Dro

Isod ceir manylion y gorchmynion dros dro a wnaed yn ystod cyfnod yr adroddiad (mis Ebrill i fis Mawrth 2019).

| Gorchymyn dros dro a roddwyd | Cwmni | Pryder |
|---|---|---|
| Medi 2018 | npower | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol 32A – yr ymddygiad a oedd yn peri pryder a arweiniodd at y gorchymyn dros dro oedd bod npower wedi gwrthod cydymffurfio â chyfarwyddyd gan Ofgem yn ei gwneud yn ofynnol i npower gymryd rhan yn y treial Newid Cyfunol Dewis Bwriadol yn yr hydref. (Cyflwynwyd y treialon hyn gan Ofgem mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn dilyn yr Ymchwiliad i'r Farchnad Ynni). |
| Ionawr 2019 | Economy Energy | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 0, 27 a Rheoliadau Safonau Ymdrin â Chwynion Defnyddwyr 2008 – pryderon mewn perthynas â thrin cwsmeriaid yn deg, gwasanaeth cwsmeriaid, ymdrin â chwynion a materion yn ymwneud â bilio a thalu. |
| Ionawr 2019 | E (Gas and Electricity) Ltd (EGEL) | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 14A a 0.3a – pryderon mewn perthynas â throsglwyddo cwsmeriaid o Economy Energy i EGEL, gyda'r tebygolrwydd y gallai trosglwyddo i EGEL beri dryswch i'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt, a fyddai wedi rhagweld y byddent yn trosglwyddo'n drefnus i OVO yn lle hynny, drwy'r broses Cyflenwr Pan Fetho Popeth Arall. |
| Chwefror 2019 | Solarplicity | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 0, 14, 22, 27 a Rheoliadau Safonau Ymdrin â Chwynion Defnyddwyr 2008 – pryderon mewn perthynas â thrin cwsmeriaid yn deg, gwasanaeth cwsmeriaid, ymdrin â chwynion ac adennill dyled/gallu i dalu ac ymdrin â chwsmeriaid mewn sefyllfa fregus. |

O'r pedwar gorchymyn a wnaed, peidiodd dau ohonynt â chael effaith yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Peidiodd y gorchymyn dros dro a roddwyd i Economy Energy â chael effaith oherwydd rhoddodd y cwmni'r gorau i fasnachu ar 8 Ionawr 2019 a chafodd ei drwyddedau eu dirymu ar 12 Ionawr 2019.

Ar ôl canfod bod prosesau trosglwyddo cyn-gwsmeriaid Economy Energy i EGEL wedi cael eu canslo'n iawn ac nad oeddent wedi'u cwblhau, dirymodd yr Awdurdod y gorchymyn dros dro a roddwyd i EGEL ar 25 Chwefror 2019.

Gwnaeth Ofgem gais llwyddiannus i'r Uchel Lys am orfodeb yn gorfodi npower i gydymffurfio â'r gorchymyn dros dro a roddwyd iddo, sef y tro cyntaf i Ofgem ddefnyddio'r pwerau hyn. Hefyd, amddiffynnodd Ofgem her gyfreithiol i'r cyfarwyddyd a her statudol i'r gorchymyn dros dro yn yr Uchel Lys yn llwyddiannus.

Cafodd y gorchymyn dros dro a roddwyd i Iresa ym mis Mawrth 2018 (h.y. yn ystod blwyddyn yr adroddiad blaenorol) ei gadarnhau ym mis Mehefin 2018 ond daeth i ben ym mis Gorffennaf 2018 pan roddodd Iresa y gorau i fasnachu a chafodd ei drwyddedau eu dirymu.

### Gorchmynion Terfynol

Ym mis Mawrth 2019, rhoddodd yr adran Gorfodi orchymyn terfynol i URE Energy.[26] Mae'r gorchymyn terfynol yn ymwneud â methiant URE i gydymffurfio â'i rwymedigaethau yn unol ag Erthygl 7 o Orchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2015. Roedd y gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i URE dalu ei ddyled Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy o £209,000 erbyn 31 Mawrth 2019.

### Hysbysiadau Terfynol

Ni roddwyd unrhyw hysbysiadau terfynol gan yr Awdurdod yn unol â Rheoliadau Trydan a Nwy (Uniondeb a Thryloywder y Farchnad) (Gorfodi ac ati) 2013 yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

### Achosion agored

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2019. Nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Economy Energy, E(Gas and Electricity) and Dyball Associates | Medi 2016 | Ymchwiliad i ganfod p'un a dorrwyd Pennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 o ran cytundebau nad oeddent yn gystadleuol o bosibl ac arferion ar y cyd |
| Heb ei ddatgelu | Chwefror 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a fu achos o dorri REMIT. |
| Heb ei ddatgelu | Ebrill 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a fu achos o dorri REMIT. |
| Heb ei ddatgelu | Ebrill 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a fu achos o dorri REMIT. |
| Heb ei ddatgelu | Mai 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a fu achos o dorri REMIT. |
| Heb ei ddatgelu | Mai 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a fu achos o dorri REMIT. |
| Heb ei ddatgelu | Awst 2017 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw gofynion Pennod II Deddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu torri mewn perthynas â chamddefnydd posibl o sefyllfa flaenllaw gan gwmni sy'n darparu gwasanaethau i'r diwydiant ynni. |
| Ovo | Chwefror 2018 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw Ovo wedi cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 31A a 25C/0 mewn perthynas â gwybodaeth am filiau, datganiadau cyfrif a Datganiadau Blynyddol. Ym mis Medi 2018, cafodd hwn ei ymestyn i gynnwys Amodau Trwydded Safonol 22C, 26 a 27 |
| Cadent | Ebrill 2018 | Ymchwiliad i Cadent Gas Limited a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan ei drwydded cludwr nwy (Amodau Arbennig Safonol A40, A50 ac A55) ac, o ganlyniad i hynny, adran 9 o Ddeddf Nwy 1986. |
| Y Grid Cenedlaethol | Mai 2018 | Ymchwiliad i National Grid Electricity Transmission (NGET) a'i gydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau o dan Amod Trwydded Safonol 16 o'r Drwydded Trawsyrru. |
| Utility Warehouse | Mehefin 2018 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Utility Warehouse ag Amodau Trwydded Safonol 25C/0, 27.5, 27.8 a 28B o'r Drwydded Cyflenwi Trydan a'r Drwydded Cyflenwi Nwy. |
| Heb ei ddatgelu | Rhagfyr 2018 | Ymchwiliad i ganfod p'un a yw gofynion Pennod II Deddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu torri mewn perthynas â chamddefnydd posibl o sefyllfa flaenllaw mewn perthynas â gweithgareddau masnachu cyfanwerthol. |

# Atodiad III
# Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

**Ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019, sy'n costio mwy na £245 y diwrnod ac yn para am fwy na chwe mis.**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa ar ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2019:

| **Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2019** | **2** |
|---|---|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd. | 2 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd. | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd. | 0 |

Mae pob ymrwymiad nad yw ar y gyflogres sydd eisoes yn bodoli, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad ar sail risg ar ryw adeg i weld a oes angen sicrhau bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth a, lle bo angen, fod y sicrwydd hwnnw wedi'i gadarnhau.

**Ymrwymiadau newydd nad ydynt ar y gyflogres, neu'r rhai sydd wedi para am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, sy'n costio mwy na £245 y diwrnod ac sy'n para am fwy na chwe mis**

| **Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai sydd wedi para chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019** | **2** |
|---|---|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymiadau y cafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy | 2 |
| Nifer yr ymrwymiadau na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy | 0 |
| Nifer yr ymrwymiadau a derfynwyd am na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy. | 0 |

**Ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019**

| | |
|---|---|
| Nifer ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 0 |
| Nifer yr unigolion y tybiwyd eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymiadau nad ydynt ar y gyflogres a rhai sydd ar y gyflogres. | 2 |

# Atodiad IV
# Amser cyfleuster undeb llafur

**Tabl 1**
**Swyddogion undeb perthnasol**

Beth oedd cyfanswm nifer eich cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol?

| Nifer y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn |
|---|---|
| 12 | 816 |

**Tabl 2**
**Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

Faint o'ch cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol a gyflogwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, wnaeth dreulio a) 0%, b) 1%-50%, c) 51%-99% neu d) 100% o'u horiau gwaith ar amser cyfleuster?

| Canran yr amser | Nifer y cyflogeion |
|---|---|
| 0% | 0 |
| 1%-50% | 12 |
| 51%-99% | 0 |
| 100% | 0 |

**Tabl 3**
**Canran y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster**

Nodwch y ffigurau y gofynnir amdanynt yng ngholofn gyntaf y tabl i bennu canran cyfanswm eich bil cyflogau a wariwyd ar dalu cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol am amser cyfleuster yn ystod y cyfnod perthnasol

| | |
|---|---|
| Nodwch gyfanswm cost amser cyfleuster | £8,367 |
| Nodwch gyfanswm y bil cyflogau | £53,292k |
| Nodwch ganran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn:<br>(cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ cyfanswm bil cyflogau) x 100 | 0.016% |

**Tabl 4**
**Gweithgareddau undeb llafur â thâl**

Fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, sawl awr a dreuliwyd gan gyflogeion a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod ar weithgareddau undeb llafur â thâl?

| | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl, wedi'i chyfrifo fel a ganlyn: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd gan swyddogion undeb perthnasol ar weithgareddau undeb perthnasol â thâl yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm oriau amser cyfleuster â thâl) x 100 | 100% |

# Atodiad V

# Trefniadau statudol o dan Adran V o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5(1) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol bob blwyddyn ar y canlynol:

- gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn;
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ati gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy gydol yr adroddiad hwn. [Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt]

Mae Adran 5(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol:

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
    - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau
    - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan;
      **(Cyfeirir at y datblygiadau hyn yn Performance Report)**
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno;
  **Adroddir ar gynnydd ar dudalen 7.**
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn i'w weld yn Atodiad II)**
- Crynodeb o'r cosbau a roddwyd gan GEMA yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn i'w weld yn Atodiad II)**
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan GEMA yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno;
  **(Mae hwn i'w weld yn Atodiad II)**
- Adroddiad ar unrhyw faterion eraill a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Mae Adran 5(2A) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys adroddiad ar y canlynol yn ei adroddiad blynyddol

(a) y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni);

(b) i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfennau eraill fel y pethau y cynigiodd yr Awdurdod eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi.

**(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dynodi datganiad strategaeth a pholisi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn adrodd hon])**

Mae Adran 5(3) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod nodi yn ei adroddiad blynyddol unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989.

**(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)**